



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru 2021– 2027 Crynodeb

Gorffennaf 2022

Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Rydym wedi llunio [llyfryn i'ch cyflwyno i'n ffordd newydd o weithio](#). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [canllaw statudol at ddiben cyffredinol CNC](#). Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn amlinellu ein diben cyffredinol.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud y canlynol:

- dilyn dulliau o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru,
- cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth gyflawni ei swyddogaethau, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â'u cyflawni'n briodol.

Mae gennym hefyd ddyletswydd, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i sicrhau'r cyfraniad mwyaf at y saith nod llesiant, drwy reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Rydym yn gwneud hyn drwy bennu amcanion llesiant, a sicrhau bod ein gwaith yn cyfrannu at bob un ohonynt.

Cynnwys

Acronymau.....	4
1. Cynllunio ar gyfer y Dyfodol	5
1.1 Cyflwyniad	5
1.2 Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru	9
1.3 Dilyn dull seiliedig ar le	13
1.4 Anghenion tystiolaeth	18
2. Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru	19
2.1 Sut rydym yn pennu'r dosbarthiad gwaelodlin	19
2.2 Cemegion, gan gynnwys y rheini sy'n hollbresennol, yn barhaus, yn fiogronnus ac yn wenwynig	25
2.3 Ardaloedd gwarchodedig.....	26
2.4 Cyflawni camau gweithredu 2015-2021	30
2.5 Heriau yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru.....	34
2.6 Aseidiadau risg.....	37
3. Mesurau ac Amcanion	39
3.1 Crynodeb o'r Rhaglen o Fesurau	39
3.2 Y prif raglenni cyflenwi	40
3.3 Dalgylchoedd Cyfle yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru	53
3.4 Pennu Amcanion ar gyfer y trydydd cylch	59
4. Gweithrediad a'r hyn rydym am ei gyflawni erbyn 2027	63
4.1 Yr hyn yr hoffem fod wedi'i gyflawni erbyn 2027	64
5. Camau gweithredu ymarferol y gallwn i gyd eu cymryd	71
Atodiad 1.....	74
Enghreifftiau o gamau a gymerwyd yn ystod yr ail gylch ar gyfer Ardal Basn Gorllewin Cymru.....	74
Gweithio mewn Partneriaeth	74
Prosiectau	77
Astudiaethau Achos	80
Prosiectau LIFE.....	83

Acronymau

Acronym	Ystyr
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
BGC	Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
ABA	Ardal Basn Afon
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
SoNaRR	Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
DU	Y Deyrnas Unedig

1. Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

1.1 Cyflwyniad

Dan Reoliadau Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017, (y cyfeirir atynt fel Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017), mae angen cynllun rheoli ar gyfer pob Ardal Basn Afon. Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru am y tro cyntaf yn 2009 a'i ddiweddarau yn 2015. Mae'r ddogfen hon yn rhan o'r diweddariad diweddaraf i'r cynllun hwnnw. Mae rheoli basnau afon yn gylch parhaus o gynllunio a chyflawni (gweler Ffigur 1).

Ffigur 1 Cylchoedd Cynllunio Rheoli Basn Afon



Diben y cynllun hwn yw diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr er budd ehangach pobl a bywyd gwyllt. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r cynllun yn cynnwys crynodeb o'r Rhaglen o Fesurau sydd eu hangen i gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ynghyd â'r canlyniadau amgylcheddol a ragwelir dros y chwe blynedd nesaf. Gyda'i gilydd, bydd y dull a'r camau a amlinellir yn y cynllun hwn yn cael effaith ar bob math o ddŵr ar draws y dalgylchoedd a gwmpesir gan y cynllun rheoli, gan gynnwys afonydd, llynnoedd, camlesi, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Nod y cynllun yw ei fod yn cael ei integreiddio ar lefel dalgylch, gan sicrhau cysylltiad ar draws yr amgylchedd ehangach, o'r tarddiad i'r môr, ar gyfer pobl a bywyd gwyllt.

Mae'r amcanion amgylcheddol yn y cynllun hwn yn gyfreithiol rwymol ac wedi'u cyflwyno i'r Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r cynllun yn bodloni gofynion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 a chanllawiau statudol gan y llywodraeth. Mae'n disodli'r cynllun a gyhoeddwyd yn 2015, ac eithrio'r dadansoddiad economaidd o'r defnydd o ddŵr, ceir rhagor o fanylion yn Adran 3.6 **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**.

Mae'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Dosbarthiad cyrff dŵr – Statws gwaelodlin pob corff dŵr. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall cyflwr presennol y cyrff dŵr, gan gynnwys yr holl elfennau ansawdd. Mae atal dirywiad o'r sefyllfa sylfaenol hon yn un o amcanion allweddol y cynllun hwn, ac mae hefyd yn un o'r heriau mwyaf sylweddol rydym yn ei hwynebu wrth ddiogelu'r amgylchedd dŵr
- Crynodeb o Raglen o Fesurau i gyflawni amcanion statudol – Mae'r rhain yn cynnwys amcanion statudol ar gyfer Ardaloedd Gwarchoddedig. Mae'r rhaglen yn amlinellu'r camau i'w cymryd dros gylch cynllunio nesaf a blaengynllunio. Mae'n cynnwys camau gweithredu lleol, yn enwedig Dalgylchoedd Cyfle a fydd yn un o'r

rhaglenni allweddol i'w datblygu dros y chwe blynedd nesaf gyda ffocws ar gydwethio a darparu buddion lluosog i bobl a bywyd gwyllt

- Amcanion statudol ar gyfer cyrff dŵr – Mae amcanion wedi'u pennu ar gyfer pob elfen ansawdd ym mhob corff dŵr, gan gynnwys amcan ar gyfer y corff dŵr cyfan. Yr amcan arferol oedd anelu at gyflawni statws neu botensial da erbyn 2027. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, rydym wedi ymestyn y terfyn amser neu wedi gosod amcan llai na da lle gellir cyfiawnhau hyn ar sail amodau naturiol, amser adfer ecolegol, dichonoldeb technegol neu gost anghymesur

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddylanwadu gan yr adborth o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd dros y pedair blynedd diwethaf, mae rhagor o fanylion i'w cael yn **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**.

Dysgwyd llawer o wersi yn ystod y broses gynllunio a chyflenwi ers cyflwyno'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn 2000 a'i throsi'n gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn 2003 gan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003. Mae Rheoliadau 2003 wedi cael eu diweddarau a'u disodli gan Reoliadau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Mae'r gwersi allweddol a ddysgwyd yn cynnwys pwysigrwydd ymgysylltiad cynnar â'n partneriaid; mae gwelliannau amgylcheddol yn cymryd amser ac efallai na fydd modd eu gweld mewn dosbarthiad o fewn cylch; ac mae'n anodd gwneud ymrwymadau ar ddyrannu adnoddau ar gylchred chwe blynedd. Ers y cylch cyntaf mae ein dealltwriaeth o statws da/gofynion posibl wedi datblygu, ac mae technegau a safonau monitro gwell wedi'u hadlewyrchu yn y dosbarthiad. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi cyfle i ni adeiladu ar y sylfaen a ddarparodd Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ran datblygu dull seiliedig ar le.

1.1.1 Dod o hyd i'ch ffordd o amgylch y Cynllun Rheoli Basn Afon

Mae cynlluniau rheoli basn afonydd yn ddogfennau strategol. Er bod y bwriadau gorau wedi'u gwneud i sicrhau bod y cynllun hwn yn hygyrch, mae'r ddogfen yn cael ei chyflwyno i fodloni gofynion statudol Rheoliadau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Mae rhestr o dermau wedi'i chynnwys yn **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**. Os na allwch ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch o'r cynllun hwn, e-bostiwch WFDWales@naturalresourceswales.gov.uk a byddwn yn eich helpu.

Mae'r trydydd Cynllun Rheoli Basn Afon yn cynnwys sawl dogfen ac offeryn gwe rhyngweithiol. Disgrifir y newidiadau hyn isod. Mae'r dogfennau ategol sy'n cynnwys asesiadau statudol gofynnol y Cynllun Rheoli Basn Afon hefyd wedi'u hamlinellu.

1.1.1.1 Y Cynllun Rheoli Basn Afon

Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru Drafft 2021–2027, Crynodeb (y ddogfen hon)

Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio cyflwr cyfredol yr Ardal Basn Afon, a'r hyn rydym wedi'i gyflawni ers 2009, y rhaglen o fesurau ar gyfer gwella'r amgylchedd dŵr erbyn 2027, amcanion a gweithrediad y cyrff dŵr ar gyfer y trydydd cylch.

Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)

Mae'n darparu manylion technegol i Gymru y tu ôl i'r penderfyniadau sydd wedi llunio'r trydydd Cynllun Rheoli Basn Afon. Mae'n cyfeirio at ddolenni i nifer o ddogfennau atodol ar gyfer yr wybodaeth a'r arweiniad mwy technegol ac yn eu darparu. O dan Reoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2017, rhaid cyhoeddi stocrestr o allyriadau, gollyngiadau a cholledion sylweddau blaenoriaeth ar gyfer pob Ardal Basn Afon. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon gan gynnwys y fethodoleg yn **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**.

Arsylwi Dyfroedd Cymru – data, mapiau a Dalgylchoedd Cyfle

Mae'n well cyflwyno llawer o'r wybodaeth y cyfeirir ati yn y ddogfen hon ar ffurf map neu daenlen. Ceir gwybodaeth am gyflwr presennol yr amgylchedd dŵr, mesurau ac amcanion ar gyfer ei wella ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#). Offeryn gofodol rhyngweithiol ar y we yw hwn sy'n darparu gwybodaeth a data ategol i gynorthwyo partneriaid. Mae'n galluogi'r defnyddiwr i lywio i'w faes diddordeb ac adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am y maes penodol hwnnw.

Cofrestr Ardal Warchoddedig

Mae'r gofrestr o'r Ardaloedd Gwarchoddedig sydd o fewn yr Ardal Basn Afon (ABA) wedi'i hadolygu a'i diweddarau. Mae'n darparu gwybodaeth am bob ardal warchoddedig, gan gynnwys: Ardaloedd gwarchoddedig Dŵr Yfed (dŵr wyneb a dŵr daear), Dyfroedd Pysgod Cregyn, Dyfroedd Ymdrochi (hamdden), ardaloedd sy'n sensitif i faetholion a safleoedd Ewropeaidd sy'n dibynnu ar ddŵr.

1.1.1.2 Dogfennau ategol

Adroddiad sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol

Cymhwyswyd y sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) sydd ei angen i gydymffurfio â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 i raglen ddrafft y trydydd cylch o fesurau. Mae'r Adroddiad penderfyniad sgrinio AAS ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru yn nodi'r rhesymeg dros beidio â chynnal AAS llawn. Penderfynodd CNC y gellid ystyried y trydydd cylch fel mân addasiad i'r Cynllun Rheoli Basn Afon, a oedd yn destun AAS llawn yng nghylch un a dau.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (Rheoliadau Cynefinoedd 2017) mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o drydydd Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru wedi'i gynnal i ystyried a yw'r cynlluniau'n debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd.

Nid oedd modd sgrinio rhai mesurau fel rhai na fyddent yn cael unrhyw effaith sylweddol debygol oherwydd y diffyg manylion a oedd ar gael ac fe'u symudwyd ymlaen i'r Asesiad Priodol. Penderfynwyd ar y dull hwn o weithredu ar sail ragofalus o ystyried newidiadau mewn cyfraith achosion rhwng yr ail a'r trydydd cylch ac ansicrwydd effeithiau rhai mesurau ar lefel uchel y Cynllun Rheoli Basn Afon. Dylid ystyried y casgliad hwn yng nghyd-destun prif nodau'r Cynllun Rheoli Basn Afon, sef gwella'r amgylchedd dŵr gan gynnwys Ardaloedd Gwarchoddedig. Mae'r Asesiad Priodol yn nodi'r meini prawf ar gyfer

gohirio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru i gynlluniau, rhaglenni a phrosiectau haen is Rydym yn hyderus y gellir cyflawni Cynlluniau Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru heb achosi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle. Cyhoeddir y ddogfen ochr yn ochr â'r cynllun.

1.1.2 Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Gadawodd y Deyrnas Unedig (DU) yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar 31 Ionawr 2020, a dechreuodd gyfnod pontio a barodd tan 31 Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod pontio, parhaodd y DU i weithredu deddfwriaeth yr UE, trosi unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE, a parhaodd i fod o dan awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

Roedd gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr eisoes wedi'u hymgorffori yng nghyfraith y DU drwy Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Mae'r Rheoliadau yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir yn unol â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Er mwyn sicrhau y gall Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr weithredu ar ôl i'r UE ymadael, cyflwynwyd offerynnau statudol i gywiro diffygion sy'n ymwneud â Brexit yn Senedd y DU a'r Senedd, sef Rheoliadau'r Amgylchedd (Swyddogaethau Deddfwriaethol yn sgil Gyfarwyddebau) (Ymadael â'r UE) 2019 a'r Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Diwygio ac ati.) Rheoliadau 2019 (Ymadael â'r UE). Nid yw'r diwygiadau hyn yn cael effaith ar y ffordd rydym yn cynnal proses y Cynllun Rheoli Basn Afon.

1.1.3 COVID-19


Yn ystod 2020 a 2021, arweiniodd pandemig byd-eang COVID-19 a'r ymateb iechyd cyhoeddus at gyfnodau clo a chyfyngiadau symud er mwyn cyfyngu ar ledaeniad y feirws COVID-19. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei phwerau cyfreithiol i lunio rheoliadau a orfododd gyfyngiadau neu ofynion ar bobl gyda'r bwriad o atal achosion o'r coronafeirws, neu ei ledaeniad, yng Nghymru, amddiffyn yn erbyn y feirws a'i ledaeniad, a rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd iddo. Cafodd cyfyngiadau tebyg hefyd eu cymhwyso yn Lloegr gan y Llywodraeth.

Cafodd hyn effaith ar bob sefydliad yng Nghymru a Lloegr. O safbwynt CNC golygodd hyn y bu'n rhaid i ni atal ein rhaglen fonitro, y gwnaethom ohirio neu ganslo rhai o'n prosiectau gwella, ac y gwnaethom leihau'r gwaith ymgysylltu â rhai o'n rhanddeiliaid a oedd wedi gorfod rhoi staff ar ffyrlo. Cafodd effaith hefyd ar amseriad yr ymgynghoriad hwn. Nid ydym eto'n gwybod maint effaith y feirws a'r cyfyngiadau dilynol ar ein rhaglen waith ar gyfer y trydydd cylch. Mae COVID-19 hefyd wedi agor cyfleoedd ehangach hefyd o ran cysylltiad cymdeithas â natur. Dechreuodd pobl archwilio mannau awyr agored lleol yn fwy yn ystod y cyfnod hwn, sy'n newid ymddygiad y dylai CNC ei ddefnyddio ac adeiladu arno yn y dyfodol.

1.2 Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Ffigur 2 yn dangos ffin Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru.

Ffigur 2 Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru



Cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw cynllunio dyfodol Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru.

Mae Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn cwmpasu ardal o 16,653 cilomedr sgwâr. Mae'n ymestyn dros hanner gorllewinol cyfan Cymru, o Fro Morgannwg yn y de i Sir Ddinbych yn y gogledd.

Mae'r prif ganolfannau poblogaeth wedi'u cyfyngu i'r sribyn arfordirol a rhan fwyaf gorllewinol Cymoedd De Cymru. Mae'r prif ganolfannau trefol yn cynnwys Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd yn y de, Aberystwyth ar yr arfordir yng nghanolbarth Cymru, a Bae Colwyn, Y Rhyl, Llandudno a Bangor ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Mae'r ardal basn afon yn wledig yn bennaf, a defnyddir tir ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae diwydiannau morol, olew a nwy yn parhau i fod yn weithgareddau economaidd pwysig, ynghyd â diwydiant trwm fel y gwaith dur ym Mhort Talbot, a physgodfeydd masnachol, pysgodfeydd pysgod cregyn, a thwristiaeth sy'n nodedig o gwmpas arfordir Cymru.

Mae'r afonydd, llynnoedd, dyfroedd aberol a dyfroedd arfordirol yr ardal yn enwog am bysgota. Mae tua 70 y cant o arfordir yr Ardal wedi'i ddynodi (o dan Gyfarwydddebau'r Undeb Ewropeaidd a chyfraith y DU) oherwydd ei ansawdd amgylcheddol, gan gynnwys llawer o draethau ymdrochi o'r radd flaenaf a safleoedd cadwraeth sy'n rhyngwladol bwysig. Mae pob corff dŵr daear yn yr ardal basn afon yn ffurfio rhan o Ardal Dŵr Yfed Warchoddedig.

Ceir gwelyau cocos mawr a gwerthfawr yn Nhraeth Lafan yn y gogledd a Chilfach Porth Tywyn yn y de. Caiff cregyn gleision eu cynaeafu o welyau naturiol yn afon Conwy a'u ffermio yn afon Menai. Defnyddir llawer o'r ucheldiroedd ar gyfer ffermio da byw a choedwigaeth fasnachol. Ffermio gwartheg godro a geir yn bennaf ar y tir isel, yn enwedig yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae hinsawdd mwynach Sir Benfro hefyd yn hwyluso ffermio â sylweddol.

Mae'r arfordir dramatig, y dyfroedd ymdrochi, a'r ffaith fod poblogaeth sylweddol yn agos hefyd yn esbonio pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth arfordirol, sy'n parhau i fod yn gyfrannwr sylweddol i economi Cymru. Mae hyn yn cynnwys llwybr Llwybr Arfordir Cymru sy'n ymestyn am 870 milltir ar hyd arfordir Cymru, mae'r llwybr yn un o'r ychydig lwybrau troed yn y byd sy'n dilyn arfordir gwlad – yn mynd â chi drwy dirwedd Cymru gan gynnwys ei threftadaeth a'i chymunedau.

Ein nod yw gwella'r amgylchedd drwy gydweithredu'n barhaus. Ceir llawer o enghreifftiau da eisoes o weithio mewn partneriaeth, ac mae angen i ni adeiladu ar y rhain. Mae angen i ni sicrhau y caiff yr amcanion ar gyfer Cynlluniau Rheoli Basn Afon eu hintegreiddio mewn cynlluniau a pholisïau eraill. Yn benodol, mae'n rhaid i hyn gynnwys ein gwaith cynllunio adnoddau naturiol, Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, Cynlluniau Busnes Cwmnïau Dŵr, Cynlluniau Rheoli Traethlin, a Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru.

Rydym yn cydnabod y bydd hinsawdd newidiol yn effeithio ar y buddion y mae ein hamgylchedd yn eu darparu. Gan weithio mewn partneriaeth, ein nod yw datblygu ein dealltwriaeth o effeithiau lleol, a chynnwys gwydnwch yn wyneb y newid yn yr hinsawdd, ac addasu iddo, yng ngwaith rheoli basnau afon.

1.2.1 Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn

Mae Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru wedi elwa ar fuddsoddiad, dros y 30 a mwy o flynyddoedd diwethaf, sydd wedi cyflwyno gwelliannau er budd pobl, bywyd gwyllt a'r economi. Ers cyhoeddi'r Cynllun Rheoli Basn Afon wedi'i ddiweddarau yn 2015, rydym wedi parhau i wella'n dealltwriaeth o'r pwysau ar yr amgylchedd dŵr, gan ein galluogi i dargedu camau i'w rheoli. Yn 2015, cyflawnodd 40% o gyrff dŵr statws cyffredinol da neu well. Mae'r dosbarthiad diweddaraf yn dangos bod hyn wedi gwella i 42%. Gwneir y gymhariaeth gan ddefnyddio'r safonau, y dulliau asesu a'r cyrff dŵr sy'n cynrychioli'r wybodaeth orau a ddefnyddiwyd ac felly'r darlun mwyaf cywir o'r amgylchedd dŵr ar y pryd.

Mae llawer o sefydliadau (gweler Atodiad 1) wedi cydweithio ar draws yr ardal basn afon ar amrediad o brosiectau. Mae'r rhain yn grwpiau o sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwella'r amgylchedd yn eu hardal leol. Mae'r partneriaethau'n gweithio ar amrediad eang o faterion, gan gynnwys yr amgylchedd dŵr, ond maent hefyd yn mynd i'r afael â materion ehangach nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio basnau afon.

1.2.2 Pwy sy'n rheoli Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru?

Mae llawer o sefydliadau'n gyfrifol am reoli'r ardal basn afon. Caiff y sefydliadau hyn yn aml eu gosod mewn grwpiau fesul sector, a cheir crynodeb ohonynt yn Tabl 1.

Tabl 1 Grwpiau fesul sector sydd ynghlwm wrth reoli basnau afon

Sector	Enghreifftiau
Rheoli tir amaethyddol a gwledig	Yn cynnwys tir âr, da byw, coedwigaeth a garddwriaeth
Genweirio a Chadwraeth	Yn cynnwys grwpiau genweirio a chadwraeth
Llywodraeth ganolog	Yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chyrff llywodraeth datganoledig (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd)
Domestig / y cyhoedd	Yn cynnwys unigolion a grwpiau cymunedol
Ynni	Yn cynnwys grwpiau ynni adnewyddadwy ac ynni dŵr
Iechyd	Yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru
Diwydiant, Gweithgynhyrchu a Busnesau eraill	Yn cynnwys cemegion, adeiladu, bwyd a diod, papur, tecstilïau a metelau

Sector	Enghreifftiau
Llywodraeth Leol	Yn cynnwys Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Mwyngloddio a Gwaith Chwarela	Yn cynnwys cloddio am lo, mwyngloddio am adnoddau nad ydynt yn lo, a gwaith chwarela
Mordwyaeth	Yn cynnwys grwpiau dyfrffyrdd mewndirol, ac awdurdodau porth a harbwr
Cyrff Anllywodraethol	Yn cynnwys cyrff anllywodraethol amgylcheddol (gan gynnwys ymddiriedolaethau natur ac afonydd) a chyrrff anllywodraethol eraill
Hamdden	Yn cynnwys cerddwyr, canŵ-wyr a grwpiau amwynder
Prifysgolion	Yn cynnwys casglu a dehongli tystiolaeth
Trefol a Chludiant	Yn cynnwys aer, ffyrdd, rheilffyrdd a threfol
Trin, trosglwyddo, storio a gwaredu gwastraff	Yn cynnwys tirlenwi, biowastraff, a thrin a throsglwyddo gwastraff
Diwydiant Dŵr	Yn cynnwys cyflenwi dŵr, a thrin dŵr a charthion

Ceir crynodeb o enghreifftiau o gynlluniau a strategaethau sy'n ymwneud â rheoli dŵr gan sefydliadau a gynrychiolir gan y sectorau uchod yn **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**.

Rydym yn gweithio gyda'r sectorau hyn, ac yn cyfathrebu â nhw, drwy ein fforymau rhanddeiliaid allanol. Mae Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn cynnig cyfle i sefydliadau sy'n aelodau o'r fforwm rannu tystiolaeth ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio er mwyn cyflawni'r gwaith o reoli dŵr yn gynaliadwy – o'i darddiad i'r môr. Caiff ei gadeirio gan aelod o fwrdd CNC, ac mae'n cwrdd dwywaith y flwyddyn. Cyhoeddir dyddiadau cyfarfodydd a chofnodion cyfarfodydd [ar ein gwefan](#). Mae'r fforwm hefyd yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu, cefnogi a chyfleu negeseuon ac argymhellion a rennir ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae Fforwm Rheoli Dŵr Cymru'n gweithio gyda Fforwm Rheoli Tir Cymru, Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol. Cafodd Is-grŵp Amaethyddiaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru y dasg o gynnal dadansoddiad manwl er mwyn deall gwraidd llygredd amaethyddol. Edrychodd y grŵp ar y ffyrdd yr eir i'r afael â'r achosion hyn ar hyn o bryd drwy ymchwilio i ddatrysiadau posibl, cytuno ac adrodd arnynt, a'u cyflwyno, gan ddilyn dull integredig a chan weithio ar draws sefydliadau. Cyhoeddwyd adroddiad gan y grŵp ym mis Ebrill 2018 ar [fynd i'r afael â llygredd amaethyddol](#).

1.2.3 Graddfa o fewn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Mae'r cynllun hwn yn cyfeirio at dair uned reoli: ardaloedd basn afon, dalgylchoedd rheoli, a chyrrff dŵr. Yr ardal basn afon yw'r un fwyaf, ac sy'n ffurfio'r ardal gyfan y mae'r cynllun hwn yn ymwneud â hi. Rhennir ardaloedd basn afon yn ddalgylchoedd rheoli llai sy'n ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau mwy lleol, a chyrrff dŵr yw'r rhannau unigol o afonydd, llynnoedd, camlesi, aberoedd, dyfroedd arfordirol neu ddyfroedd daear yr ydym yn eu monitro ac yn adrodd arnynt o safbwynt eu hansawdd.

Nid yw gwaith rheoli'r amgylchedd dŵr bob amser yn cael ei gydlynu yn y modd gorau ar y raddfa ardal basn afon. O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'r ffiniau (gweler Ffigur 5 ar dudalen 7) a gwmpesir gan Ddatganiadau Ardal wedi'u cyhoeddi, a bydd hyn yn ffordd newydd o weithio a fydd yn dibynnu ar gydweithrediad â phartneriaid a rhanddeiliaid. Mae dalgylchoedd yn parhau i fod yn bwysig, a chânt eu rheoli fel rhan o'r gwaith a wneir ar draws ffiniau Datganiadau Ardal.

Mae CNC yn gallu gwneud sawl gwelliant sylweddol drwy ei weithgareddau ei hun, er enghraifft:

- Rheoli Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru
- Gweithredu asedau rheoli llifogydd a hydrometreg
- Rheoli Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

Mae CNC yn rheoleiddiwr sy'n sicrhau y caiff deddfwriaeth ar gyfer gwarchod yr amgylchedd ei chymhwyso'n deg yn unol â'n hegwyddorion rheoleiddio. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol i gyflwyno prosiectau a mentrau i wella'r amgylchedd dŵr. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys datblygu ein dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, y Strategaeth Mwynglawdd Metel dros Gymru, a Chynllun Gweithredu Rheoli'r Ardal Forol Warchoddedig. Mae strategaethau eraill ar lefel y DU [ac maent yn cynnwys Strategaeth Forol y DU a'r dull strategol o fynd i'r afael â risgiau o gemegion niweidiol yn nyfroedd y DU](#).

1.3 Dilyn dull seiliedig ar le

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn datgan bod yn rhaid i CNC lunio adroddiad sy'n cynnwys ei asesiad o sefyllfa adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru. Mae'r ail [Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\) ar gyfer Cymru 2020](#) yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth yn adroddiad cyntaf [Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016](#) gan ddangos rhai o'r pwysau allweddol, yr effeithiau a'r cyfleoedd ar gyfer gweithredu. Mae SoNaRR2020 yn defnyddio nifer o asesiadau o Gymru, y DU a byd-eang o statws a thueddiadau adnoddau naturiol ac yn edrych ar y risgiau y mae'r tueddiadau hynny yn eu hachosi i'n hecosystemau a llesiant Cymru fel y'u diffinnir yn y ddogfen [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Mae wyth ecosystem fras a nifer o themâu trawsbynciol wedi cael eu defnyddio yn Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 er mwyn asesu Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Dyma flociau adeiladu asesiad cyffredinol CNC. Y materion allweddol yn y bennod [Dŵr croyw](#) yw newid yn yr hinsawdd, addasu ffisegol, llygredd, dirywiad mewn bioamrywiaeth dŵr croyw, diffyg cysylltedd rhwng afonydd a'u gorlifdiroedd a


rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'r bennod yn cyflwyno tystiolaeth o gyflwr ecosystemau dŵr croyw a'r pwysau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'r cyfleoedd i gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar gyfer ecosystemau dŵr croyw. Mae'r pwysau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer ecosystemau morol a thrawsnewidiol wedi'u nodi o fewn penodau [Ymylon arfordirol](#) a phenodau [Morol](#) Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020.

Ers cyhoeddi'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol cyntaf mae [pedwar nod hirdymor yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol](#) wedi'u cytuno sy'n arwain yr asesiadau sy'n sail i SoNaRR2020. Pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

- Diogelu a gwella stociau adnoddau naturiol
- Ecosystemau gwydn yn erbyn newid disgwylidig ac annisgwyl
- Lleuedd iach ar gyfer pobl yng Nghymru, wedi'u hamddiffyn rhag peryglon amgylcheddol
- Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

Caiff cynnydd Cymru tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o fewn Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 ei asesu'n unigol tuag at y pedwar nod er nad oes modd eu gwahanu. Mae'r diagram yn Ffigur 3 yn dangos cysylltiadau a natur gylchol pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

Ffigur 3 Cysylltiadau a natur gylchol pedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy



Roedd Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016 yn sylfaen dystiolaeth bwysig i Weinidogion Cymru ei hystyried wrth baratoi'r [Polisi Adnoddau Naturiol](#), i CNC wrth baratoi [Datganiadau Ardal](#) ac ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol wrth adnewyddu cynlluniau datblygu lleol. O dan [Ddeddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#), mae gofyniad i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol, sy'n amlinellu'r blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd cenedlaethol yng Nghymru. Cafodd y Polisi Adnoddau Naturiol ei lunio gan ystyried canfyddiadau'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn amlinellu'r fframwaith polisi i'w gwneud yn bosibl i reoli'r amgylchedd mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Mae'n cynnwys dyletswydd ar CNC i lunio Datganiadau Ardal i helpu i weithredu'r blaenoriaethau a amlinellir ym Mholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Ceir saith maes neu 'le' yng Nghymru, gan gynnwys yr amgylchedd morol. Mae gan bob ardal ddogfen Datganiad Ardal fyw, a gafodd ei chyhoeddi am y tro gyntaf ym mis Ebrill 2020, sy'n crynhoi'r heriau a chyfleoedd sy'n berthnasol i'r ardal honno. Mae'r gwaith o gyflenwi Datganiadau Ardal yn gofyn am ffordd newydd o weithio, ac yn dibynnu ar gydweithrediad llwyddiannus â phartneriaid a rhanddeiliaid.


Roedd [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus weithio tuag at gyflawni'r saith Nod Llesiant a'i bod yn ystyried sut y bydd eu penderfyniadau'n cael effaith ar bobl sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi [Egwyddor Datblygu Cynaliadwy](#) ar waith sy'n dweud wrth sefydliadau sut i gyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae pum peth y mae angen i gyrrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor hon: Tymor hir, Ataliaeth, Integreiddio, Cydweithio a Chynhwysiad. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae BGC yn gyfrifol am gyhoeddi Asesiad o Les Lleol a [Chynllun Llesiant Lleol](#).

Mae ecosystemau dŵr yn darparu gwasanaethau ecosystem pwysig gan gynnwys cyflenwad dŵr, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, rheoli llifogydd, hamdden a physgodfeydd. Mae cydbwysu'r defnydd o'r gwasanaethau hyn gyda'i gilydd a rheolaeth gynaliadwy ar ddalgylchoedd yn her sylweddol. O safbwynt trydydd cylch y Cynllun Rheoli Basn Afon, rydym yn bwriadu dilyn dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy sy'n seiliedig ar le i flaenoriaethu dalgylchoedd, sef un sy'n cyflawni canlyniadau/gwelliannau ansawdd dŵr a ffisegol a buddion ehangach i'r amgylchedd a phobl. Byddai hyn yn cynnwys darparu buddion rheoli perygl llifogydd, buddion i ecosystemau dŵr croyw, arfordirol a morol a rhywogaethau sy'n cyd-fynd â buddion llesiant i bobl.

Nod prosiectau partneriaeth, fel [Prosiect Dalgylch Uwch Conwy](#), yw gweithio gyda thenantiaid, tiffeddianwyr a thrigolion i wella'r gwaith o reoli tir a dŵr er budd pobl a bywyd gwyllt yr ardal. Mae dalgylchoedd, yn eu cyfanrwydd, yn ffactor pwysig, a byddant yn hybu cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau Datganiadau Ardal. Drwy ddilyn dull mwy cyfannol o reoli dalgylchoedd, gellir cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer yr amgylchedd a llesiant pobl.

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 naw egwyddor i helpu i ddarparu dull a chanllaw ar gyfer ystyried sut i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel y gwelir yn Ffigur 4 isod. Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw sut rydym yn ymgorffori pedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae sicrhau bod partneriaid a rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y broses sydd ynghlwm wrth Ddatganiadau Ardal yn gam pwysig tuag at gefnogi'r gwaith o weithredu'r blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd a amlinellir ymhob un.


Ffigur 4 Naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy



Mae Datganiadau Ardal yn cynnwys gwybodaeth am yr adnoddau naturiol a geir yn y lle hwnnw, y buddion a ddarperir, a'r blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd y mae angen mynd i'r afael â nhw, gan bawb, er mwyn cyflawni rheolaeth gynaliadwy yn yr ardal honno. Caiff Datganiadau Ardal eu defnyddio hefyd i lunio gwaith cynllunio busnes a gwaith partneriaeth CNC, gan gynnwys prosiectau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau ar gyfer ein cyrff dŵr. Cânt eu defnyddio i ddylanwadu ar amrediad o gynlluniau a pholisïau cyhoeddus i helpu i integreiddio gwaith rheoli dŵr cynaliadwy ar draws mecanweithiau cyflenwi eraill, gan gynnwys cynllunio defnydd tir, rheoli tir, perygl llifogydd a gwaith cynllunio gan gwmnïau dŵr.

Felly mae Datganiadau Ardal yn gweithredu fel sylfaen dystiolaeth ac offeryn blaenoriaethu er mwyn ein helpu i gyd i ddeall y cyfleoedd o safbwynt cyflawni rheolaeth gynaliadwy ar raddfa briodol ymhob rhan o Gymru. Mae Ffigur 5 isod yn dangos map o ardaloedd y Datganiadau Ardal ac ardaloedd basn afon yng Nghymru i'w cymharu. Mae Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn cynnwys rhan o Ddatganiad Ardal y Gogledd-ddwyrain, Datganiad Ardal Gogledd Orllewin, Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, Datganiad Ardal De-orllewin Cymru, Datganiad Ardal De Canolog yn ogystal â Datganiad Ardal Forol Cymru fel y gwelir yn Ffigur 5.

Ffigur 5 Mapiau o ardaloedd Datganiadau Ardal ac ardaloedd basn afon yng Nghymru



1.4 Anghenion tystiolaeth

Mae CNC yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae ei weithgareddau tystiolaeth wedi'u diffinio fel a ganlyn:

- Ymchwil/archwiliadau strategol
- Gwyliadwriaeth, monitro a darlunio data
- Dadansoddi
- Ymchwil/ymchwiliadau tactegol

Mae CNC wedi datblygu [papur tystiolaeth anghenion dŵr](#) sy'n ceisio mynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg fel cemegau ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer prosiectau ymchwil cydweithredol sy'n ymwneud â'r amgylchedd dŵr yng Nghymru. Yn ogystal, yn Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 mae gan bob un o'r wyth pennod gyffredinol ar ecosystemau eu rhestr anghenion tystiolaeth gysylltiedig eu hunain sydd wedi'u cynnwys yn y [tabl anghenion tystiolaeth cyffredinol](#), y mae anghenion tystiolaeth forol ac arfordirol hefyd wedi'u rhestru yn [Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru](#).

2. Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

2.1 Sut rydym yn llunio'r dosbarthiad sylfaenol

Mae'r weithred o ddsbarthu gyfystyr â chynnal asesiad o ansawdd ein dyfroedd wyneb a'n dyfroedd daear ar bwynt penodol mewn amser. Mae'n cynnwys data monitro sy'n ofynnol gan yr offerynnau dosbarthu, a gesglir dros gyfnod sy'n amrywio rhwng tair a chwe blynedd cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Mae'n seiliedig ar bwyntiau monitro arferol gweithredol o fewn corff dŵr, ac yn seiliedig ar risg. Mae'r gwaith dosbarthu hwn, a'r wybodaeth am y pwysau a risgiau i ddyfroedd, yn darparu sail ar gyfer cynllunio pob cylch.

Drwy gydol pob cylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon, rydym yn casglu'r holl dystiolaeth, hanesyddol a phresennol, ac yn llunio dosbarthiad sylfaenol. Dosbarthu yw'r broses lle caiff y data a gesglir yn ystod ein rhaglenni monitro dŵr ei drosi'n dystiolaeth sydd ei angen arnom i gynghori, rheoleiddio a rheoli'r amgylchedd dŵr. Mae gennym gyfrifoldeb statudol i asesu a nodi statws pob corff dŵr a ddsberthir yng Nghymru, ond mae ei fanteision yn llawer ehangach. Mae'n cael ei ddefnyddio i hysbysu nifer o feysydd eraill, gan gynnwys cynlluniau buddsoddi'r diwydiant dŵr, gosod cyfyngiadau ar drwyddedau, hysbysu asesiadau o'r effaith amgylcheddol ar brosiectau a gweithgareddau arfaethedig, ac ar gyfer rheoli. Yng Nghymru, mae hefyd yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol ar gyfer yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol ac yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn defnyddio'r term 'cyrff dŵr' i helpu i ddeall yr amgylchedd dŵr, a'i reoli. Mae corff dŵr yn cyfeirio at ran o afon, llyn, dŵr daear, dŵr trosiannol neu ddŵr arfordirol, neu at y nodwedd yn ei chyfanrwydd. Mae cyrff dŵr yn unedau adrodd ac yn ddangosyddion o iechyd yr amgylchedd dŵr ehangach. Rydym yn asesu cyflwr y cyrff dŵr hyn drwy waith monitro neu fodelu, sy'n arwain at bennu dosbarthiad. Mae'r gofynion cyfreithiol a amlinellir yn Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yn gymwys i bob math o gyrff dŵr mewn ardal basn afon, nid dim ond y cyrff dŵr a ddangosir ar y mapiau. Yn ystod cylch cyntaf y Cynllun Rheoli Basnau Afon (2009-2015,) cafodd y dosbarthiad ei ddiweddarau yn flynyddol. Fodd bynnag, caiff ei ddiweddarau bellach unwaith bob tair blynedd ar gyfer dyfroedd wyneb. Y dosbarthiad diweddaraf ar gyfer Cymru yw dosbarthiad 2021 ac mae ar gael ar wefan [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#). Mae Tabl 2 isod yn dangos math a nifer y cyrff dŵr sy'n gosod y waelodlin ar gyfer y trydydd cylchred. Sylwer bod y categori afonydd hefyd yn cynnwys camlesi.

Tabl 2 Math a nifer y cyrff dŵr a fydd yn ffurfio sylfaen Cynllun Rheoli Basn Afon y trydydd cylch (2021-27)

Nifer y cyrff dŵr	Naturiol	Artiffisial	Wedi'u haddasu'n sylweddol	Cyfanswm
Afonydd	378	3	48	429
Llyn	24	2	35	61

Nifer y cyrff dŵr	Naturiol	Artiffisial	Wedi'u haddasu'n sylweddol	Cyfanswm
Arfordirol	18	0	5	23
Aberol	18	0	10	28
Dŵr daear	25	0	0	25
Cyfanswm	463	4	99	566

Sylwer bod y categori afonydd hefyd yn cynnwys 3 chorff dŵr camlas

2.1.1 Newidiadau ar gyfer y trydydd cylch

Mae'r data a'r wybodaeth a ddefnyddir wrth reoli'r amgylchedd dŵr yn cael eu hadolygu a'u gwella yn rheolaidd. Rydym yn defnyddio cyfres o ddata, safonau ac offerynnau sy'n ein helpu i gwblhau'r dosbarthiad.

Mae rhai o'r cyrff dŵr wedi cael eu haddasu ar draws Cymru ar gyfer trydydd cylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y newidiadau a restrir isod yn Atodiad B **Atodiad Trosolwg Cynlluniau Rheoli Basnau Afon (Cymru)**. Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:

- Cywiro gwallau, e.e. lle rhoddwyd enw anghywir i gorff dŵr, neu lle bo corff dŵr wedi'i gysylltu â'r dalgylch gweithredol anghywir
- Diwygiadau a wnaed i rai o'r dynodiadau ail gylchred Cyrff Dŵr Artiffisial/Cyrff Dŵr a Addaswyd yn Helaeth a/neu ddynodiadau Corff Dŵr a Addaswyd yn Helaeth
- Dad-ddynodi cyrff dŵr nad oeddent bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer y defnydd dynodedig fel Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed
- Mae camlas Castell-nedd a Tennant wedi'i rhannu'n ddau gorff dŵr ar gyfer y trydydd cylch

Ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afon y trydydd cylch, mae'r eitemau uchod hefyd wedi cael eu hadolygu ar sail gwelliannau ym maes gwyddoniaeth, dealltwriaeth well o'r amgylchedd, a pholisïau a chyfarwyddiadau gan Lywodraeth y DU neu'r Llywodraethau datganoledig. Ni ystyrir bod y newidiadau arfaethedig rhwng Cynlluniau Rheoli Basn yr ail gylch a'r trydydd cylch yn rhai mawr ac maent yn cynnwys:

- Rhwydweithiau monitro
- Safonau amgylcheddol, er enghraifft safonau Nitrogen ar gyfer llynnoedd, safonau asidedd afonydd
- Newidiadau i offerynnau dosbarthu ar sail cyngor gan Grŵp Cyngori Technegol y DU ac arbenigwyr technegol eraill, er enghraifft Offeryn Dosbarthu Pysgod Aberol

- Rhywogaethau estron goresgynnol
- Nifer y cemegau a aseswyd
- Dosbarthiad cemegau hollbresennol, parhaus, biogronnol a gwenwynig (uPBT)

Mae mwy o fanylion ar gael yn yr **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**.

2.1.2. Statws Dyfroedd wyneb

O safbwynt cyrff dŵr afonydd (camlesi), llynnoedd, arfordirol ac aberol, mae'r dosbarthiad yn seiliedig ar gyflwr ecolegol a chemegol y corff dŵr. Rydym yn casglu data biolegol a chemegol, sy'n cael eu cyfuno i roi **statws cyffredinol** o uchel, da, cymedrol, gwael neu ddrwg, yn seiliedig ar y dosbarth lleiaf a adroddwyd ar sail yr elfennau gwahanol a gafodd eu monitro.

Pennir **statws ecolegol** ar sail cyfuniad o ddata ar gyfer llygryddion biolegol, ffisegogemegol a phenodol.

Asesir **statws cemegol** drwy gydymffurfedd â safonau amgylcheddol ar gyfer cemegion.

Mae llawer o'n dyfroedd wedi cael eu newid gan weithgarwch dynol ar gyfer defnyddiau penodol fel mordwyaeth, rheoli llifogydd neu storio dŵr. Mewn rhai achosion, gall y newid hwn olygu ei bod yn amhosibl cyflawni statws ecolegol da gan alluogi i ddefnydd dynol barhau. Er enghraifft, ni fydd carthu cynnal a chadw ar gyfer gweithgareddau porthladd yn galluogi i statws da gael ei gyflawni ar gyfer invertebratau dyfnforol mewn corff dŵr harbwr. Yn yr achosion hyn, dynodir y corff dŵr fel wedi'i addasu'n artiffisial neu'n sylweddol ac mae ganddo amcan i gyflawni potensial ecolegol da. Mae hwn yn fesur o'r lefel orau y gallai'r corff dŵr ei chyflawni gan ystyried y cyfyngiadau y mae eu hangen gan ddefnydd dynol.

Mae 541 o gyrff dŵr wyneb yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, gan gynnwys cyrff dŵr dynodedig artiffisial neu wedi'u haddasu'n helaeth a phob math o gorff dŵr: afon (gan gynnwys 3 chorff dŵr camlas), llynnoedd, dyfroedd arfordirol ac aberol. Mae Tabl 3 a Tabl 4 isod yn dangos nifer y cyrff dŵr ymhob dosbarthiad statws yn ôl y dosbarthiad ecolegol a chemegol diweddaraf (2021).

Tabl 3 Y dosbarthiad ecolegol diweddaraf (2021) ar gyfer dyfroedd wyneb (cyrff dŵr a aseswyd)

Nifer y cyrff dŵr	Drwg	Gwael	Cymedrol	Da	Uchel
Afonydd	2	31	194	202	0
Llyn	1	15	31	13	1
Arfordirol	0	1	11	10	1
Aberol	0	1	20	7	0

Nifer y cyrff dŵr	Drwg	Gwael	Cymedrol	Da	Uchel
Cyfanswm	3	48	256	232	2

Tabl 4 Y dosbarthiad cemegol diweddaraf (2021) ar gyfer dyfroedd wyneb (cyrff dŵr a aseswyd)

Nifer y cyrff dŵr	Methu	Da
Afonydd	27	402
Llyn	1	60
Arfordirol	9	14
Aberol	8	20
Cyfanswm	45	496

2.1.3 Statws Dyfroedd daear

O safbwynt dŵr daear, cyfunir y statws meintiol a'r statws cemegol i roi dosbarthiad terfynol unigol, sef statws da neu wael. Pennir statws meintiol gwael ar gyfer dŵr daear mewn achosion lle gallai fod effeithiau niweidiol ar afonydd a gwlyptiroedd, neu lle nad oes sicrwydd y bydd dŵr glaw yn adfer y swm o ddŵr daear a dynnir yn flynyddol. Pennir statws cemegol gwael mewn achosion lle ceir llygredd gwasgaredig helaeth o fewn y corff dŵr daear, lle bo ansawdd y dŵr daear yn cael effaith niweidiol ar wlyptiroedd neu ddŵr wyneb, lle ceir ymwithiad halwynog yn sgil tynnu gormod o ddŵr, neu lle ceir dirywiad sylweddol yn ansawdd y dŵr a ddefnyddir ar gyfer cyflenwad dŵr yfed.

O'r 25 corff dŵr daear a geir yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, mae pob un ohonynt wedi cyflawni statws meintiol da ac mae 13 wedi cyflawni statws cemegol da. Mae dosbarthiad 2021 wedi nodi 2 corff dŵr daear lle mae tuedd cynyddol sylweddol mewn statws cemegol wedi'i nodi ers 2015, sydd angen ymchwiliad pellach. Mae Tabl 5 a Tabl 6 isod yn dangos y dosbarthiad meintiol a chemegol diweddaraf ar gyfer dŵr daear.

Tabl 5 Y dosbarthiad meintiol diweddaraf (2021) ar gyfer dŵr daear

Nifer y cyrff dŵr	Gwael	Da
25	0	25

Tabl 6 Y dosbarthiad cemegol diweddaraf (2021) ar gyfer dŵr daear


Nifer y cyrff dŵr	Gwael	Da
25	12	13

2.1.4 Newidiadau i ddosbarthiad ers 2015

2.1.4.1 Statws cyffredinol

Yn 2015, cyflawnodd 40% o'r cyrff yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru statws cyffredinol da, neu well. Gwnaethom ragweld y byddai hyn yn cynyddu i 44% erbyn 2021. Mae canlyniadau'r dosbarthiad diweddaraf yn dangos bod 42% o gyrff dŵr wedi cyflawni statws cyffredinol da neu well (Ffigur 6). Gwneir y gymhariaeth gan ddefnyddio'r safonau, y dulliau asesu a'r cyrff dŵr sy'n cynrychioli'r wybodaeth orau a ddefnyddiwyd ac felly'r darlun mwyaf cywir o'r amgylchedd dŵr ar adeg dosbarthu.


Ffigur 6 Cymharu'r dosbarthiad sylfaenol cyffredinol yn 2015 â'r dosbarthiad diweddaraf yn 2021.



2.1.4.2 Statws lefel elfennau

Ar gyfer pob corff dŵr mae dosbarthiad cyffredinol y corff dŵr yn cynnwys nifer o wahanol elfennau cemegol, biolegol a ffisegol (e.e. mercwri, infertebratau dyfnforol, ocsigen toddedig). Mae dosbarthiad yn gofyn y dylai'r statws cyffredinol fod yr isaf o'r holl elfennau unigol. Nid yw'r rheol un allan, pob un allan yn adlewyrchu'r gwelliannau a'r cydymffurfiaeth sylweddol ar lefel elfennol. Er mwyn darparu rhagor o fanylion mae'n ddefnyddiol gweld cydymffurfiaeth ar lefel elfen (Ffigur 7) sy'n rhoi golwg gyfannol well ar statws amgylcheddol. Yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, mae 93% o elfennau unigol yn statws da neu well yn 2021 o gymharu ag 88% yn 2015. Mae Ffigur7 isod yn cynrychioli crynodeb o'r data lefel elfen ar gyfer pob un o'r pum dosbarth gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer 2021 o gymharu â 2015. Mae arwynebedd pob categori yn y siartiau isod yn gymesur â chanlyniad pob dosbarth.

Ffigur7 Lefel elfen Gorllewin Cymru 2015 (chwith) a 2021 (dde)



O edrych ar y data ar gyfer y gwahanol fathau o gyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, yn 2021 ar gyfer afonydd (heb gynnwys camlesi) mae 94% o elfennau ar statws da neu well, ar gyfer llynnoedd 89%, ar gyfer dyfroedd trosiannol 88%, dyfroedd arfordirol 92%, camlesi 69% a dŵr daear 93%. Mae'r farn gyffredinol am statws ar lefel elfen yn gadarnhaol ac yn dangos yr ymdrech y mae CNC a phartneriaid wedi'i chyfrannu i ddiogelu a gwella statws yr amgylchedd dŵr.

Drwy asesu statws y gwahanol elfennau ar gyfer pob categori dŵr gallwn hefyd nodi elfennau sydd â mwy o gyrff dŵr ar gyfartaledd ar lai na'r da a allai fod angen mwy o ffocws arnynt yn ystod y trydydd cylch. Mewn afonydd, yr elfennau sydd â'r methiannau mwyaf yw ffosffad, asesu mesurau lliniaru a physgod. Mewn llynnoedd, mae cyfanswm ffosfforws, macroffyttau a mesurau lliniaru yn elfennau sydd â chyfran sylweddol ar statws llai na da. Mewn dyfroedd trosiannol ac arfordirol asesiad mesurau lliniaru a nitrogen anorganig toddedig yw'r prif elfennau sy'n achosi cyrff dŵr i fod ar statws llai na'r hyn sy'n dda. Mae maetholion a mesurau lliniaru mewn cyrff dŵr sydd wedi'u haddasu'n helaeth yn elfennau allweddol i'w gwella a chanolbwyntio arnynt dros y trydydd cylch er mwyn cyflawni potensial cyffredinol da a drafodir ymhellach ym Mhennod 3.

2.1.4.3 Dirywiad

Mae cymhariaeth rhwng dosbarthiadau dechrau a diwedd yr ail gylch gan ddefnyddio'r un safonau a rhwydwaith cyrff dŵr yn dangos bod angen ymchwilio ymhellach i 106 o elfennau mewn 63 o gyrff dŵr wyneb ac 1 corff dŵr daear er mwyn deall achosion dirywiad statws e.e. o dda i gymedrol. Gallai'r achosion hyn fod oherwydd newidiadau monitro, ymholiadau data neu newid amgylcheddol gwirioneddol o ganlyniad i bwysau ar yr amgylchedd dŵr. Byddwn yn ymchwilio i'r rhain cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl a lle mae dirywiad wedi'i gadarnhau o ganlyniad i effaith amgylcheddol wirioneddol, byddwn yn rhoi rhaglen o fesurau ar waith i ddychwelyd y corff dŵr i'w statws blaenorol.

2.2 Cemegion, gan gynnwys y rheini sy'n hollbresennol, yn barhaus, yn fiogronnus ac yn wenwynig

Gall cemegion gael effaith ar yr ecosystem ddyfrol yn y ffyrdd canlynol:

- Bywyd dyfrol (pysgod, planhigion ac infertebratau) yn sgil bod yn agored i gemegion yn nyfroedd y DU
- Iechyd dynol ac ysglyfaethwyr bywyd gwyllt uwch oherwydd cemegion a all gronni drwy'r gadwyn fwyd ddyfrol
- Ffynonellau dŵr wyneb a dŵr daear lle gall halogiad gan gemegion gyfyngu ar eu defnydd parhaus i gyflenwi dŵr at ddibenion domestig neu i gynhyrchu bwyd

Mae CNC yn rheoli'r cemegion yn yr amgylchedd dŵr o fewn fframwaith [dull strategol o fynd i'r afael â risgiau sy'n deillio o gemegion niweidiol yn ein dyfroedd](#). Mae'r cemegion sydd yn yr amgylchedd yn deillio o amrywiaeth o ffynonellau. Mae rhai cemegion yn hollbresennol ac maent yn cael eu rheoli orau ar lefel genedlaethol, lle bo eraill yn benodol i weithgaredd, a dylid canolbwyntio ar eu rheoli ar raddfa leol. Gwaherddir cynhyrchu a/neu ddefnyddio llawer o gemegion, ond eu bod yn parhau yn yr amgylchedd am gyfnodau hir o amser, ac yn parhau i gael eu monitro er mwyn dangos bod y rheolaethau sy'n bodoli eisoes yn ddigonol a bod crynodiadau'n lleihau. Bydd rheoli cemegion yn sicrhau ein bod yn lleihau'r effaith ar fywyd dyfrol, ac ar ddefnyddiau dynol o ddŵr.

Wrth i gemegion newydd gael eu gweithgynhyrchu a'u defnyddio, a bod ein hasesiad o gemegion yn gwella er mwyn rheoli unrhyw risgiau yn well, mae'r amrediad o gemegion, a'r ffordd y cânt eu hasesu, wedi esblygu ers cylch cyntaf y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Mae Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yn nodi is-grŵp o gemegion sy'n hollbresennol, yn barhaus, yn fiogronnus ac yn wenwynig sy'n gofyn am ystyriaeth arbennig o safbwynt monitro a chyflwyno canlyniadau dosbarthu. Caiff y cemegion hollbresennol, parhaus, biogronnus a gwenwynig hyn eu hadrodd yn llawn am y tro cyntaf yng Nghynlluniau Basn Afon y trydydd cylch. Ceir esboniad o'r asesiadau risg yn adran 4.4.3 o'r **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)** ac maent yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac mae'n dangos risg sylweddol o fethu'r safonau ar gyfer Etherau Ddiffenyl Polybrominedig a Mercwri. Mae'r taflenni ffeithiau cemegion i'w gweld yn **Atodiad C Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**, sy'n dangos bod defnydd y cemegion hyn wedi'i ddiddymu'n raddol, ac na fyddai mesurau pellach yn ymarferol. Fodd bynnag, yn wyneb y ffaith fod y cemegion hyn yn parhau yn yr amgylchedd cyhyd, mae'n debygol na cheir cydymffurfedd helaeth â safonau yn ystod y cyfnodau cynllunio nesaf.

Oherwydd natur fiogronnus cemegion hollbresennol, parhaus, biogronnus a gwenwynig, rydym bellach yn cael ein cyfarwyddo i fonitro presenoldeb y cemegion hyn ym meinwe pysgod a physgod cregyn. Ni allwn samplu'r amgylchedd am y cemegion hyn mewn modd mor eang ag y gwnawn ar gyfer samplau dŵr, a byddwn ond yn samplu pysgod a physgod cregyn pan ydym yn hyderus na chawn effaith ar boblogaethau naturiol. Mae hyn yn cyfyngu ar nifer y cyrff dŵr y byddwn yn eu hasesu ar gyfer y mathau hyn o gemegion yng Nghymru, ac felly mae CNC yn ymchwilio'n weithredol i ddulliau a thechnegau eraill er mwyn asesu'r risg y mae sylweddau hollbresennol, parhaus, biogronnus a gwenwynig yn ei pheri i lefelau troffig uwch.

Mae rheoleiddwyr y DU yn parhau i gydweithio'n agos ar y mater o ddsbarthu cemegion. Rydym bob un wedi datblygu dull sy'n gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth sydd ar gael i ni. Er efallai y ceir gwahaniaethau yn y dulliau o ddsbarthu, gellir cymharu, yn fras, y mesurau a gymhwysir i leihau sylweddau hollbresennol, parhaus, biogronnus a gwenwynig yn yr amgylchedd dŵr, a ysgogir gan ddeddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol, ar draws y gweinyddiaethau, a bydd gwaith o fonitro'r gostyngiad yn lefelau'r cemegion hyn yn yr amgylchedd yn parhau er mwyn sicrhau bod mesurau'n briodol.

Mae cemegion newydd, gan gynnwys rhai cemegion fferyllol, o bryder cynyddol yn yr amgylchedd dŵr. Mae gan CNC raglen fonitro gadarn ar gyfer cemegau sy'n dod i'r amlwg a ddefnyddir i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg ac felly'r rhai y gallai fod angen rheoliadau a mesurau ychwanegol arnynt. Yn dilyn y DU yn gadael yr UE, mae rheoleiddwyr y DU yn gweithio gyda'i gilydd i nodi cemegion newydd ac i reoleiddio'r rheiny sy'n peri perygl sylweddol. Mewn rhai achosion a allai arwain at reoli ffynonellau'n genedlaethol, mewn achosion eraill gallai hyn olygu gweithio'n agosach gyda byrddau iechyd, fferyllwyr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau faint o gynhyrchion fferyllol a ddefnyddir mewn cymdeithas ac sydd felly'n mynd i mewn i'r amgylchedd dŵr.

2.2.1 Y Rhestr Allyriadau

O dan Reoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2017, mae'n rhaid cyhoeddi stocrestr o allyriadau, gollyngiadau a cholledion sylweddau blaenoriaeth ar gyfer pob Ardal Basn Afon. Mae modd gweld yr wybodaeth hon, gan gynnwys y fethodoleg, yn **Atodiad Trosolwg Cynlluniau (Cymru)**. Lluniwyd y stocrestr gan ddefnyddio gwaith monitro amgylcheddol a data gollyngiadau elifiant pwynt y ffynhonnell. Yn y tymor hwy, bwriedir i'r stocrestrau olrhain effeithiolrwydd mesurau rheoli ar ollyngiadau sylweddau blaenoriaeth ar lefel genedlaethol.

2.3 Ardaloedd gwarchodedig

Ceir nifer o ardaloedd yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru lle mae'r amgylchedd dŵr yn enwedig o bwysig. Mae gan ardaloedd gwarchodedig, a ddiffinnir gan Reoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac sydd wedi'u rhestru yn ein Cofrestr o Ardaloedd Gwarchodedig, warchodaeth gyfreithiol o dan amrediad o Reoliadau'r DU (Adran 3.1.2 o **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**). Gall ardaloedd gwarchodedig fod ag amcanion gwahanol o safbwynt cydymffurfedd. Lle mae'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer gwneud hyn yn llymach na'r rheini sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni statws/potensial ecolegol da, mae'n rhaid i ni wneud pob ymdrech i gyflawni'r safonau llymach hynny.

Mae Tablau 7 i 11 isod yn dangos math a nifer yr ardaloedd gwarchodedig perthnasol. Sylwer, lle mae ardal warchodedig yn croesi ffin mwy nag un ardal basn afon, rydym yn

adrodd arni yn y Cynllun Rheoli Basn Afon sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r ardal er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Gweler **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)** am fanylion pellach a dolenni i ffynonellau data cydymffurfio ar gyfer gwahanol fathau o Ardaloedd Gwarchodedig.

Mae Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau 2013 wedi'u dirymu ac mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 mewn grym yn eu lle. Bydd mesurau i warchod yr amgylchedd rhag llygredd gan nitradau o ffynonellau amaethyddol yn berthnasol bellach i'r mwyafrif o ddaliadau yng Nghymru ar ôl i'r cyfnodau pontio ddod i ben (maent yn berthnasol i ddaliadau nad oeddent wedi'u lleoli mewn Parth Perygl Nitradau yn flaenorol). Caiff Parthau Perygl Nitradau yng Nghymru, yr oeddent wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Ardal Warchodedig yn flaenorol, eu tynnu i ffwrdd ar gyfer y cynllun terfynol.

Dynodwyd rhai ardaloedd o ddyfroedd aberol ac arfordirol fel Dyfroedd Pysgod Cregyn. Mae dyfroedd pysgod cregyn yn feysydd sydd angen eu hamddiffyn neu eu gwella i gefnogi bywyd a thwf pysgod cregyn er mwyn cyfrannu at ansawdd uchel pysgod cregyn i bobl eu bwyta. Yn ogystal ag amcanion generig ar gyfer dŵr wyneb (statws da, dim dirywiad ac yn y blaen) mae gofyniad i osod amcanion amgylcheddol ar gyfer Dyfroedd Pysgod Cregyn fel sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol i wella neu warchod y Dŵr Pysgod Cregyn. Yr amcan ychwanegol ar gyfer Dyfroedd Pysgod Cregyn yw safon microbaidd o 300 neu lai *E.coli* fesul 100ml o gnawd pysgod cregyn y mae'n rhaid i CNC ymdrechu i'w harsylwi. Rydym yn ystyried bod Dŵr Pysgod Cregyn yn bodloni'r amcan hwn os yw wedi bod yn cydymffurfio mewn 8 o'r 10 mlynedd diwethaf. Mae un corff dŵr pysgod cregyn yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn bodloni'r amcan hwn.

Tabl 7 Ardaloedd dŵr yfed gwarchodedig

Math y corff dŵr	Nifer	Nifer mewn perygl
Dŵr wyneb	53	22
Dŵr daear	25	4

Tabl 8 Ardaloedd gwarchodedig dyfroedd pysgod cregyn

Math y corff dŵr	Cyfanswm	Wedi cyflawni'r amcan
Dyfroedd pysgod cregyn	14	1

Tabl 9 Ardaloedd gwarchodedig dŵr ymdrochi

Dŵr ymdrochi	Nifer	% cydymffurfiaeth
Dŵr ymdrochi	105	100

Tabl 10 Ardaloedd gwarchodedig sy'n sensitif i faethynnau

Ardaloedd sy'n sensitif i faethynnau	Nifer	Hyd (cilomedr)/arwynebedd (cilomedr ²) a ddynodwyd
Ewtroffigedd mewn afonydd	1	8.7 cilomedr
Ewtroffeiddio mewn aberoedd neu ddyfroedd arfordirol	2	9,730 cilomedr ²

Tabl 11 Safleoedd a warchodir gan Ewrop

Safle a warchodir gan Ewrop	Nifer
ACAau sy'n ddibynnol ar ddŵr	66
AGAau sy'n ddibynnol ar ddŵr	21
Safleoedd Ramsar	7

At ddibenion y Cynllun Rheoli Basnau Afon, rhoddwyd yr enw “safleoedd Ewropeaidd” i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) a Safleoedd Ramsar.

Yng Nghymru, adroddir ar gyflwr y nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig a geir mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) dros gylchoedd o chwe blynedd. Yng Nghymru, cynhaliodd CNC [asesiadau o gyflwr dangosol morol ar gyfer pob nodwedd forol AGAau ac ACAau yn 2018](#).

Yn [Aseiad sylfaenol CNC o safleoedd gwarchodedig daearol a dŵr croyw 2020](#), cafodd tystiolaeth a fodolai eisoes ei defnyddio i lunio asesiadau o gyflwr nodweddion ‘dangosol’, lle roedd hynny'n bosibl, ar draws yr ystod o nodweddion dŵr croyw a daearol a geir ar safleoedd gwarchodedig yng Nghymru.

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd CNC adroddiad tystiolaeth, [Aseiad Cydymffurfiaeth ACA Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosforws](#). Dengys yr adolygiad tystiolaeth fod toriadau ffosforws yn gyffredinol yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Cleddau ac Afon Teifi isaf yn erbyn y targedau tynhau diwygiedig a osodwyd. Fodd bynnag, llwyddodd Afon Gwyrfai, Afon Glaslyn (Coed Derw Meirion), Afon Eden ac Afon Tywi i basio'r targedau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adran 3.2.4.1.

2.3.1 Newidiadau i rai o'r Ardaloedd Gwarchodedig rhwng yr ail gylch a'r trydydd cylch

Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r ardaloedd sy'n sensitif i faethynnau o dan Reoliadau Trin Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994 ar gyfer Ewtroffigedd mewn afonydd.

Mae Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau 2013 wedi'u dirymu ac mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 mewn grym yn eu lle. Er bod gofynion y Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau ond yn berthnasol i'r daliadau tir hynny sydd o fewn Parth Perygl Nitradau, bydd y mwyafrif o fesurau o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn berthnasol i bob daliad tir yng Nghymru ar ôl i'r cyfnod pontio cychwynnol ddod i ben.

2.3.1.1 Dŵr yfed (dŵr wyneb a dŵr daear)

Rydym wedi adolygu'r holl ardaloedd dŵr yfed gwarchodedig dwr daear. Mae nifer o ardaloedd dŵr yfed gwarchodedig wedi'u tynnu oddi ar y Gofrestr Ardaloedd Gwarchodedig ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (a restrir yn Nhabl B2 yn Atodiad B) **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**.

2.3.1.2 Dyfroedd pysgod cregyn

Mae'r ardaloedd gwarchodedig dyfroedd pysgod cregyn wrthi'n cael eu hadolygu, a gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar newidiadau arfaethedig ar wahân. O ganlyniad, mae saith o Ddyfroedd Pysgod Cregyn wedi'u dad-hysbysu ac mae un Dŵr Pysgod Cregyn newydd yn y Cleddau Isaf wedi'u hysbysu.

2.3.1.3 Dyfroedd Ymdrochi

Mae tri safle â Dyfroedd Ymdrochi newydd wedi'u dynodi yng Ngorllewin Cymru ers 2015, yn Aberdyfi Gwledig, Porth Eirias Bae Colwyn, a Thraeth Glan Don.

2.3.1.4 Safleoedd Ewropeaidd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a safleoedd Ramsar sy'n ddibynnol ar ddŵr)

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, nid yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig nac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn y DU yn rhan o rwydwaith ecolegol Natura 2000 yr UE mwyach. Mae Rheoliadau Cynefinoedd 2017 fel y'u diwygiwyd wedi creu rhwydwaith safleoedd cenedlaethol ar y tir a'r môr, gan gynnwys ardaloedd morol ar lannau'r DU ac ar y môr. Mae'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol yn cynnwys yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig presennol, ynghyd ag ACAau ac AGAau newydd a ddynodir o dan y rheoliadau hyn.

Bydd yn ofynnol cynnal rhwydwaith cydlynol o safleoedd gwarchodedig ag amcanion cadwraeth trosfwaol o hyd er mwyn cyflawni'r ymrwymiad a wnaed gan y Llywodraeth i gynnal mesurau diogelu amgylcheddol ac i barhau i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol rhyngwladol, fel Confensiwn Bern, a chonfensiynau Oslo/Paris, Bonn a Ramsar.

Nid yw Gwlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol (a elwir yn safleoedd Ramsar) yn rhan o'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol. Mae llawer o safleoedd Ramsar yn gorgyffwrdd ag ACA ac AGA, ac mae'n bosibl iddynt gael eu dynodi ar gyfer yr un rhywogaethau a chynefinoedd, neu rywogaethau a chynefinoedd gwahanol. Mae pob safle Ramsar yn parhau i gael ei warchod yn yr un ffordd ag ACA ac AGA.

Canfu adolygiad o nodweddion ACA sy'n ddibynnol ar ddŵr ac sy'n gysylltiedig â'r safleoedd Ewropeaidd yn y gofrestr, y dylid tynnu un ACA, sef Coed Cwm Einion (UK0030117), oddi ar y gofrestr gan nad oedd yn gymwys i'w hystyried fel safle sy'n ddibynnol ar ddŵr.

Bu ychydig o newidiadau i'r AGA yng Nghymru. Ym mis Hydref 2017, cafodd AGA Bae Lerpwl (UK9020294) ei hymestyn. Mae'r AGA fawr hon yn gorgyffwrdd â thair ardal basn afon, sef rhai Gogledd-orllewin Lloegr, Afon Dyfrdwy ac Afonydd Gorllewin Cymru. Yn 2017, cafodd AGA Morwenoliaid Ynys Môn (UK9013061) ei hailenwi a'i hymestyn. Cafodd AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro (UK9014051) ei hailenwi a'i hymestyn yn 2016, a chafodd AGA newydd ei dynodi hefyd ar gyfer trochyddion gyddfgoch, sef AGA Gogledd Bae Ceredigion (UK9020327).

Cafodd tair ACA fawr newydd eu dynodi ar gyfer llamidyddion yn 2019, sef ACA Gorllewin Cymru Forol (UK0030397), ACA Dynesfeydd Môr Hafren (UK0030396), ac ACA Gogledd Môn Forol (UK0030398). Mae'r newidiadau hyn wedi cynyddu ardal safleoedd Ewropeaidd yng Nghymru yn sylweddol.

Caiff y Gofrestr o Ardaloedd Gwarchoddedig ei diweddarau a'i chyhoeddi fel rhan o'r trydydd Cynllun Rheoli Basn Afon, a chaiff y mapiau eu diweddarau ar wefan [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#).

2.4 Cyflawni camau gweithredu 2015-2021

Mae'r camau gweithredu a gymerwyd yn ystod yr ail gylch, gyda'i gilydd, wedi cyfrannu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd dŵr. Roedd y camau gweithredu'n ymwneud â phob math o gorff dŵr, sef afonydd, llynnoedd, camlesi, gwlyptir, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwarchoddedig. Mae nifer o enghreifftiau, gan gynnwys astudiaethau achos a llawer o'r camau gweithredu partneriaeth wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

2.4.1 Atal dirywiad

Mae llawer o'r gweithgareddau dyddiol a wneir gan CNC a llawer o'n partneriaid, a phob mesur a gyflwynir ganddynt, yn cyfrannu at atal dirywiad yr amgylchedd dŵr. Trwy ein gwybodaeth ar y cyd, gallwn nodi pa gyrff dŵr, yn benodol, sydd mewn perygl o ddirywio, ac amlinellu'r mesurau, lle bo hynny'n bosibl, i atal neu liniaru'r risgiau hynny. Er enghraifft, mae gwaith staff lleol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwmpasu amrediad o weithgareddau, gan gynnwys ym meysydd rheoliadol, gorfodi, rheoli digwyddiadau a chynghori, er mwyn diogelu dŵr, tir ac aer. Mae hyn yn cyfrannu tuag at atal dirywiad mewn llawer o gyrff dŵr ar draws yr ardal basn afon. Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- ymweliadau â ffermydd penodol, a all fod yn rheoliadol at ddibenion trawsgydymffurfio, gwaith sy'n ymwneud â dŵr daear a Pharthau Perygl Nitradau,

neu at ddibenion rhoi cyngor a chanllaw ar arfer gorau er mwyn diogelu'r amgylchedd dŵr.

- cynnal archwiliadau o gydymffurfiaeth gosodiadau ynni trydan dŵr ag amodau trwyddedau.
- cynnal archwiliadau o osodiadau trin dŵr gwastraff – yn gwmni dŵr, yn weithgaredd masnachol neu'n breifat.
- ymweliadau atal a rheoli llygredd â safleoedd a drwyddedir, e.e. unedau dofednod a safleoedd diwydiannol mawr eraill, gan gynnwys yn y sector bwyd a diod.
- gwaith rheoli rhywogaethau estron goresgynnol sy'n ymwneud â dŵr os yw'n cael effaith ar nodweddion safleoedd gwarchoddedig neu asedau CNC.
- atal llygredd – ystadau diwydiannol, camgysylltiadau, adeiladu tai, a chynlluniau ffyrdd newydd.
- mynd i ddigwyddiadau i atal gollyngiadau sy'n llygru, a, lle bo hynny'n ofynnol, dilyn hyn ag ymateb rheoliadol mewn achosion o gyflawni troseddau amgylcheddol. Gall hyn leihau'r effeithiau ac atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol.
- darparu cyngor cyn ymgeisio, a mewnbwn technegol i drwyddedau newydd, gan gynnwys ceisiadau'n ymwneud â phŵer hydrodrydanol a cheisiadau cynllunio, gan gynnwys cyfleusterau storio amaethyddol newydd.
- monitro gweithgareddau taenu ar dir.
- mynd i'r afael â chamgysylltiadau gyda chwmnïau dŵr a'r awdurdod lleol.

2.4.2 Rhaglen o fesurau

Mae'r mwyafrif o'r mesurau cenedlaethol wedi'u gweithredu, yn gyffredinol, mae'r rhain yn pennu'r dull a'r gefnogaeth gyfreithiol, polisi neu strategol, neu maent yn hanfodol i waith cyflenwi a chanlyniadau amgylcheddol ar lefel leol, er enghraifft gwaharddiad cenedlaethol ar ddefnyddio cemegyn penodol neu strategaeth genedlaethol ar gyfer blaenoriaethu ac ariannu'r gwaith o adfer mwynloddiau segur. Roeddent yn cynnwys Rhaglen Fuddsoddi'r Diwydiant Dŵr a mesurau lleol ar gyfer y cyrff dŵr sydd wedi'u targedu. Am fwy o fanylion ar y cyrff dŵr sydd wedi'u targedu, gweler Adran 2.4.2.1.

Bydd yr union fesurau a gaiff eu rhoi ar waith yn agored i newid dros amser. Mae newidiadau yn y mathau o fesurau sydd eu hangen yn digwydd am resymau amrywiol, gan gynnwys tystiolaeth newydd, newidiadau yn statws corff dŵr, newidiadau mewn pwysau (e.e. patrymau cnydau), argaeledd cyllid, newidiadau ym mholisi'r Llywodraeth, effeithiau datblygiadau, a'r newid yn yr hinsawdd. Gweithredwyd ar gyfleoedd i gyflwyno mwy o dechnegau, neu brofi rhai newydd, fel sy'n briodol, e.e. y Prosiect Gwahanu Slyri, a gafodd gefnogaeth gan Gronfa Weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ystod yr ail gylch.

Ledled Cymru drwy'r Rhaglen Buddsoddi yn y Diwydiant Dŵr, dyrannodd Dŵr Cymru £65 miliwn er mwyn cyflawni gweithgareddau'n ymwneud â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb

Fframwaith Dŵr 2017 yn ei gynllun busnes ar gyfer 2015–20 (Cynllun Rheoli Asedau 6), gan gynnwys y canlynol:

- gosod system monitro hyd digwyddiad ymhob gorlif Carthffosiaeth Cyfunol
- Gwaith monitro yn rhan o Raglen Ymchwilio i Gemegion y DU
- ymchwiliadau mewn perthynas â Rheoliadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr 2017 ac Ardaloedd Dŵr Yfed Gwarchoddedig
- monitro llifoedd mewn Gwaith Trin Dŵr Gwastraff

Mae'r sylfaen dystiolaeth wrthi'n cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau buddsoddi ac i ddylanwadu ar newidiadau ym mholisiâu defnydd tir yng Nghymru.

Yn benodol i Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, cyflwynodd Dŵr Cymru y canlynol:

- Wyth cynllun ar safleoedd gwaith trin carthion i fodloni gofynion Rheoliadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr 2017 o ran sicrhau na cheir dirywiad
- Tri chynllun ar safleoedd gwaith trin carthion i gyflawni statws ecolegol da yn ôl gofynion Rheoliadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr 2017
- Cyflwyno rhaglen GlawLif yn Llanelli a Thre-gŵyr i leihau effaith ei asedau yng Nghilfach Porth Tywyn, a chynlluniau arfordirol pellach er budd i Fae Abertawe ac Aber Afon Conwy

Cynllunnir cyflwyno wyth cynllun pellach a fydd yn cyfrannu at gyflawni statws ecolegol da i'w cyflawni gan Dŵr Cymru.

2.4.2.1 Cyrff Dŵr Targed

Canolbwyntio ar wella statws cyrff dŵr yn yr ail gylch mewn nifer o gyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru a oedd wedi'i thargeddu ar gyfer gweithrediad mesurau lleol. Gwnaeth CNC flaenoriaethu gwella cydymffurfiaeth â statws cyffredinol da yn 21 o gyrff dŵr a oedd â statws cymedrol/gwael a gwella 4 corff dŵr a oedd â statws gwael i gymedrol. Er mwyn gwneud hyn, nodwyd cyfanswm o 37 o fesurau lleol ar gyfer y 25 cyrff dŵr er mwyn mynd i'r afael â mewnbynnau llygredd wasgaredig a llygredd yn y tarddle, rheoli gweithgareddau tynnu dŵr, a gwella cynefinoedd a addaswyd. Rydym ni'n rhagweld y byddai'r mesurau hyn (mewn cyrff dŵr targed) yn cyfrannu at gynnydd yn yr holl gyrff dŵr sy'n cyrraedd statws cyffredinol da neu well erbyn 2021 o 40% yn 2015 i 44% yn 2021. Mae'r dadansoddiad uchod (adran 2.1.4.1) yn dangos bod 42% yn 2021 wedi cyflawni statws cyffredinol da neu well sy'n is na'r hyn a ragwelwyd gennym yn yr ail gylch (2015).

O'r cyrff dŵr a dargedwyd, rydym wedi arsylwi rhywfaint o welliant yn nosbarthiad lefel elfennol yn 17 o'r cyrff dŵr. Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth. Mae'n bosibl na fydd llawer o'r mesurau a roddwyd ar waith gyda'r nod o gyflawni statws/potensial da erbyn 2021 yn cael eu gwireddu yn y dosbarthiad nes bod ansawdd ac ecoleg y dŵr wedi cael amser i adfer, cael eu monitro a'u dosbarthu.

2.4.2.2 Ymchwiliadau

Ers cyhoeddi cynlluniau 2015, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal rhaglen o ymchwiliadau yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru i ddarganfod pam nad oes gan gynifer o gyrff dŵr statws neu botensial da a chynllunio mesurau i gyflawni statws/potensial da. Mae ein gwybodaeth am y materion sy'n cael effaith ar gyrff dŵr, a'n dealltwriaeth ohonynt, wedi cynyddu'n sylweddol, a bydd hyn yn parhau drwy'r trydydd cylch. O ganlyniad, rydym bellach mewn sefyllfa well i weithio gyda'n partneriaid i nodi lle gellir gwneud y gwelliannau amgylcheddol mwyaf, a fydd yn dwyn y budd mwyaf i bawb.

2.4.2.3 Mesurau newydd ychwanegol

Mae'r Rhaglen o Fesurau yn ei gwneud yn ofynnol cynnal proses adolygu reolaidd i sicrhau y rhoddir y camau gweithredu cywir ar waith yn y lle cywir. Yn ystod yr ail gylch, roedd blaenoriaethau a/neu gyfleoedd newydd yn golygu y cafodd rhai camau gweithredu eu hadolygu er mwyn adlewyrchu anghenion cyfredol yr amgylchedd ar yr adeg honno.

Cyflwynwyd y dulliau a mesurau newydd canlynol:

Gweithio gyda sefydliadau eraill i ddiogelu a gwella ansawdd ein dŵr

Ers cyhoeddi cynlluniau'r ail gylch, rhoddwyd trefniadau newydd ar waith ar gyfer gweithio ar draws meysydd gwaith, a chyda sefydliadau allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, er mwyn diogelu a gwella ein hamgylchedd dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Tasg **is-grŵp Amaethyddiaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru** oedd dadansoddi achosion sylfaenol er mwyn cael dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n achosi llygredd amaethyddol a'r ffyrdd yr eir i'r afael ag achosion ar hyn o bryd, a hynny drwy waith ymchwil, adrodd a chyflenwi o ran datrysiadau posibl, a cheisio cytundeb arnynt, gan ddilyn dull integredig a gweithio ar draws sefydliadau.

Diben **Fforwm Rheoli Dŵr Cymru** yw rhoi cyfle i aelod-sefydliadau rannu tystiolaeth ac archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd tuag at reoli dŵr yn gynaliadwy yng Nghymru.

Mae **Fforwm Pysgodfeydd Cymru** yn cynrychioli amrediad o randdeiliaid sydd â buddiant mewn adnoddau pysgodfeydd dŵr croyw ac ymfudol Cymru, a gwaith CNC ac eraill i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd mudol a dŵr croyw yng Nghymru.

Mesurau amaethyddiaeth

Ym mis Ebrill 2021, cafodd [Rheoliadau Adnoddau Dŵr \(Rheoli Llygredd Amaethyddol\) \(Cymru\) 2021](#) eu cyflwyno er mwyn lleihau'r llygryddion a gollir o amaethyddiaeth i'r amgylchedd.

Mae cyfnodau trosi yn weithredol ar gyfer rhai elfennau o'r rheoliadau er mwyn rhoi amser i ffermwyr addasu a sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r amserlen a gyflwynwyd ac sy'n weithredol o fewn y rheoliadau yn cynnwys y mesurau canlynol:

- Cynlluniau Rheoli Maethynnau

- Cyfyngiadau ar daenu maethynnau yn unol â therfynau cynyddau
- Cyfnodau caeedig ar gyfer taenu gwrtaith nitrogen organig neu wrtaith nitrogen sydd wedi'i weithgynhyrchu
- Gallu storio ar gyfer slyri ac ar gyfer tail organig

Cronfa Weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfle i'r Paneli Cyswllt Basn Afon roi camau gweithredu ar waith a fyddai'n cyflawni, neu'n cyfrannu at welliant mesuradwy yn yr ansawdd dŵr yn yr ardaloedd basn afon perthnasol. Roedd y gronfa werth cyfanswm o £220,000 dros ddwy flynedd. Roedd prosiectau'n cynnwys llunio canllaw ar reoli tanciau septig, a phrosiect sy'n dechrau blaenoriaethu gwelliannau mewn afonydd a addaswyd yn ffisegol. Dylid nodi bod Fforwm Rheoli Dŵr Cymru wedi disodli Paneli Cyswllt Basn Afon yng Nghymru.

Arian Cyfalaf Llywodraeth Cymru

Sicrhawyd bod bron i £10 miliwn o gyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gael yn 2020-21 a £9.5 miliwn yn 2021-2022 ar gyfer gwella ansawdd dŵr. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau ansawdd dŵr (fel codi ffensys, monitro goddefol ar gemegion, adfer afonydd ac ati), ein rhaglen dyfroedd mwyngloddiau, a'r rhaglen cynefinoedd pysgodfeydd.

Mae prosiect cyllid cyfalaf Cleddau ac Aberdaugleddau wedi bod yn gweithio gydag eraill i fynd i'r afael â materion fel rhywogaethau ymledol, darnio cynefinoedd a chyfoethogi maetholion sy'n bygwth bywyd gwyllt a chynefinoedd pwysig a gwarchoddedig.

Mae gwaith prosiect addasiadau ffisegol yn mynd rhagddo yn Afon Clywedog – Gwenfro i Nant Ddu i edrych ar ddichonoldeb opsiynau ail-naturiol gan gynnwys ailgysylltu, adfer gwlyptiroedd, gostwng gorlifdir a chynyddu sinŵs sianel. Mae'r gwaith yn cynnwys opsiynau ar gyfer lliniaru rhwystrau i fudo pysgod er mwyn ceisio lliniaru llwybr pysgod ar gyfer pob rhywogaeth gan adfer ystod lawn o brosesau afonol naturiol.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gweler adran 1.3 am wybodaeth am ddilyn dull seiliedig ar le yng Nghymru, nodau trosfwaol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, [y Polisi Adnoddau Naturiol](#) a Datganiadau Ardal, a hefyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.5 Heriau yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Ym mis Ebrill 2019, datganodd Llywodraeth Cymru '[Argyfwng Hinsawdd' yng Nghymru](#) gyda'r bwriad o ysgogi "ton o weithredu gartref ac yn rhyngwladol. O'n cymunedau, busnesau a sefydliadau ein hunain i seneddau a Llywodraethau ym mhedwar ban byd". Ar 30 Mehefin 2021, cafwyd datganiad argyfwng natur gan Lywodraeth Cymru hefyd. Mae [Rhaglen ddyheadau Llywodraeth Cymru](#) yn gosod yr ymrwymiad i ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn; ynghyd ag ymrwymadau sy'n gysylltiedig â gwella ansawdd dŵr. Ceir mwy o wybodaeth am sut i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, a sut i leihau allyriadau, yn yr **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**.

Ers cyhoeddi ail gylch y Cynllun Rheoli Basn Afon yn 2015, rydym wedi parhau i wella'n dealltwriaeth o'r pwysau, yr effeithiau a'r risgiau y mae'r amgylchedd dŵr yn eu hwynebu. Mae heriau o hyd ar gyfer yr amgylchedd dŵr a bydd integreiddio'r gwaith hwn yn allweddol yn ystod y trydydd cylch.

Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Ymchwilio i fethiannau i gyflawni safonau er mwyn nodi'r rheswm sydd wrth wraidd y methiant.
- Asesu'r perygl o ddirywiad neu o fethu cyflawni safonau yn y cynllun hwn ac yng nghynlluniau yn y dyfodol.
- Ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch ein canfyddiadau drwy'r ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau ac ymgynghoriad ar y cynllun trydydd cylch drafft.
- Ystyried heriau presennol a heriau sy'n dod i'r amlwg yn enwedig y rhai a nodwyd gan randdeiliaid. Defnyddiwyd y rhain i lywio'r rhaglen wedi'i diweddarau o fesurau i fynd i'r afael ag ystod eang o heriau gan gynnwys ffosfforws mewn afonydd ACA, gollyngiadau o orlifau stormydd a mabwysiadu ymagwedd fwy integredig ar gyfer dalgylchoedd o'r tarddle i'r môr.

Rydym wedi adolygu'r rhestr o'r materion pwysicaf sydd, yn ein barn ni, yn bygwth y defnydd a wneir o'r amgylchedd dŵr ar hyn o bryd, a'r defnyddiau posibl ohono i'r dyfodol. Rydym wedi grwpio'r pwysau o dan nifer o benawdau materion a elwir yn Faterion Rheoli Dŵr Arwyddocaol (sylwer nad yw'r rhain yn nhrefn blaenoriaeth), gellir dod o hyd i fwy o fanylion yn **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**. Rydym wedi canolbwyntio ar y materion hynny lle mae angen cymryd mwy o gamau gweithredu i gyflawni amcanion statws.

- **Addasiadau ffisegol.** Newidiadau dynol i'r cynefin naturiol – er enghraifft, amddiffynfeydd rhag llifogydd a choredau diangen neu sydd wedi'u dylunio'n wael, a newidiadau i sianeli afonydd naturiol ar gyfer draenio tir a mordwyo, a physgodfeydd cregyn ar aberoedd ac mewn dyfroedd arfordirol. Gall yr addasiadau hyn achosi newidiadau i lefelau llif naturiol ac arwain at ormodded o waddodion a cholli cynefin y mae ei angen ar fywyd gwyllt i ffynnu
- **Rheoli llygredd o garthion a gwastraff dŵr.** Gall gwastraff dŵr gynnwys symiau mawr o faethynnau (fel ffosfforws a nitradau), amonia, bacteria, a sylweddau niweidiol eraill.
- **Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth.** Mae hwn yn deillio o ddŵr glaw sy'n rhedeg dros wynebau o waith dyn, gan gludo llygryddion i mewn i ddyfroedd, neu ddŵr sy'n cludo sylweddau gwenwynig oddi ar dir halogedig, llygredd atmosfferig sy'n achosi asideiddio, a charthion o dai sydd wedi'u 'cam-gysylltu' â draeniau dŵr wyneb yn hytrach na charthfosydd
- **Llygredd o ardaloedd gwledig.** Gall arfer amaethyddol a choedwigaeth gwael arwain at ryddhau maethynnau a gwaddodion sy'n cael effaith ar yr amgylchedd dŵr (a elwir hefyd yn llygredd gwledig gwasgareddig)


- **Llygredd o fwyngloddiau.** Dŵr halogedig yn draenio o fwyngloddiau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt bellach yn segur
- **Newidiadau i lif naturiol dŵr a'i lefelau.** Mae tynnu gormod o ddŵr o afonydd, llynnoedd a'r ddaear yn achosi problemau i fywyd gwylt ac yn lleihau'r dŵr sydd ar gael i bobl ei ddefnyddio
- **Rhywogaethau Estron Goresgynnol.** Mae presenoldeb planhigion ac anifeiliaid estron goresgynnol yn ein cyrsiau dŵr yn peri bygythiad i fioamrywiaeth, yn cynyddu perygl llifogydd, yn cael effaith ar gyflwr ein hamgylchedd dŵr, ac yn costio biliynau o bunnoedd i'r economi bob blwyddyn

2.5.1 Rhesymau dros beidio â chyflawni statws/potensial da

Ers 2015, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal sawl ymchwiliad i Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o'r materion sy'n cael effaith ar gyrff dŵr. O ganlyniad, rydym bellach mewn gwell sefyllfa i weithio gyda'n partneriaid i gyflawni gwelliannau cynaliadwy. Mae Mae'r Ffigur hwn yn cynrychioli'r sefyllfa fel yr oedd ar adeg benodol; ar ôl cynnal ymchwiliadau pellach a gweithredu mesurau ar lawr gwlad, mae'r set ddata yn cael ei diweddarau. Mae data Gorffennaf 2022 yn dangos mai'r prif resymau dros beidio â chyflawni statws da, mewn trefn ddisgynnol, oedd: llygredd o ardaloedd gwledig, addasiadau ffisegol, llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth, llygredd o ddŵr gwastraff a newidiadau i lif naturiol a lefelau dŵr.

Ffigur 8 isod yn rhoi syniad o'r mathau o bwysau sy'n gweithredu ar ein cyrff dŵr, sydd yn ei dro yn amlygu'r materion neu'r heriau sy'n atal cyrff dŵr rhag cyflawni statws neu botensial da yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae'r Ffigur hwn yn cynrychioli'r sefyllfa fel yr oedd ar adeg benodol; ar ôl cynnal ymchwiliadau pellach a gweithredu mesurau ar lawr gwlad, mae'r set ddata yn cael ei diweddarau. Mae data Gorffennaf 2022 yn dangos mai'r prif resymau dros beidio â chyflawni statws da, mewn trefn ddisgynnol, oedd: llygredd o ardaloedd gwledig, addasiadau ffisegol, llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth, llygredd o ddŵr gwastraff a newidiadau i lif naturiol a lefelau dŵr.

Ffigur 8 Rhesymau dros beidio â chyflawni statws/potensial da yn 2021



Sylwer: Mae yna fethiannau oherwydd data amheus yr ydym yn gweithio i'w datrys. Gall methiannau eraill gynnwys yr amser sydd ei angen i'r ecoleg adfer ar ôl ymyrraeth a lle mae rhwystrau naturiol fel rhaedrau yn cyfyngu ar symudiad pysgod. Ceir hefyd nifer o achosion anhysbys lle nad ydym wedi gallu canfod y rheswm am fethu neu lle nad oedd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau ar adeg ysgrifennu (nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y graff).

2.6 Aseidiadau risg

Rydym wedi adolygu data ansawdd dŵr a gwybodaeth am y mathau o bwysau, a'u maint, sy'n cael effaith ar gyrrff dŵr yn yr ardal basn afon, gyda'r nod o wneud y canlynol:

- Aseu pa mor agored yw cyrff dŵr i'r pwysau hynny, ac, yn arbennig
- Amcangyfrif y tebygolrwydd y bydd cyrff dŵr yn methu eu hamcanion ansawdd amgylcheddol yn y dyfodol, neu'n dirywio o'u cyflwr presennol

Cafodd y fethodoleg ar gyfer pob [asesiad risg \(arcgis.com\)](https://arcgis.com) ei theilwra i'r pwysau penodol, ond, yn gyffredinol, roedd yn asesiad o raddfa'r pwysau a sensitifrwydd y corff dŵr. Mae'r aseidiadau risg o'r pwysau a gyflwynir yn nhabl 12 isod ar gael ac maent yn ddilys tan 2027, gan gynnwys y rheini a gafodd eu hadolygu ddiwethaf yn ystod yr ail gylch yn 2014 ac a gafodd eu hasesu dros gyfnod hwy, gan olygu felly nad oedd angen eu diweddarau.

Tabl 12 Rhestr o'r aseidiadau risg sydd ar gael fesul y math o bwysau a'r categori dŵr

Pwysau amgylcheddol	Categori dŵr	Adolygiad diweddaraf
Ffosffadau	Afonydd a llynnoedd	2019, diweddarwyd 2021

Pwysau amgylcheddol	Categori dŵr	Adolygiad diweddaraf
Cemegion a metelau	Afonydd, llynnoedd, dŵr daear, dyfroedd aberol a dyfroedd arfordirol	2019 (2014 ar gyfer cemegion a metelau mewn dŵr daear)
Nitrogen anorganig toddedig	Dyfroedd aberol a dyfroedd arfordirol	2019
Ocsigen ac amonia toddedig	Afonydd	2019
Addasiadau ffisegol	Afonydd	2022
Organebau sy'n ddangosyddion ysgarthol	Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Pysgod Cregyn ac Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Ymdrochi	2014
Asideiddio	Llynnoedd ac afonydd	2014
Tynnu dŵr a'r llif	Afonydd a dŵr daear	2014
Rhywogaethau estron goresgynnol	Afonydd, llynnoedd, dyfroedd aberol a dyfroedd arfordirol	2014
Gwaddod	Afonydd	2014

Rydym yn defnyddio'r asesiadau risg i wneud y canlynol:

- Nodi am ba ardaloedd a phwysau y bydd angen casglu mwy o ddata er mwyn datblygu a blaenoriaethu ein strategaeth fonitro
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni o fesurau cenedlaethol, yn enwedig ar gyfer pwysau lle mae data dosbarthu ar goll

3. Mesurau ac Amcanion

3.1 Crynodeb o'r Rhaglen o Fesurau

Mae'r adran hon yn crynhoi'r brif Raglen o Fesurau rydym yn anelu at ei chyflwyno a fydd yn cyflawni'r amcanion statudol:

- **Atal dirywiad mewn statws** – Ni fydd statws y corff dŵr yn cael dirywio.
- **Cyflawni'r amcanion ar gyfer Ardaloedd Gwarchoddedig** – Cyflawni'r safonau a bennir gan y ddeddfwriaeth berthnasol y cawsant eu dynodi oddi tanynt. Ar gyfer safleoedd Ewropeaidd sy'n dibynnu ar ddŵr, byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflawni amcanion cadwraeth. Bydd cyflawni statws da erbyn 2027 yn cyfrannu tuag at fodloni'r amcanion hyn.
- **Anelu at gyflawni statws/potensial cyffredinol da ar gyfer dyfroedd wyneb a dyfroedd daear** – Rhoi mesurau ar waith i gyflawni statws cyffredinol da lle bônt yn ddichonadwy o safbwynt technegol, ac nid yn anghymesur o gostus.

Bydd yn ofynnol cael cyfuniadau o fesurau i gyflawni hyn, a gaiff eu cyflwyno ar draws llawer o sectorau, a chan y cyhoedd yn ogystal - mae gennym i gyd ran i'w chwarae. Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn ystyried y mesurau sy'n angenrheidiol a'r mecanweithiau ar gyfer eu cyflawni, ceir rhagor o fanylion am y mecanweithiau hyn yn **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**. Mae'r rhain yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r heriau sy'n bygwth defnyddiau presennol yr amgylchedd dŵr, a'r defnyddiau a wneir ohono yn y dyfodol, ac i'w gynnal a'i wella.

Yn y ddogfen hon, mae crynodeb o fesurau strategol a chamau gweithredu (lleol) ar gyfer cyrff dŵr y cynllunnir eu cyflwyno yn cynnwys y canlynol:

- mesurau strategol – mae'r rhain fel arfer yn berthnasol i Gymru gyfan, Cymru a Lloegr, neu i'r Deyrnas Unedig. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn pennu'r dull o weithredu o safbwynt deddfwriaeth, polisi neu strategaeth, neu maent yn hanfodol bwysig i waith cyflenwi lleol a chanlyniadau amgylcheddol. Maent hefyd yn cynnwys rhai o'r prif raglenni cyflawni sydd wedi'u crynhoi yn Adran 3.2. Er enghraifft, gwaharddiad cenedlaethol ar ddefnyddio cemegyn penodol, neu strategaeth genedlaethol ar gyfer blaenoriaethu ac ariannu gwaith adfer mwyngloddiau segur. Ceir rhagor o fanylion ar wefan [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#)
- gweithredu lleol - y camau gweithredu hynny sydd wedi'u nodi'n lleol sy'n ofynnol i gyflawni canlyniadau Rheoliadau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017, buddion ehangach i'r amgylchedd dŵr a chyfrannu at nodau llesiant. Bydd llawer o'r camau gweithredu lleol yn gysylltiedig â'r mesurau strategol. Er enghraifft, gwneud gwaith ymchwiliol i ddatrys llygredd o fewn Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed, cael gwared ar blanhigion ymledol ar hyd darn o afon ddynodedig neu symud ymlaen ag argymhellion a nodir yn y Cynlluniau Adfer Afonydd. Mae camau gweithredu Dalgylch Cyfle wedi cael eu cynnwys yma ac yn ffurfio maes sylweddol i'r gwaith ar gyfer Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae camau gweithredu ar gyfer cyrff dŵr artiffisial yn gyfres benodol o fesurau lliniaru sy'n ddibynnol ar ddefnydd, e.e. tynnu

cwlfer at ddefnydd trefoli. Ceir rhagor o fanylion ar Ddalgylchoedd Cyfle ar wefan [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#).

Mae camau gweithredu lleol wedi cael eu categorio fel:

- Camau Gweithredu Lleol (Ymrwymedig) – dyma'r camau gweithredu hynny sy'n anelu at gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2017, buddion ehangach i ddŵr a/neu i bobl lle mae sicrwydd ynghylch cyllid, adnoddau, partneriaethau a/neu amserlenni.
- Nodau'r Dyfodol (Gweithredu Lleol Posibl) – Mae Nodau'r Dyfodol yn fesurau mwy uchelgeisiol, hyblyg lle mae llai o sicrwydd ynghylch gweithredu. Caiff y rhain eu hadolygu o fewn y trydydd cylch a fydd yn datblygu yn ystod 2021-2027. Bydd cynnydd yn erbyn y mesurau uchelgeisiol hyn yn dibynnu ar bethau fel sicrhau cyllid digonol, datblygu'r partneriaethau cywir ac ati a gall newid pe bai tystiolaeth neu wybodaeth bellach yn dod i'r amlwg. Mae'r **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)** yn cynnwys mwy o wybodaeth am y dull a ddilyni'r hyn sy'n wahanol ar gyfer y trydydd cylch.

3.2 Y prif raglenni cyflenwi

Caiff y Rhaglen o Fesurau, a'r canlyniadau amgylcheddol y mae'n anelu at eu cyflawni, ei chyflwyno drwy nifer o raglenni a mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r adran ganlynol yn darparu crynodeb o'r prif raglenni. Ceir mwy o fanylion am bob un o'r mecanweithiau yn yr **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**, a chaiff dogfennaeth ategol bellach ei defnyddio hefyd ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon er mwyn cefnogi gwaith olrhain.

Mae'r prif raglenni yn y ddogfen hon yn cynnwys y canlynol:

- Strategaeth Ddŵr i Gymru gan Lywodraeth Cymru
- Rhaglen Cyfoeth Naturiol Cymru a lywir gan Reoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2017
- Gwelliannau ar raddfa dalgylch, Adfer Afonydd a chyfleoedd am Bysgodfeydd Cynaliadwy
- Ardaloedd Gwarchoddedig, gan gynnwys Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
- Rheoli perygl llifogydd a risgiau arfordirol
- Rhaglen Fuddsoddi'r Diwydiant Dŵr gan gynnwys y map ffordd gorlif storm
- Mesurau cynaliadwyedd ar gyfer adnoddau dŵr
- Rheoli tir yn gynaliadwy – amaethyddiaeth
- Rheoli tir yn gynaliadwy - coetiroedd a choedwigaeth

- Cronfa Gyfalaf Llywodraeth Cymru
- Dalgylchoedd Cyfle

Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar darddiad i'r môr wrth integreiddio'r rhaglenni hyn i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y gallwn eu hennill o darddle ein hafonydd i'r môr. Mae gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar le yn galluogi'r dull hwn o weithredu ond rydym yn gobeithio datblygu hyn ymhellach yn y cylch canlynol.

3.2.1 Strategaeth Ddŵr i Gymru gan Lywodraeth Cymru

Cafodd y Strategaeth Ddŵr i Gymru ei lansio ym mis Mai 2015. Y weledigaeth yw sicrhau bod Cymru'n parhau i feddu ar amgylchedd dŵr sy'n ffynnu ac sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau sy'n ffynnu, a'r amgylchedd. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer polisi dŵr i'r hirdymor yng nghyd-destun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol wrth nodi meysydd y mae angen diweddariad a diwygiad arnynt. Disgwylir i'r adolygiad, gyda mewnbwn gan rhanddeiliaid, gael ei symud ymlaen yn 2022.

Caiff y strategaeth ei diwygio er mwyn rhoi sylw i newidiadau gwyddonol, cymdeithasol a gwleidyddol mwy diweddar sy'n cael effaith ar yr amgylchedd dŵr a'n sector dŵr.

Bydd cynllun gweithredu'n cyd-fynd â'r strategaeth bresennol, a fydd yn cynnwys cerrig milltir hyd at 2025 (a'r tu hwnt). Mae blaenoriaethau'r polisi fel a ganlyn:

- hybu'r gwaith o ddatblygu'r dull seiliedig ar ardal o reoli adnoddau naturiol
- sicrhau mynediad i wasanaethau dŵr a charthffosiaeth teg a fforddiadwy
- datganoli pob mater sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth
- dull gweithredu mwy penodedig o reoli carthffosiaeth a draenio, a datblygu a gweithredu deddfwriaeth i hybu datrysiadau draenio cynaliadwy
- diwygio'r system trwyddedu tynnu dŵr yng Nghymru i sicrhau bod ein hadnoddau dŵr yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy nawr, ac i'r dyfodol
- adolygu, a lle bo hynny'n briodol, newid arferion a dulliau rheoleiddio presennol er mwyn mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig

3.2.2 Rhaglen Cyfoeth Naturiol Cymru a Iywir gan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Mae CNC wedi ymrwymo i gyflawni amcanion statudol drwy ddull integredig o reoli adnoddau naturiol a dalgylchoedd ar draws ei swyddogaethau. Ar gyfer 2021–2027, rydym wedi gweithio i ddatblygu rhaglen o fesurau fforddiadwy, sy'n seiliedig ar ein dealltwriaeth bresennol o adnoddau sydd eisoes yn bodoli.

Bydd ffocws ar y canlynol:

- Atal dirywiad ymhob corff dŵr – drwy weithgareddau craidd CNC, gan gynnwys ymateb i ddiwyddiadau
- Nodi lle caiff gwelliannau ar lefel elfen eu cyflwyno yn ystod y cylch, ond lle bydd mesurau pellach yn ofynnol er mwyn sicrhau newid yn y statws cyffredinol ecolegol
- Parhau i ddatblygu ein dull o reoli adnoddau naturiol trwy weithio ar lefel dalgylch lleol a chipio'r buddion ehangach a ddarperir ar gyfer Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 trwy Ddalgylchoedd Cyfle
- Targedu camau gweithredu yn lleol ac mewn modd integredig i gyflwyno gwelliannau amgylcheddol i gyrff dŵr ac Ardaloedd Gwarchodedig, gan gynnwys ardaloedd a warchodir ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau sy'n dibynnu ar ddŵr, trwy Ddatganiadau Ardal a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

3.2.3 Gwelliannau ar raddfa dalgylch, Adfer Afonydd a chyfleoedd am Bysgodfeydd Cynaliadwy

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n datblygu Rhaglen Adfer Afonydd integredig i gasglu gwaith cysylltiedig o bob rhan o Gymru ynghyd. Y nod yw defnyddio dull sy'n seiliedig ar natur i adfer cynefin afonydd nodweddiadol er lles hydromorffoleg, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, pysgodfeydd a rheoleiddio llifogydd. Mae modd diffinio ffocws y gwaith hwn fel: ailsefydlu prosesau ffisegol naturiol (e.e. amrywiad llif a symudiadau gwaddod), nodweddion (e.e. maint y gwaddodion a siâp yr afon) a chynefinoedd ffisegol system afon (gan gynnwys ardaloedd tanddwr, glannau a gorlifdir).

Mae'r Rhaglen Adfer Afonydd yn cynnwys sawl maes, gan gynnwys blaenoriaethu'r cyrff dŵr a fydd yn destun gwaith adfer, llunio cyfres o gynlluniau adfer afonydd strategol ar gyfer afonydd â blaenoriaeth, gan gynnwys afonydd mewn ACAau, casglu data gweithgarwch, a datblygu astudiaethau achos o arfer gorau. Ceir cysylltiadau cryf â Dalgylchoedd Cyfle, Datganiadau Ardal, a'r Cynlluniau Adfer Cynefinoedd Pysgodfeydd, sy'n canolbwyntio ar gyfyngiadau cynefin ffisegol ar boblogaethau o bysgod.

Ceir mwy o wybodaeth am y cynlluniau Adfer Afonydd rydym wedi'u comisiynu yn adran 2.2.5 yr **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**.

Yn ogystal â'r Rhaglen Adfer Afonydd, mae'r Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy yn thema sy'n cwmpasu sawl amcan gwahanol, ond cysylltiedig, ar gyfer stocio o bysgod a physgodfeydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy ei hun, sef cronfa fach a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau, gan gynnwys gwelliannau i gynefinoedd pysgod a hybu pysgodfeydd
- rhaglen o fesurau lliniaru gwahanol sy'n darparu gwelliannau i gynefinoedd afonydd fel dewis arall i feithrin salmonidau mudol trwy dulliau artiffisial a mentrau stocio y mae CNC wedi'u terfynu erbyn hyn
- ffynonellau achlysurol eraill o gyllid ar gyfer cyflawni gwaith adfer cynefinoedd pysgod.

Caiff y mentrau hyn eu cefnogi a'u rheoli gan CNC, a'u nod yw parhau â gwaith blaenorol (a gyflawnwyd yng nghylch cyntaf (2009-2015) ac ail gylch (2015-2021) Cynllun Rheoli Basn Afon), a chychwyn prosiectau newydd ledled Cymru i wella stociau o bysgod a'u cynefinoedd. Mae CNC yn gweithio'n agos gydag Afonydd Cymru a'r teulu o chwe ymddiriedolaeth afonydd yng Nghymru, fel y disgrifir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y partïon, i ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy.

3.2.4 Ardaloedd Gwarchodedig

Rydym am sicrhau bod ardaloedd gwarchodedig yn bodloni'r safonau ac yn cyflawni'r amcanion sy'n berthnasol iddynt. Mae rhai prosiectau a mesurau wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer Ardaloedd Gwarchodedig nad ydynt yn cyflawni eu hamcanion ar hyn o bryd.

Mae'r Rhaglen o Fesurau ar ffurf ddrafft yn cynnwys amrediad eang o fesurau i ddiogelu a gwella'r canlynol:

- Dyfroedd Yfed
- Dyfroedd Pysgod Cregyn
- Dyfroedd Ymdrochi
- Ardaloedd sy'n sensitif i faetholion (Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol)
- Safleoedd Ewropeaidd

Mae mwy o fanylion ar gael yn yr **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**.

Ceir gwybodaeth ychwanegol am y mesurau a'r amcanion ar gyfer safleoedd Ewropeaidd yn y [cynlluniau rheoli craidd](#) a'r dogfennau morol cyfatebol ar [Reoliad 37](#).

Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cynllun, yn asesu'r Rhaglen o Fesurau i sicrhau na cheir canlyniadau anfwriadol o'i chyflwyno, fel nad ydym yn cael effaith ar rai nodweddion wrth ddwyn budd i rai eraill.

3.2.4.1 Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd CNC adroddiad tystiolaeth ar [Asesiad o gydymffurfiaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd Cymru yn erbyn targedau Ffosfforws](#). Mae hyn yn cynnwys ACA Afon Teifi ac Afon Cleddau. Mae'r adolygiad o dystiolaeth yn dangos yn gyffredinol bod toriadau ffosfforws yn eang o fewn ACA afonydd yn erbyn y targedau tynhau diwygiedig. Mae dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ar achosion 'Nitrogen yr Iseldiroedd' yn effeithio ar asesiad cynlluniau a phrosiectau dan y Rheoliadau Cynefinoedd. O ganlyniad i'r penderfyniad, mae'r cwmpas ar gyfer awdurdodi datblygiad newydd a fydd yn arwain at lwyth ffosfforws ychwanegol yn debygol o fod yn gyfyngedig pan fo statws cadwraeth yr ACA yn anffafriol gan fod safonau maethynnau yn cael eu rhagori.

Mae CNC wedi creu Prosiect Afonydd ACA i ganolbwyntio ar faterion ansawdd dŵr yn ein hafonydd dynodedig. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid yn Llywodraeth

Cymru, Awdurdodau Cynllunio, Rheolwyr Tir, Cwmnïau Dŵr ac eraill i benderfynu ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r sefyllfa yn genedlaethol drwy Grŵp Goruchwylio Llywodraeth Cymru ac Is-grŵp Cynllunio. Yn ogystal, mae Byrddau Rheoli Maetholion lleol yn cael eu sefydlu ar gyfer afonydd yr ACA. Rôl y Byrddau fydd nodi a chyflawni camau gweithredu sy'n sicrhau gwelliannau ansawdd dŵr yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd. Yn y lle cyntaf bydd hyn yn canolbwyntio ar y targedau cadwraeth ffosffad. Bydd aelodaeth y Byrddau yn amrywio yn ôl anghenion lleol, ond yn nodweddiadol bydd yn cynnwys; Awdurdodau Lleol, CNC, Dŵr Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Y prif fecanwaith ar gyfer cyflawni hyn fydd trwy gyflwyno Cynllun Rheoli Maetholion.

Sefydlwyd y pum ffrwd waith canlynol i ymgymryd â'r gwaith gofynnol:

- darparu cyngor cynllunio a datganiadau sefyllfa
- asesiadau o gydymffurfiaeth â thargedau ansawdd dŵr
- gwelliannau i ansawdd dŵr
- gwaith monitro a thystiolaeth
- trwyddedu a thaenu ar y tir

Am ragor o wybodaeth am y gwaith gweler ein gwefan; Cyfoeth Naturiol Cymru / Ansawdd dŵr mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd.

3.2.5 Rheoli llifogydd a risgiau arfordirol

Mae gweithgarwch Rheoli Perygl Llifogydd yn cyfrannu at ddiben cyffredinol CNC drwy reoli'r perygl o lifogydd i bobl a chymunedau Cymru, a chynyddu gwydnwch cymunedau nawr ac i'r dyfodol.

Mae gwasanaeth rheoli perygl llifogydd CNC, yn ei gyfanrwydd, yn cynnwys yr holl waith a wneir gan CNC yn unol â dyletswyddau a chyfrifoldebau a bennir iddo gan Lywodraeth Cymru a deddfwriaeth. Ar lefel uchel, ystyrir bod gwaith rheoli perygl llifogydd yn cynnwys y canlynol:

- Rheoli asedau perygl llifogydd
- Darparu'r gwasanaeth Hydrometreg a Thelemetreg
- Gwydnwch ac ymgysylltu cymunedol
- Deall perygl llifogydd a'i ddadansoddi
- Cynghori cynllunwyr, gwaith cydsynio a gwaith gorfodi
- Darparu cyngor a goruchwyliaeth strategol

Nod gwaith rheoli perygl llifogydd yw lleihau perygl llifogydd i gymunedau Cymru drwy leihau datblygiadau amhriodol o fewn ardaloedd sydd mewn perygl, atal llifogydd gan

ddefnyddio amddiffynfeydd a chan reoli dalgylchoedd a chyrsgiau dŵr, a symud pobl ac eiddo i fannau diogel yn ystod adegau o dywydd eithafol trwy sicrhau bod cymunedau'n fwy ymwybodol ac yn fwy gwydn cyn, yn ystod, ac ar ôl llifogydd. Mae pob un o'r gweithgareddau uchod, ar y cyd, yn sicrhau y cyflawnir y canlyniadau hyn, ac felly nid yw'r un ohonynt, ar ei ben ei hun, yn ymdrin â'r perygl llifogydd yn llwyr ar gyfer unrhyw gymuned mewn perygl.

Drwy fuddsoddiad cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd a rhaglenni cynnal a chadw rheolaidd CNC, rydym yn rheoli perygl llifogydd mewn sawl ffordd, fel a ganlyn:

- Drwy adeiladu cynlluniau lliniaru llifogydd newydd, a strwythurau eraill megis llifddorau a gorsafoedd pwmpio
- Drwy waith cynnal a chadw ar amddiffynfeydd ac adeileddau unwaith y maent wedi'u hadeiladu, gan eu cadw mewn cyflwr da a'u hatgyweirio neu eu gwella pryd bynnag y bo hynny'n ofynnol
- Drwy waith cynnal a chadw ar gyrsgiau dŵr prif afonydd, gan gael gwared ar rwystrau, llystyfiant a graean neu waddodion i sicrhau bod dŵr yn parhau i lifo, a chael gwared ar risgiau llifogydd sylweddol
- Gweithio ar gynefinoedd i liniaru a gwneud yn iawn am effeithiau niweidiol a achosir gan amddiffynfeydd rhag llifogydd

Cefnogir pob un o'r gweithgareddau hyn gan ein hymdrechion i ddeall perygl llifogydd drwy ein gwaith o fapio a modelu perygl llifogydd. Rydym yn ymgymryd â'n gwaith cynnal a chadw a chyfalaf mewn perthynas â pherygl llifogydd drwy roi ystyriaeth i'r newid yn yr hinsawdd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rydym yn integreiddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a dulliau naturiol o reoli llifogydd, yn ein cynlluniau er mwyn cyflwyno cynlluniau cynaliadwy sy'n cynnal statws neu botensial ecolegol.

3.2.5.1 Y Rheoliadau Perygl Llifogydd

Diben y Rheoliadau Perygl Llifogydd yw sicrhau bod CNC a'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn deall yr hyn sydd mewn perygl o lifogydd a'u bod yn cynllunio ar gyfer yr hyn sydd angen ei wneud i reoli'r risg. Mae hyn yn golygu asesu pa gyrsgiau dŵr a pha rannau o'r arfordir sydd mewn perygl o lifogydd (yr Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd), mapio maint llifogydd, a'r asedau a phobl sydd mewn perygl yn yr ardaloedd hyn (y map o Beryglon Llifogydd a'r map Perygl Llifogydd), a gweithredu mesurau digonol a chydlynol i leihau'r perygl (Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd) dros gyfnod cylch chwe blynedd.

Rydym wrthi'n drafftio Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yr ail gylch, a fydd, ar ôl eu cwblhau, yn cyd-fynd â Chynlluniau Rheoli Basn Afon y trydydd cylch. Bydd y ddau gynllun, ar y cyd, yn cynnwys mesurau sydd â'r nod o wella'r amgylchedd dŵr yng Nghymru.

3.2.6 Rhaglen fuddsoddi'r diwydiant dŵr

Yng nghynllun busnes Dŵr Cymru ar gyfer 2020–25 (Cynllun Rheoli Asedau 7), mae £218 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer cyflawni ei ofynion amgylcheddol statudol, gan anelu at

gyflwyno 418 cilomedr o welliannau afon ar hyd ei ardal weithredol. Mae'r rhaglen yn cynnwys ymchwiliadau a buddsoddiad a dargedir i leihau effeithiau gorlifoedd carthffosiaeth cyfunol sy'n gollwng yn ormodol, trydydd cam y Rhaglen Ymchwilio i Gemegau'r DU (UKCIP3), a buddsoddiad pellach mewn gweithfeydd trin carthion er mwyn bodloni gofynion Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994. Bydd tystiolaeth o ymchwiliadau AMP7 yn llywio penderfyniadau buddsoddi, a gwaith datblygu Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff newydd y cwmni, a gaiff ei gyhoeddi ar ffurf ddrafft ar gyfer ymgynghori arno yn 2022.

O safbwynt y trydydd cylch, ar gyfer afonydd Gorllewin Cymru, mae Dŵr Cymru'n anelu at gyflwyno'r canlynol:

- Cynlluniau i fodloni amcanion ardaloedd gwarchoddedig safleoedd a warchodir gan Ewrop
- Cynlluniau i fodloni gofynion Rheoliadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr 2017 o ran atal dirywiad
- Cynlluniau i gyfrannu at sicrhau statws ecolegol da yn unol â Rheoliadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dwr 2017
- Gwaith ymchwil a gwelliannau wedi'u targedu i leihau effeithiau asedau ar lwybrau pysgod
- Dalgylchoedd peilot rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy lle y bydd Dŵr Cymru yn archwilio dulliau arloesol o fynd i'r afael ag effeithiau ei asedau yn nalgylchoedd Afon Afan, Afon Teifi ac Afon Clwyd
- Cynlluniau gwella i fodloni gofynion llif Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994
- Gwelliannau i orlifoedd carthffosiaeth cyfunol i fodloni gofynion Dŵr Pysgod Cregyn yn Nwyrain Menai

Ar hyn o bryd mae CNC a Dŵr Cymru yn gweithio ar ddatblygu cynllun busnes 2025-30 (Cynllun Rheoli Asedau 8), a bydd hyn yn cynnwys cyflawniad camau gweithredu lleol tri Dalgylch Cyfle. Bydd angen cyllid ar gyfer y rhain drwy broses Adolygiad Cyfnodol y sector. Yn benodol, bydd angen i gamau gweithredu o'r fath gael eu cynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau 8 (2025-30) a'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol gan CNC. Y camau gweithredu lleol yw'r parthau diogelu Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed (Ynys Môn) a'r ardaloedd peilot rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Nalgylchoedd Cyfle Clwyd a Bae Abertawe.

Mae Dŵr Cymru yn weithredol wrthi'n archwilio'r broses o symud i ffwrdd o ddatrysiadau carbon-ddwys 'llwyd', sy'n seiliedig ar goncrit, i ddatrysiadau seiliedig ar natur fel gwlyptiroedd, lle gellir eu lleoli, er enghraifft, ar safleoedd gweithfeydd trin dŵr gwastraff bach y mae'n ofynnol iddynt sicrhau gostyngiad mewn maethynnau. Bydd y rhain yn ffurfio rhan o'r dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

3.2.6.1 Map ffordd gorlif storm

Mae CNC, Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy (y sefydliadau partner) wedi sefydlu tasglu i ymchwilio a gwerthuso'r dull cyfredol i reoli a rheoleiddio gorlifoedd stormydd yng Nghymru. Mae Afonydd Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn darparu cyngor annibynnol i'r tasglu, gan gynnig mewnwelediad allweddol a her o safbwynt rhanddeiliaid a chwsmeriaid.

Y nod yw:

- Lleihau effaith negyddol unrhyw ollyngiadau gorlif ar yr amgylchedd, gan gymryd camau gweithredu rheoliadol lle y bo angen i gyflawni gwelliannau.
- Casglu mwy o dystiolaeth o ran effaith ein hafonydd, ein haberoedd a'n dyfroedd arfordirol drwy fonitro gollyngiadau a'r dŵr derbyn yn well.
- Gweithio gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid i wella dealltwriaeth a rôl gorlifoedd yng Nghymru.

3.2.7 Mesurau cynaliadwyedd ar gyfer adnoddau dŵr

Mae angen trwydded tynnu dŵr cyn y gellir tynnu mwy na 20 metr ciwbig y dydd fesul ffynhonnell (oni bai fod y tynnwr dŵr wedi'i eithrio rhag trwyddedu). Mae angen trwydded cronni dŵr lle mae'r llif wedi'i lesteirio neu ei rwystro (wedi cronni) gan waith adeiladu, addasu, atgyweirio neu gael gwared ar gronfa (oni bai ei fod wedi'i eithrio rhag trwyddedu). Caiff y trwyddedau hyn eu rheoleiddio yng Nghymru gan CNC. Mae CNC yn cynnal cofrestr o bob cais am drwydded tynnu a chronni dŵr, a phenderfyniadau dilynol, y gellir ei gweld yn allanol drwy'r gofrestr gyhoeddus.

Bydd asesiadau o argaeledd adnoddau dŵr, ar ffurf Strategaethau Trwyddedu Tynnu Dŵr, yn parhau i gael eu diweddarau a'u gwella fel bod y darlun mwyaf diweddar o safbwynt adnoddau dŵr ar gael i gwsmeriaid sydd am ymgeisio am drwydded tynnu dŵr. Bydd strategaethau trwyddedu tynnu dŵr yn parhau i fod yn sylfaen i'n penderfyniadau o ran pennu trwyddedau tynnu a chronni dŵr.

Mewn achosion lle canfyddir nad yw'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau tynnu dŵr hŷn yn bodloni amcanion statudol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu'r trwyddedau perthnasol. Caiff mesurau rheoli dalgylch, neu fesurau i liniaru, diddymu neu leihau'r gweithgaredd tynnu dŵr hwnnw, eu rhoi ar waith er mwyn cydymffurfio â'r amcan lleiaf o sicrhau nad oes dirywiad yn unol â gofynion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017.

Ers 1 Ionawr 2018, mae angen i'r rhan fwyaf o dynwyr dŵr a oedd wedi'u heithrio yn flaenorol (os ydynt yn tynnu dros 20 metr ciwbig y dydd fesul ffynhonnell) gael trwydded i barhau i dynnu dŵr yn gyfreithiol. Rhwng 1 Ionawr 2017 a 31 Rhagfyr 2019 cynigiodd CNC broses ymgeisio bontio symlach ar gyfer tynwyr dŵr a oedd wedi'u heithrio yn flaenorol. Bydd yn rhaid i CNC ddod i benderfyniad ar bob cais pontio erbyn 31 Rhagfyr 2022. Mae rhai gweithgareddau tynnu a chronni dŵr yr ystyrir eu bod â risg isel yn parhau i fod wedi'u heithrio.

Mae CNC yn gyfrifol am wirio cydymffurfiaeth â thrwyddedau ar sail risg, darparu cyngor ac arweiniad, a chymryd camau diogelu, gan gynnwys dosbarthu hysbysiadau, sancsiynau sifil neu gamau gorfodi. Bydd sicrhau bod gweithgareddau tynnu dŵr yn cydymffurfio yn cefnogi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn gwella gwydnwch yr amgylchedd er mwyn bodloni amcanion statudol.

Mae'r ffaith fod gwaith rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy yn wynebu heriau i gyfundrefnau llif o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, glawiad mwy dwys a chyfnodau sych hwy yn golygu y bydd rhai o'r trwyddedau sydd eisoes yn bodoli yn peri problemau yn y dyfodol wrth i lefelau cyrsiau dŵr wyneb a dŵr daear ostwng, yn ôl [Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU – Crynodeb ar gyfer Cymru 2017](#).

Yn y dyfodol, caiff gweithgareddau tynnu dŵr eu rheoli o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Mae'r diwygiad hwn o'r system drwyddedu yn cynnig cyfle i ymgorffori hyblygrwydd hirdymor er mwyn ymdrin â'r heriau presennol, ac i'r dyfodol, o safbwynt y newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth a thwf economaidd, ac i ymwreiddio mesurau effeithlonrwydd dŵr yn nefnydd dŵr ar draws pob sector.

Mae Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU – Crynodeb ar gyfer Cymru 2017 yn rhagweld y bydd cynnydd yn amllder a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol. Mae'r pwysau presennol ar adnoddau dŵr, a'r galw o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth a datblygiad trefol, hefyd yn debygol o gynyddu, ynghyd â'r ôl troed carbon ar gyfer trin a chyflenwi dŵr. Offeryn pwysig y gellir ei ddefnyddio i liniaru'r pwysau hyn yw gwella defnydd effeithlon dŵr ar draws pob sector.

Mae Grŵp Effeithlonrwydd Dŵr Cymru a Grŵp Llywio Strategol Effeithlonrwydd Dŵr y DU yn gweithio ar y cyd i hybu negeseuon cyson a mentrau effeithlonrwydd dŵr ledled y DU, gan godi ymwybyddiaeth o'r angen i arbed dŵr.

3.2.8 Rheoli tir yn gynaliadwy – amaethyddiaeth

Mae CNC yn parhau i weithio gyda'r sector i lunio dull strategol ar y cyd yn unol â'n hegwyddorion rheoliadol a'n hegwyddorion o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae hyn wedi arwain at ddull sydd â phum thema ac a fydd, o'u cyfuno, yn llawer mwy effeithiol nag y byddai symud ymlaen ag unrhyw thema ar wahân, a cheir mwy o fanylion yn yr **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**. Y themâu yw rheoleiddio; Camau gwirfoddol; Cyngor, Arweiniad; Gwybodaeth; datblygu sgiliau a phrofiad; Buddsoddi ac arloesedd. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn y dull a ddatblygwyd gan [Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol](#) yn ei adroddiad cynnydd [Mynd i'r Afael â Llygredd Amaethyddol](#).

Bydd Bil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru) yn llunio'r ddeddfwriaeth sylfaenol hirdymor ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, a pholisïau a rheoliadau sy'n ymwneud â rheoli tir yn gynaliadwy, gan ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Deddf Amaethyddiaeth y DU 2020. Mae'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth ddilynol yn cynnig cyfle i ddarparu ar gyfer nifer o feysydd pwysig mewn perthynas â'r themâu.

3.2.9 Rheoli tir yn gynaliadwy - coetiroedd a choedwigaeth

Mae cwlferi sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, trapiau gwaddodion effeithiol, draenau ymyl ffordd sydd ar wahân i gyrsiau dŵr naturiol, parthau torlannol, a rheolaeth dŵr briodol

o fewn y goedwig yn hanfodol i atal dirywiad yn statws y cyrff dŵr sy'n gysylltiedig ag Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i wella ansawdd amgylcheddol Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn gyson. Rydym yn parhau i fynd i'r afael â'r pwysau ar ansawdd dŵr a'r swm o ddŵr drwy gydymffurfio â Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd yn 2017 (a'r canllawiau arfer ategol "Rheoli gweithrediadau coedwigaeth i warchod yr amgylchedd dŵr" a "Rheoli coedwigoedd mewn dalgylchoedd sy'n sensitif i asid"). Mae'n ofynnol cael cynllun rheoli dŵr ar gyfer pob gweithgaredd sy'n ymwneud â chynaeafu, ailstocio a pheirianeg ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru.

Mae Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd yn amlinellu'r weledigaeth 25 mlynedd a chynllun gweithrediadau deg mlynedd ar gyfer goedwig. Maent yn cyflwyno'r cyfle i wella'r amgylchedd dŵr drwy ddynodi parthau torlannol a fydd yn dod yn nodweddion parhaol, nodi ardaloedd ar gyfer eu rheoli o dan Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith drwy raglen teneuo graddol, ac asesu ardaloedd â mawn dwfn i benderfynu p'un a ydynt yn addas ar gyfer eu hadfer.

Gweithredir Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd drwy Gynlluniau Llannerch, a lunnir er mwyn rheoli gweithrediadau coedwigaeth. Dyma'r cam lle caiff Cynlluniau Rheoli Dŵr eu llunio er mwyn sicrhau na chaiff y gwaith effaith sylweddol ar ansawdd dŵr. Rhaid i bob gwaith gydymffurfio â Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal, lle nodir cyllid ychwanegol, mae prosiectau'n cynnig cyfleoedd ardderchog i wella'r amgylchedd dŵr, fel gwaith adfer afonydd.

3.2.10 Cronfa Gyfalaf Llywodraeth Cymru

Y meysydd blaenoriaeth ar gyfer Rhaglen Gyfalaf Dŵr Llywodraeth Cymru yw Mwyngloddiau Metel, Ansawdd Dŵr, Mawndiroedd a Physgodfeydd. Mae rhaglen gyflawni cyfalaf arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ansawdd dŵr yn 2022-23 yn mynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol sy'n bygwth yr amgylchedd dŵr ac yn atal Cymru rhag cyflawni ei hamcanion o dan Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Y materion hyn yw addasu ffisegol, llygredd o garthion a dŵr gwastraff, llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth, llygredd o ardaloedd gwledig a llygredd o fwyngloddiau.

Yn ogystal â chymryd camau i gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017, mae'r rhaglen wedi'i hategu gan ofynion deddfwriaethol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae hefyd yn ystyried ein dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y nod yw cyflawni prosiectau sydd ag allbynnau cyfalaf clir, mesuradwy a fydd yn cyfrannu at warchod a gwella'r amgylchedd dŵr ehangach gan gynnwys buddion i fywyd gwylt a phobl yn y meysydd allweddol hyn:

- Dalgylchoedd Cyfle
- Rhaglen Adfer Afonydd
- Gwelliannau Ansawdd Dŵr mewn Ardaloedd Gwarchoddedig y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (gan gynnwys ACA Afonydd, Dyfroedd Ymdrochi ac ati)

- Prosiectau Cenedlaethol - e.e., y rhai sy'n berthnasol i Gymru gyfan megis prosiectau Morol

Yn gyffredinol, mae'r Rhaglen Gyfalaf Dŵr ar gyfer 2022-23 yn adlewyrchu ymrwymiad CNC i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer Dŵr yng Nghymru. Gan fod hwn yn amcan hirdymor, ymagwedd CNC fydd parhau i gyflawni prosiectau cyfalaf sydd o fudd i'r amgylchedd dŵr a phobl y tu hwnt i 2022/23.

3.2.11 Dalgylchoedd Cyfle

Ar gyfer trydydd cylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon, rydym yn anelu at gyflawni dull seiliedig ar le o flaenoriaethu dalgylchoedd sydd hefyd yn cyflwyno canlyniadau yn unol â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Nid ydym wedi dewis cyrff dŵr wedi'u targedu at ddiben cyflwyno canlyniadau o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yn unig, ond rydym wedi nodi rhestr o ddeg dalgylch sy'n cynrychioli'r gyfres orau o gyfleoedd i gyflawni dull rheoli cynaliadwy ar gyfer canlyniadau dŵr a llesiant. Roedd y broses ymgysylltu ar gyfer y Datganiad Ardal yn ganolog i'r broses o ddethol y Dalgylchoedd Cyfle hyn. Yn ogystal, bydd proses y Datganiad Ardal yn parhau y tu hwnt i 2027, ac felly bydd eu hintegreiddio yn dwyn buddion o ran Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 i'r tymor hwy. Mae deg Dalgylch Cyfle wedi cael eu nodi ledled Cymru ac maent yn cynrychioli'r cymysgedd cryfaf o gyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer dŵr ym mhob lleoliad gan ddefnyddio dull dalgylch i arfordir.


Mae Dalgylchoedd Cyfle yn sicrhau bod ymdrechion staff yn cwmpasu holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn cefnogi partneriaid i ddarparu datrysiadau ar gyfer rheoli dalgylchoedd mewn modd integredig. Disgwylir y bydd partneriaid sy'n gweithredu o fewn y deg dalgylch cyfle hefyd yn gallu cyfrannu tuag at welliannau o fewn yr ardaloedd hyn. Bydd CNC yn parhau i weithio gyda phartneriaid mewn dalgylchoedd eraill nad ydynt wedi cael eu dethol fel dalgylchoedd cyfle, gan gynnwys canolbwyntio ar fynd i'r afael ag addasiadau ffisegol, cynlluniau adfer pysgodfeydd, adfer mwyngloddiau metel, a llygredd o ddŵr gwastraff ac ardaloedd gwledig a threfol.

Mae Ffigur 9 yn dangos y deg Dalgylch Cyfle:

- Afon Dyfrdwy (y rhannau ohoni sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn unig)
- Afon Clwyd
- Conwy
- Ynys Môn
- Afon Teifi
- Afon Taf/Afon Elái
- Afon Cleddau/Aberdaugleddau
- Bae Abertawe

- Canolbarth Sir Fynwy
- Afon Ieithon

Ffigur 9 Map o'r deg Dalgylch Cyfle arfaethedig yng Nghymru



Tabl 13 Canran y cyrff ymhob Dalgylch Cyfle sy'n cyflawni statws cyffredinol da, fesul math o gorff dŵr (data dosbarthu 2021)

Enw'r Dalgylch Cyfle	Trosglwyddo dŵr wyneb afon, camlas	Llyn	Arfordirol	Trawsnewid iol	Dŵr daear	Pob un
Ynys Môn	30	20	0	0	50	26
Conwy	47	0	0	0	0	31
Afon Clwyd	40	0	Amherthn asol	0	100	43
Bae Abertawe	32	33	0	0	0	25
Afon Cleddau/Aberdaugleddau	17	0	0	0	50	17
Afon Teifi	43	0	Amherthn asol	0	0	37

Maethynnau, cemegion a phwysau ffisegol ar yr arfordir yw'r ffactorau mwyaf sylweddol sy'n arwain at fethiant dyfroedd aberol ac arfordirol i gyflawni statws/potensial da. Mae'r cyfleoedd ehangach a ddarperir drwy Ddatganiadau Ardal, a'r fframwaith ehangach o gynllunio morol sydd bellach wedi'i sefydlu, yn ei gwneud yn bosibl rhoi ffocws ychwanegol ar ddyfroedd aberol, arfordirol a morol, a'r cysylltiad â'u dalgylchoedd dŵr croyw. Mae'r Dalgylchoedd Cyfle a ddewiswyd ar gyfer y trydydd cylch wedi llwyr gymhwyso'r dull tarddiad i'r môr o reoli dalgylch, ac maent wedi nodi cyrff dŵr aberol ac arfordirol lle caiff dull o reoli dŵr mewn modd cynaliadwy ei ddatblygu. Pob cam gweithredu seiliedig ar ddalgylch a nodwyd ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd sy'n cyfrannu at gynnydd tuag at Statws Amgylcheddol Da dyfroedd morol. Bydd Rheoliadau Strategaeth Forol y DU 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i fesurau angenrheidiol gael eu cymryd i gyflawni Statws Amgylcheddol Da a chafwyd ymgynghoriad ar [Ran Tri Strategaeth Forol: Cynnig y DU ar gyfer rhaglen o fesurau](#) rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2021.

3.3 Dalgylchoedd Cyfle yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Mae chwe Dalgylch Cyfle yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, sef Cleddau ac Aberdaugleddau, Conwy, Bae Abertawe, Teifi, Ynys Môn a Chlwyd.

Crynodeb o Ddalgyrch Cyfle Cleddau ac Aberdaugleddau

Mae Dalgyrch Cyfle Cleddau ac Aberdaugleddau yn cynnwys tirwedd amrywiol o afonydd, ardaloedd aberol ac arfordirol sy'n cynnwys afonydd Dwyrain a Gorllewin Cleddau, aber Daugleddau a dyfrffordd Aberdaugleddau. Mae ACA Afonydd Cleddau, ACA Forol Sir Benfro a rhan o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCNP) yn adlewyrchu gwerth tirwedd a chadwraeth uchel yr ardal. Mae'r dalgyrch yn cynnal tyniadau cyflenwad dŵr cyhoeddus mawr, pysgod môr a physgodfeydd cregyn masnachol a nifer o weithgareddau hamdden. Nodweddion y dalgyrch yw ffermio llaeth, magu defaid a thyfu tatws. Y materion blaenoriaeth ar gyfer ansawdd dŵr yw mynd i'r afael â llygredd nitrad, ffosfforws a gwaddod o ffynonellau pwynt a gwasgareddig, addasiadau ffisegol i sianeli a glannau afonydd (gan gynnwys adlinio sianeli hanesyddol, strwythurau yn y sianel, datgysylltu gorlifdir, rhwystrau i bysgod rhag teithio a chael gwared arnynt/amharu arnynt, cynefinoedd naturiol), pori, sathru ac amaethu i ymyl y lan (colli coridor bywyd gwyllt afonol) a phresenoldeb eang rhywogaethau ymledol.

Hwlffordd yw'r dref fwyaf yn y dalgyrch ac mae ganddi broblemau llifogydd hanesyddol oherwydd bod Gorllewin y Cleddau'n llifo drwy ganol y dref i'w chyfyngiad llanwol. Amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir gyda rheoli tir yn gynaliadwy'n hynod bwysig i ffermwyr, yr amgylchedd a'r economi leol. Mae amaethyddiaeth a thwristiaeth yn hanfodol i gymunedau lleol a'r economi, gyda'r olaf yn dibynnu ar adnoddau naturiol o ansawdd uchel a thirwedd heb ei ddifetha.

Gwaith partneriaeth dalgyrch yn amrywio o weithio gyda Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Forol Sir Benfro i wella cyflwr yr ACA forol i weithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i bori tiroedd comin yr ucheldir er budd cynefinoedd a bioamrywiaeth. Mewn safleoedd ar draws y dalgyrch, mae gwaith gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru a Dŵr Cymru yn gwella ansawdd dŵr, diogelu ffynonellau dŵr yfed, cynorthwyo pysgod i symud, gwella gwytnwch cynefinoedd a rhywogaethau a darparu cyfleoedd iechyd a lles.

Bydd gweithio gyda'r diwydiant amaethyddol a dysgu o brosiectau partneriaeth fel Meithrin Cadernid mewn Dalgyrch (BRICs) a'r prosiect [Partneriaeth Menter Ecosystemau – Adeiladu Atebion Naturiol](#), yn galluogi rhagor o waith archwilio a gweithredu datrysiadau dalgyrch arloesol. Bydd hyn yn arwain at ffermydd mwy gwydn, adnoddau naturiol o ansawdd uchel a datblygiad economaidd cynaliadwy, a fydd o fudd i gymunedau a busnesau. Bydd y prosiectau [4 Afon LIFE](#) ac [Ailgysylltu Afonydd Eog Cymru - Prifysgol Abertawe](#), prosiectau yn dalgyrch y Cleddau, yn galluogi gwaith sylweddol i gael ei wneud i wella iechyd yr afon, ei phoblogaeth o bysgod trwy ddileu rhwystrau i fudo pysgod, bywyd gwyllt, ansawdd dŵr ac adfer geomorffoleg afon naturiol.

Mae effeithiau maethynnau o ddŵr gwastraff, gollyngiadau diwydiannol a thir amaethyddol yn mynd i ddyfrffordd Aberdaugleddau o'r dalgyrch ac yn effeithio ar statws y corff dŵr. Mae angen gwneud gwaith cydweithredol pellach i fynd ar drywydd gwelliannau a fydd yn lleihau llygredd maethynnau ac yn gwella cyflwr nodweddion yr Ardal Cadwraeth Arbennig forol. Drwy wneud hyn, byddwn yn helpu bywyd gwyllt, pobl a busnesau lleol i gynyddu ei gwydnwch i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r prif themâu ar gyfer Dalgyrch Cyfle Cleddau ac Aberdaugleddau yn alinio â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y [Datganiadau Ardal Morol](#) a [Datganiadau Ardal y De-](#)

[orllewin](#) ac yn benodol themâu Datganiadau Ardal y De-orllewin o 'Sicrhau Rheoli Tir yn Gynaliadwy' a 'Gwydroi'r dirywiad mewn Bioamrywiaeth'.

Rydym am weithio gyda'r gymuned amaethyddol i wella arferion rheoli tir i leihau erydiad pridd a gwella ansawdd y dŵr. Drwy weithio gydag eraill ar raddfa dalgylch gallwn fynd i'r afael â materion fel rhywogaethau goresgynnol, darnio cynefinoedd a gorfaethu sy'n bygwth bywyd gwyllt a chynefinoedd gwarchoddedig a phwysig.

Fel rhan o ddull tarddle i'r môr dalgylch cyfan, mae cyfleoedd eraill a nodir yn y dalgylch yn cynnwys adfer ffurfiau a phrosesau hydromorffeg naturiol i afonydd, rheoli mynediad i ddŵr a gweithredu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur.

Crynodeb o Ddalgylch Cyfle Afon Conwy

Mae Afon Conwy'n teithio ar draws y dirwedd yn cysylltu pobl a natur, o ffynhonnell y dŵr ar ACA/AGA Migneint-Arenig-Dduallt ac ucheldiroedd Carneddau (rhan o Safle o Diddordeb Gwyddonol Arbennig ac ACA Eryri) a Safle o Diddordeb Gwyddonol Arbennig Mynydd Hiraethog, gan gynnwys gorgors sy'n ddibynnol ar ddŵr drwy'r aber i ACA Afon Menai a Bae Conwy. Mae Coedwig Gwydir a reolir gan CNC yn cyfrif am ardal helaeth o'r dalgylch. Mae pwysau yn y dalgylch yn cynnwys diraddiad cynefinoedd (yn arbennig cynefinoedd ucheldir fel gorgors a mawndir), peryglon llifogydd o ddŵr afonydd, y môr a dŵr wyneb, gollyngiadau o fwyngloddiau metel, ffynhonnell benodol a llygredd gwasgaredig o ddiwydiant amaethyddiaeth a dŵr, addasiadau ffisegol ac asideiddio.

Mae yna hanes o lifogydd o fewn cymunedau is yn y cwm ac adeiladwyd cynllun gwella llifogydd sylweddol yn Llanrwst yn 2010, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd ffurfiol ac anffurfiol. Ceir nifer o ardaloedd perygl llifogydd a niwed arwyddocaol o gymuned mewn perygl o lifogydd. Mae 4 neu 5 ardal newid arfordirol yn dalgylch Conwy yr effeithir arnynt gan newidiadau posibl i bolisi Cynllun Rheoli Traethlin 2 erbyn 2105.

Mae'r dalgylch eisoes yn elwa o ddysgu trwy brosiectau partneriaeth, megis prosiectau [Dalgylch Conwy Uchaf](#) a [Dyffryn Dyfodol \(Dyfodol ein Cwm\)](#). Mae'r gwaith prosiectau cydweithredol a chyfatebol hyn wedi'u harwain gan bartneriaid yn gweithio gyda chymunedau, partneriaid, tenantiaid, tiffeddianwyr a phreswylwyr i wella rheolaeth tir a dŵr ac i weithio gyda phobl eraill i ddychmygu'r dyfodol gorau i bobl a bywyd gwyllt yr ardal.

Mae cyfleoedd ar gyfer cysylltu pobl â byd natur yn ymestyn y tu hwnt i Gonwy Uchaf er enghraifft yn ehangach ar draws Parc Cenedlaethol Eryri, Coedwig Gwydir ac mewn rhannau llanw ac arfordirol o'r dalgylch, megis hamdden awyr agored, mentrau twristiaeth ddiwylliannol ac antur. Mae yna economi gynaliadwy o fusnesau'n elwa ar natur.

Mae'r cyfleoedd a nodwyd yn [Natganiad Ardal Gogledd-orllewin Cymru](#) sy'n cysylltu â Dalgylch Cyfle Afon Conwy yn cynnwys adfer afonydd, mynediad i ddŵr, atebion sy'n seiliedig ar natur a rheoli dalgylchoedd. Mae'r [Datganiad Ardal Forol](#) hefyd yn amlygu camau gweithredu i wella ansawdd dyfroedd aberol ac arfordirol o fewn Dalgylchoedd â Chyfleoedd.

Crynodeb o Ddalgylch Cyfle Bae Abertawe

Mae Dalgylch Cyfle Bae Abertawe yn cynnwys Afon Tawe, Afon Nedd (afonydd isaf) ac Afon Afan, yn ogystal â dalgylchoedd y Clun a Chynffig a'r ardal arfordirol o fewn Bae Abertawe. Mae gan y dalgylch hwn dirwedd ddiddorol gyda hanes bywiog sy'n amrywio o

ucheldiroedd gwyllt Bannau Brycheiniog i ganol Abertawe. Cafwyd datblygiadau hanesyddol a diweddar yng ngwaelod y cwm ger cyrsiau dŵr mawr. Mae'r ucheldiroedd yn cynnig gwerth cadwraeth uchel gyda nifer o safleoedd niferus yn cynnwys ACA, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r gweithgaredd amaethyddol yn yr ucheldiroedd wedi'i gyfyngu i ffermio defaid a chig eidion yn bennaf, ac mae'r ardaloedd isaf yn cynnal ffermydd llaeth, cig eidion ac âr.

Yn dilyn dirywiad gweithgynhyrchu, mae twristiaeth wedi dod yn fwyfwy pwysig i'r economi leol ac mae'r ardal yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ac atyniadau hamdden. Mae'r ardal ddalgylch yn cynnwys dau ddŵr ymdrochi dynodedig - Bae Abertawe ac Aberafan.

Mae Dalgylch Cyfle Bae Abertawe yn cynnwys afonydd sydd wedi'u haddasu'n sylweddol gyda hydromorffoleg sydd wedi'i newid a phrosesau naturiol yr amharwyd arnynt. Mae hyn yn gwneud dalgylchoedd yn llai gwydn ac yn cyfyngu ar adferiad ecolegol ecosystemau afonydd. Mae'n golygu colli bioamrywiaeth, yn peryglu'r gwasanaethau ecosystemau rydym yn dibynnu arnynt, yn gwneud cymunedau a'r amgylchedd yn fwy agored i effeithiau llifogydd, sychder, erydu ac ansawdd dŵr gwael.

Mae bioamrywiaeth yn ardaloedd trefol canolog Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot yn gyffredinol wael, prin yw'r gofod amwynder ac mae cysylltedd ecosystemau yn doredig. Nid yw ansawdd aer yn dda a gall dŵr ffo trefol gael ei lygru. Mae llawer o'r dalgylchoedd afonydd yn cael eu diraddio gan Rywogaethau Estron Goresgynnol. Mae angen adnodd er mwyn mynd i'r afael â hyn gan ddechrau ar frig dalgylchoedd wedi'i gynorthwyo gan ymgysylltiad cymunedol.

Mae llygredd o ardaloedd trefol a gwledig a gweithgareddau mwyngloddio hanesyddol yn cael effaith andwyol ar ansawdd dŵr afonydd yn y Dalgylch Cyfle. Mae data a gyflenwyd gan Dŵr Cymru yn tynnu sylw at ddiffygion yn y rhwydwaith carthffos, yn arbennig ardal Afan. Bydd mynd i'r afael â hyn yn faes gwaith blaenoriaeth.

Mae galw mawr ar adegau am fathau cystadleuol o fynediad hamdden i'n hamgylcheddau dŵr croyw a morol a bydd gwella ansawdd dŵr yn hanfodol i ateb y galw hwn a manteisio ar y buddion llesiant ehangach y mae ein hamgylcheddau dŵr yn eu cynnig.

Effeithir ar gyrff dŵr gan addasiadau ffisegol, gollyngiadau gwaith trin dŵr gwastraff a charthion, llygredd o ardaloedd trefol a gwledig ac o fwyngloddiau. [Ardal Ganolog Abertawe: Adfywio ein Dinas ar gyfer Llesiant a Bywyd Gwyllt - Abertawe](#) strategaeth seilwaith gwyrdd wedi'i chynllunio i ddod â mwy o natur i Ardal Abertawe Ganolog gyda seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol o ansawdd uchel.

Drwy brosiectau Fforwm Amgylcheddol Abertawe fel Nentydd Clir, gellir datblygu prosiectau fel Nentydd Clir er mwyn hyrwyddo amgylchedd dyfrol iachach a glanach.

Mae'r blaenoriaethau yn Nalgylch Cyfle Bae Abertawe yn alinio â themâu [Datganiad Ardal De-orllewin Cymru](#), sef 'Sicrhau bod tir yn cael ei reoli'n gynaliadwy' a 'Gwyrddroi'r gostyngiad mewn bioamrywiaeth' a 'Lleihau anghydraddoldebau iechyd'. Drwy adeiladu ar fomentwm partneriaethau lleol sydd eisoes yn bodoli, ceir cyfleoedd i wella ansawdd dŵr ar gyfer bywyd gwyllt a phobl, datblygu dulliau rheoli perygl llifogydd naturiol a gwella mynediad i amgylchedd iachach. Mae'r [Datganiad Ardal Forol](#) hefyd yn amlygu camau gweithredu i wella ansawdd dyfroedd aberol ac arfordirol.

Crynodeb o Ddalgyrch Cyfle Afon Teifi

Nodwyd Afon Teifi fel Dalgyrch Cyfle oherwydd ei thirwedd, a'i dalgyrchedd afon amrywiol sy'n disgyn drwy gymoedd creigiog i lawr i borfa isel. Defnyddir y tir yn bennaf ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth ac mae gwaddol o fwyngloddio metel hanesyddol. Oherwydd ei nodweddion biolegol pwysig, mae Afon Teifi a deg o'i hisafonydd yn ACA ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae presenoldeb tirwedd prydfferth a bywyd gwyllt amrywiol yn gwella gwerth economaidd-gymdeithasol a diwylliannol yr ardal drwy ddarparu amgylchedd o safon i bobl fyw ynddo. Mae ffermio llaeth yn dominyddu yn y dalgyrch isaf gyda'r ucheldiroedd yn ffafrio ffermio defaid a choedwigaeth. Yn dechrau yn sir Ceredigion yn ei chyfanrwydd, i lawr yr afon, mae Afon Teifi yn ffurfio'r ffin rhwng Ceredigion a Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro; mae'r dalgyrch yn cynnwys isafonydd o fewn yr ardaloedd hyn. Mae Afon Teifi hefyd yn llifo drwy ACA Cors Saron a'r Warchodfa Natur Genedlaethol ac yn llifo i ACA Bae Ceredigion.

Mae materion blaenoriaeth ar gyfer dŵr yn y Dalgyrch Cyfle'n cynnwys asideiddio, effaith mwyngloddio metel hanesyddol, llygredd gwledig wasgaredig amaethyddiaeth a choedwigaeth, llygredd ffynhonnell benodol gollyngiadau carthion o'r gwaith trin dŵr gwastraff, asedau ac ardaloedd ysbeidiol o'r prif ardaloedd carthion, addasiadau ffisegol a rhywogaethau estron goresgynnol. Hefyd, mae blaenoriaethau'n cynnwys cymunedau mewn perygl o lifogydd, galwadau tynnu dŵr oherwydd defnydd dŵr sy'n cynyddu, pwysau'r newid yn yr hinsawdd a defnyddio dull integredig i reoli risg perygl llifogydd afonol ac arfordirol.

Mae Afon Teifi yn cynnal pysgodfa eogiaid a brithyllod y môr pwysig sydd mewn perygl am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys llygredd dŵr wedi'i achosi gan broblemau rheoli tir. Mae tyniadau dŵr yfed cyhoeddus strategol bwysig yn Ystrad Fflur a Llechryd. Y brif thema ar gyfer Dalgyrch Cyfle Afon Teifi yw cydweithio ag eraill i wella'r gwaith o reoli ansawdd tir a dŵr. Nod y prosiect [4 Afon LIFE](#) yw gwella cadwraeth pedair afon ACA yng Nghymru gan gynnwys Afon Teifi trwy adsefydlu ac adfer eu prosesau, nodweddion a'u cynefinoedd ffisegol naturiol.

Bydd mynd ar drywydd dulliau rheoli cynaliadwy yn lliniaru'r pwysau sy'n cynnwys mwyngloddio metel hanesyddol, rheoli tir gwledig, ffiniau artiffisial ac asideiddio sy'n cael effaith ar y statws afonydd Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac Ardaloedd Gwarchodedig a'i fioamrywiaeth o bwys rhyngwladol. Bydd gweithredu dull dalgyrch integredig yn cyfrannu at y canlyniadau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ehangach ar raddfa dirwedd ac yn dwyn budd i stociau o bysgod mudol. Mae partneriaid eisoes yn gweithio yn y dalgyrch a cheir cyfle i gyfuno gwaith ar fwyngloddiau metel, llygredd amaethyddol, rheoli tir, adfer afonydd a Rheoli Llifogydd yn Naturiol er budd ecoleg a phobl Dyffryn Teifi.

Mae blaenoriaethau yn y Dalgyrch Cyfle'n alinio â'r rheiny a nodwyd yn [Natganiad Ardal Canolbarth Cymru](#) a [De-orllewin Cymru](#) megis adferiad afonydd, mynediad i ddŵr, datrysiadau sy'n seiliedig ar natur a rheoli dalgyrchedd. Mae'r [Datganiad Ardal Forol](#) hefyd yn amlygu camau gweithredu i wella ansawdd dyfroedd aberol ac arfordirol.

Crynodeb o Ddalgyrch Cyfle Ynys Môn

Mae gan Ynys Môn amgylchedd dŵr cyfoethog ac amrywiol sy'n cynnwys ei afonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd, arfordir a thraethau. Ceir llawer o gynefinoedd,

rhywogaethau a thirweddau pwysig sy'n dibynnu ar ddŵr ar Ynys Môn gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ACA, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, sy'n dibynnu ar ansawdd a swm dŵr da er mwyn ffynnu. Fodd bynnag, mae ansawdd y dŵr o dan bwysau oherwydd effeithiau fel llygredd gwledig gwasgaredig, gollyngiadau o ffynonellau carthion a dŵr gwastraff, addasiadau ffisegol a mwyngloddio metel hanesyddol. Mae rhai ffermydd defaid traddodiadol wedi troi at ffermio llaeth: sector sy'n tyfu ar yr ynys, sy'n cyflwyno pwysau rheoli tir gwahanol. Fel arfer mae cyrsiau dŵr ar raddiant isel ac yn llifo'n araf, gyda llai o lifau fflysio ac mae hyn yn peri problemau sy'n gysylltiedig â siltio a charthu.

Y brif thema ar gyfer Dalgylch Cyfle Ynys Môn yw datblygu rhwydwaith o ecosystemau gwydn ar draws yr ynys a chysylltu pobl â'u hamgylchedd lleol. Drwy greu tirwedd lle gall bywyd gwyllt ffynnu mewn amgylchedd glân, iach a chynaliadwy, gellir datblygu gwytnwch i'r newid yn yr hinsawdd. Drwy gynnwys cyfranogiad cymunedol yn y gwaith o fewn y Dalgylch Cyfle hwn, caiff synnwyr o le, perchenogaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd lleol ei feithrin. Mae yna uchelgais yn y dyfodol ar gyfer datblygu seilwaith gwyrdd a glas Ynys Môn canolog er mwyn cysylltu pobl â lleoedd a chreu coridor bywyd gwyllt er mwyn cysylltu cynefinoedd.

ACA Ffeniau Ynys Môn yw'r ail ffendir calchaid mwyaf yn y DU ond mae mewn cyflwr anffafriol ar hyn o bryd ac yn dal i fod yn dameidiog ar draws yr ynys. Mae mesurau a roddwyd ar waith drwy brosiectau partneriaeth, fel [Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn](#) yn helpu i leihau a chael gwared ar lygryddion sydd yna'n dwyn buddion i'r cynefinoedd hyn ac yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Mae morlin cyfan Ynys Môn yn dod o fewn CRhT2 Gogledd Orllewin Cymru a nifer sylweddol (17) o ardaloedd newid rheolaeth arfordirol. Mae cymunedau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan lifogydd diweddar yn cynnwys Llangefni a Dwyrân, gyda sawl cymuned arall mewn perygl o lifogydd.

Y blaenoriaethau ar gyfer dŵr o fewn Dalgylch Cyfle Ynys Môn yw gwella gwlyptiroedd a chysylltedd ehangach ecosystemau daearol, adfer cynefinoedd afonydd, gwarchod cyrff dŵr llynnoedd gan gynnwys y rhai sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sicrhau ansawdd dyfroedd aberol ac arfordirol i gefnogi pysgodfeydd cregyn a dyfroedd ymdrochi, rheoli rhywogaethau estron goresgynnol a gwarchod rhywogaethau. Mae blaenoriaethau hefyd yn cynnwys gwella cyfathrebu a dealltwriaeth o berygl llifogydd, galluogi cymunedau i feithrin gwydnwch i berygl llifogydd, integreiddio dull dalgylch i fesurau rheoli perygl llifogydd a gwella coetir glan yr afon. Bydd mynd i'r afael â phwysau o fwyngloddio metel hanesyddol, cyfoethogi cyrff dŵr croyw, aberol ac arfordirol â maetholion yn helpu i ddiogelu dŵr yfed, bywyd gwyllt a defnyddwyr dŵr eraill. Drwy weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r is-grŵp Newid yn yr Hinsawdd, mae modd cynyddu manteision ehangach gwaith Dalgylch Cyfle ar Ynys Môn.

Mae blaenoriaethau'r Dalgylch Cyfle hefyd wedi'u nodi yn [Natganiad Ardal Gogledd-orllewin Cymru](#) megis adferiad afonydd, mynediad i ddŵr, datrysiadau sy'n seiliedig ar natur a rheoli dalgylchoedd. Mae'r [Datganiad Ardal Forol](#) hefyd yn amlygu camau gweithredu i wella ansawdd dyfroedd aberol ac arfordirol o fewn dalgylchoedd cyfle.

Crynodeb o Ddalgyrch Cyfle Afon Clwyd

Mae Dalgyrch Cyfle Clwyd yn cynnwys tri awdurdod unedol - Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Mae gan Afon Clwyd ei rhagnentydd yng Nghoedwig Clocaenog, ac mae ei phrif isafon, Elwy'n codi i'r gorllewin ar Rostir Dinbych. Mae'r dalgyrch yn cwmpasu ardal o 821.5 cilomedr², gan gynnwys darn arfordirol o 31.1 cilomedr gyda thri thraeth dŵr ymdrochi dynodedig. O ran yr ail gyfres o Gynlluniau Rheoli Traethlin a'r Datganiad Ardal Forol, bydd aber Clwyd yn destun addasu arfordirol neu ailaliniad reoledig erbyn 2055.

Amaethyddiaeth sydd â'r dylanwad mwyaf yn dalgyrch gwledig Afon Clwyd. Dynodwyd rhan o'r dalgyrch isaf fel parth perygl nitradau ar gyfer dŵr wyneb a dŵr daear cyn y cyflwynwyd Rheoliadau Llygredd Amaethyddol yn 2021.

Trwy weithio mewn partneriaethau a gyda chymunedau, gallwn barhau i fynd ar drywydd rheolaeth dalgyrch integredig o fewn Dalgyrch Cyfle Clwyd yn unol â themâu Datganiadau Ardal y [Gogledd-ddwyrain](#), y [Gogledd Orllewin](#) a [Morol](#) gan gyflawni yn erbyn blaenoriaethau perygl llifogydd ac addasu a lliniaru mewn ymateb i argyfwng yr hinsawdd. Mae gweithio gyda phartneriaid yn ein galluogi i wella ein dealltwriaeth o berygl ac ymwybyddiaeth o lifogydd a chynyddu gwydnwch i ddigwyddiadau llifogydd a galluogi cymunedau cyfredol i fod yn fwy gwydn. Mae gan ddalgyrch Afon Clwyd sawl cymuned sydd mewn perygl o lifogydd gyda'r Rhyl yn 2019 yn drydydd a Phrestatyn yn wythfed yng Nghymru ar y gofrestr berygl oherwydd risgiau cyfunol o lifogydd (heb gynnwys effeithiau'r newid yn yr hinsawdd).

Mae pwysau yn y dalgyrch yn cynnwys llygredd trefol a gwledig gwasgaredig sy'n effeithio ar ansawdd dŵr afonydd, aberoedd a'r arfordir (gan gynnwys statws dŵr ymdrochi). Bydd cynnal ansawdd dŵr ymdrochi yn cefnogi'r economi leol ac yn cyflawni manteision iechyd corfforol a meddyliol arwyddocaol i'r gymuned ac ymwelwyr, yn arbennig i gymunedau difreintiedig yn y Rhyl. Mae materion eraill yn cynnwys taddasiadau ffisegol sy'n effeithio ar hydromorffoleg a mudo pysgod, rhywogaethau estron goresgynnol, gollyngiadau carthion o weithfeydd trin dŵr gwastraff, asedau ysbeidiol ac ardaloedd nad ydynt ar brif garthffosiaeth a rheolaeth slyri. Ymhlith y prosiectau pwysig mae [Prosiect Dyffryn Clwyd Isaf](#) sy'n cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion statudol. Mae materion blaenoriaeth hefyd yn cynnwys cyflawni galwadau tynnu dŵr mewn ymateb i ddefnydd dŵr cynyddol a phwysau newid yn yr hinsawdd, gwelliannau i'r rhwydwaith hydrometreg a thelemetreg ar Afon Clwyd ac Elwy gan gynnwys Nant Barrog. Bydd gwaith yn parhau gyda chynlluniau adnoddau rheoli tir a choedwigaeth i liniaru a rheoli perygl llifogydd.

Gan ddefnyddio dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i reoli dalgyrch yn y Dalgyrch Cyfle sy'n fanteisiol i ansawdd afonol, aberol ac ansawdd dŵr morol, (gan gynnwys dyfroedd ymdrochi), cymunedau mewn perygl llifogydd, pysgodfeydd, adfer cynefinoedd, bywyd gwyllt a phobl, mae'n alinio â'r themâu hynny a nodir yn [Ardal Gogledd-ddwyrain Cymru](#) a [Gogledd-orllewin Cymru](#) gan gynnwys adfer afonydd, mynediad i ddŵr, datrysiadau sy'n seiliedig ar natur a rheoli dalgyrchchoedd. Mae'r [Datganiad Ardal Forol](#) hefyd yn amlygu camau gweithredu i wella ansawdd dyfroedd aberol ac arfordirol.

3.4 Pennu Amcanion ar gyfer y trydydd cylch

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni erbyn 2027. Nodir hyn drwy bennu amcan ar gyfer pob corff dŵr. Gellir dod o hyd i ganlyniadau manwl y

wybodaeth hon ar wefan Arsylwi Dyfroedd Cymru a cheir disgrifiad mwy manwl o'n dull yn yr **Atodiad Trosolwg Cynllunio (Cymru)**.

Yn ôl yr hyn sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau, rydym yn anelu at weithredu mesurau i gyflawni statws/potensial cyffredinol da ar gyfer dyfroedd wyneb a dyfroedd daear erbyn 2027. Caniateir amcanion amgen i'r un hwnnw, a allai arwain at ddau opsiwn ychwanegol fel a ganlyn:

- amcan o gyflawni statws is na da erbyn 2027 (amcan llai llym) yn sgil anichonolrwydd technegol (nid oes datrysiad technegol hysbys ar gael) neu gost anghymesur (cydbwysedd costau a buddion anffafriol)
- neu ddyddiad cau estynedig o gyflawni statws/potensial da y tu hwnt i 2027 oherwydd amodau naturiol (adferiad ecolegol) neu anichonolrwydd technegol ar gyfer nifer fach o gemegion

Rydym yn parhau i ddefnyddio'r un fethodoleg ar gyfer pennu amcanion ar gyfer y trydydd cylch ag a wnaethom ar gyfer y ddau gylch cyntaf, h.y. rhagweld hyn a fydd wedi'i gyflawni erbyn diwedd y cylch. Fodd bynnag, ceir cyfyngiadau yn y trydydd cylch sy'n nodi y gellir ond cyfiawnhau dyddiad cau estynedig ar gyfer rhesymau sy'n ymwneud ag amodau naturiol (ac eithrio nifer fach o sylweddau â blaenoriaeth).

Ar gyfer pob Ardal Warchoddedig, ar wahân i ardaloedd gwarchoddedig dyfroedd pysgod cregyn, yr amcan yw cyflawni cydymffurfiaeth ag unrhyw safonau/targedau ac amcanion y mae eu hangen dan y Rheoliadau perthnasol y mae'r ardal neu'r corff dŵr wedi'u gwarchod. Ar gyfer safleoedd Ewropeaidd yr amcan yw cyflawni cyflwr ffafriol. Pan fydd dau neu'n fwy o amcanion yn berthnasol i'r un corff dŵr, neu'r un rhan o gorff dŵr, mae'r amcan mwyaf llym yn berthnasol. Wrth bennu amcan Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer corff dŵr o gyflawni statws sy'n is na da, nid yw'n dderbyniol bod amcanion yn tanseilio amcan Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ardaloedd gwarchoddedig eraill, fel safleoedd Ewropeaidd.


Ar gyfer y trydydd cylch, lle mae gorgyffwrdd gofodol/ffisegol rhwng llinell yr afon, cyrff trosiannol, arfordirol, llynnoedd a safleoedd Ewropeaidd sy'n dibynnu ar ddŵr (gan gynnwys safleoedd morol) rydym wedi ystyried bod y rhain wedi'u cydleoli. Ar gyfer y cyrff dŵr hyn, nid ydym wedi gosod statws llai llym na da neu botensial am resymau dichonoldeb technegol neu gost anghymesur. Rydym yn cydnabod y gall gweithgareddau sy'n digwydd o fewn cyrff dŵr sydd i fyny'r afon, ond y tu allan i ardal ddynodi safleoedd Ewropeaidd sy'n dibynnu ar ddŵr, gael effeithiau i lawr yr afon. Mae gan CNC raglen waith barhaus i sefydlu cyfraniad effeithiau dalgylch ehangach ar Safleoedd Ewropeaidd sy'n ddibynnol ar ddŵr a rhagwelwn, wrth ddilyn iteriadau Cynlluniau Rheoli Basn Afon, y byddwn yn diwygio amcanion yn y dalgylch ehangach yn unol â hynny. Bydd gweithgareddau o'r fath, gan gynnwys gollyngiadau a thynnu dŵr, yn destun gofynion Rheoliadau Cynefinoedd 2017 fel y'u diwygiwyd.

Mae'n rhaid adolygu pob amcan ar gyfer pob cylch cynllunio wrth i dystiolaeth newydd, a mesurau i ddatrys pwysau amgylcheddol, ddod ar gael.

Mae ffigur 10 yn dangos, o'r 566 o gyrff dŵr yn y rhan o Ardal Basn Gorllewin Cymru, bod 234 â statws da, ac felly pennir amcan iddynt o atal dirywiad dros y trydydd cylch. Disgwylir i 14 o gyrff dŵr wella i statws da erbyn 2027. Mae gan 247 o gyrff dŵr eraill

statws is na da ar hyn o bryd, a phennwyd amcan o gyflawni statws da iddynt, ond credir bod y rhesymau dros beidio â chyflawni statws da naill ai heb eu nodi'n hyderus hyd yn hyn, neu fod y mesurau'n annhebygol o fod yn eu lle erbyn 2027. Mae hyn yn arwain at 495 o gyrff dŵr (87%) y pennir amcan o gyflawni statws da iddynt erbyn 2027, ond ar hyn o bryd, rydym ond yn hyderus y bydd 248 ohonynt yn cyflawni neu'n cadw statws da neu botensial (44%). Bwriedir y bydd y rhaglen o ymchwiliadau'n helpu i ddarparu amcanion mwy diffiniol ar gyfer y cyrff dŵr hyn yn y dyfodol. Mae gan 28 corff dŵr amcan sydd wedi'i oedi o gyflawni statws da erbyn 2033 neu 2039 am resymau sy'n ymwneud ag asideiddio neu am gemegion lle gweithredwyd y mesurau ar gyfer cyflawni statws da, ond lle bydd yr adferiad yn cymryd amser hwy na 2027. Yn olaf, pennwyd amcan o gyflawni statws neu botensial is na da i 43 o gyrff dŵr ar sail y ffaith y byddai'r gwaith o sicrhau eu bod yn gwella er mwyn cyflawni statws da dros y trydydd cylch yn anghymesur o gostus, neu'n dechnegol annichonadwy. Yn yr holl 43 o gyrff dŵr, bydd rhai mesurau cenedlaethol a lleol yn cael eu cymryd i wella ansawdd dŵr a chyfrannu tuag at werthoedd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy Pe byddai gwerthoedd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sylweddol yn cael eu cronni, neu fanteision i lawr yr afon yn y dalgylch o ganlyniad i ymyrraeth bellach, yna byddant yn cael eu hannog. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd mesurau dros un cylch yn ddigonol i newid statws dosbarthiad. Mae sicrhau na fydd dirywiad pellach yn parhau i fod yn amcan ar gyfer y 43 corff dŵr hyn.


Ffigur 10 Cyfran y cyrff dŵr a chategoriâu amcanion ar gyfer y rhan o Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru



Mae'r asesiad o gost anghymesur wedi'i bennu i 163 o gyrff dŵr yr ydym wedi gallu casglu costau ar eu cyfer. Ers cyhoeddi'r ail Gynllun Rheoli Basn Afon, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein galluogi i ystyried y buddion a geir o wella ansawdd dŵr nad ydynt efallai wedi'u cynnwys yng

ngwerthusiad y buddion ar gyfer Rheoliadau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr 2017, fel defnyddio'r dŵr a adferir o fwyngloddiau i wresogi tai lleol. Am y rheswm hwn, efallai y caiff mesurau mewn cyrff dŵr eu datblygu o hyd, y cyfrifir eu bod yn anghymesur o gostus o ran gofynion Rheoliadau Cyfarwydeb Fframwaith Dŵr 2017, pe gellir dangos y byddai gwerthoedd ehangach a mwy sylweddol, o safbwynt rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn cael eu gwireddu. Mae Ffigur 11 yn dangos y 163 o gyrff dŵr yr ystyrir ar gyfer asesiad economaidd ac sydd wedi'u trefnu ar yr echelin x o'r mwyaf buddiol i'r lleiaf buddiol o safbwynt y gost o'u gwella. Ceir 59 o gyrff dŵr sydd â chymhareb cost a budd o lai nag un. Mae oddeutu hanner o'r rhain yn gysylltiedig â nodweddion safleoedd Ewropeaidd, ac felly maent yn cadw eu hamcan o statws da. Y gost gyffredinol o wella'r cyrff dŵr y mae gennym gostau ar eu cyfer yw £576 miliwn. Mae'r gost wirioneddol o wella pob un o'r cyrff dŵr yn debygol o fod yn sylweddol uwch, ond y gost dybiedig o wella'r 104 o gyrff dŵr hynny nad ydynt yn anghymesur o gostus yw £100 miliwn. Er mwyn gwella'r cyrff dŵr hyn, mae'n ofynnol hefyd sicrhau bod ffactorau eraill, fel mynediad ac offerynnau rheoleiddio ar gael, a'i bod yn dechnegol ddichonadwy datrys y pwysau sy'n berthnasol iddynt.

Ffigur 11 Asesiad economaidd o wella cyrff dŵr i statws neu botensial da



4. Gweithrediad a'r hyn rydym am ei gyflawni erbyn 2027

Ffocws ar gyfer y trydydd Cynllun Rheoli Basn Afon fydd parhau i ddiogelu a gwella ansawdd dŵr yng Nghymru, gan gynnwys ardaloedd gwarchoddedig. Bydd hyn yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys lefelau cyllido o ffynonellau cyllid cyhoeddus a phreifat, yr ymrwymiad i gyflenwi gwaith, ac argaeledd mecanweithiau cyflenwi. Bydd y rhaglen o fesurau arfaethedig yn mynd i'r afael â materion lluosog ledled Cymru, bydd yn lleihau nifer yr elfennau sy'n methu mewn cyrff dŵr yn raddol, a bydd yn gwella cyflwr cyffredinol cyrff dŵr dros amser. Yr uchelgais ledled Cymru erbyn 2027 yw gwella cyflwr cyffredinol cyrff dŵr lle y bo hynny'n bosibl, atal dirywiad, a, lle y bydd adnoddau'n caniatáu, sicrhau y bydd hyd yn oed y cyrff dŵr hynny nad ydynt yn cyflawni statws da o dan gyn lleied o bwysau â phosib.

Yn 2027, byddwn yn:

- Cyflawni prosiectau a ariennir gan raglenni arian cyfalaf Llywodraeth Cymru
- Cyflawni'r Dalgylchoedd Cyfle o fewn ABA Gorllewin Cymru a chwblhau camau gweithredu lleol
- Ceisio mynd i'r afael â gwelliannau graddfa ddalgylch drwy gyfleoedd adfer afonydd a physgodfeydd cynaliadwy
- Cyflwyno'r rhaglen o ymchwiliadau a gynllunnir i lywio'n dealltwriaeth o'r problem fel y gall camau gweithredu priodol gael eu cymryd drwy fesurau a chamau gweithredu lleol cyfredol, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n codi yn ystod y trydydd cylch hwn
- Parhau i fynd i'r afael â heriau cyfredol a newydd i gyfeirio at amrywiaeth eang o bwysau, gan gynnwys ffosfforws mewn afonydd ACA, gollyngiadau o orlifoedd stormydd a defnyddio dull mwy integredig ar gyfer dalgylchoedd o'r tarddle i'r môr
- Cyflwyno canlyniadau'r prosiectau LIFE sy'n gysylltiedig â dŵr yn yr Ardal Basn Afon (wedi'u rhestru yn Atodiad 1)
- Cymeradwyo asesiadau mesurau lliniaru yn rhai o'r Cyrff Dŵr sydd wedi'u Haddasu'n Sylweddol

Byddwn yn dilyn dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer cynlluniau'r trydydd cylch er mwyn cyflwyno buddion mwy integredig i ddalgylchoedd yn unol â'r blaenoriaethau ar gyfer dŵr a nodwyd yn y Datganiadau Ardal gan ddefnyddio'r dull o'r tarddle môr i reoli dalgylch. Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn gwneud ymrwymiad i ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden a chryfhau monitro ansawdd dŵr. Mae gwella ansawdd dŵr yn sbardun allweddol i'r ymrwymiad hwn sydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i gefnogi llesiant dinasyddion Cymru a defnydd mwy amrywiol o'n dyfrffyrdd gan gymunedau lleol.

Ni all CNC gyflawni'r uchelgais o fewn y Cynllun Rheoli Basn Afon hwn ar ei ben ei hun, ac felly bydd angen i ni adeiladu ar bartneriaethau sydd eisoes yn bodoli i gyflawni datrysiadau i'r pwysau amgylcheddol.

4.1 Yr hyn yr hoffem fod wedi'i gyflawni erbyn 2027

Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r rhaglenni a gweithgareddau i fynd i'r afael â'r materion sylweddol ynghyd ag arfarniad ac amcanion economaidd a'r hyn rydym am ei gyflawni erbyn 2027. Mewn llawer o achosion, bydd angen pecynnau o fesurau i fynd i'r afael â phwysau lluosog yn yr ardal basn afon. Bydd pob un ohonynt yn gofyn am weithredu ar y cyd.

4.1.1 Addasiadau ffisegol

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Gweithgareddau Rheoli Perygl Llifogydd
- Polisi Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer rheoli amddiffynfeydd arfordirol
- Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd
- Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy
- Agenda Newid Pysgodfeydd
- Rhwystrau i fudo pysgod
- Rhaglen Adfer Afonydd

Isod, ceir arfarniad economaidd ac amcanion ar gyfer cyrff nad ydynt wedi cyflawni statws da:

Bu'n anodd pennu cost i waith adfer effeithiau ffisegol, a'r gobraith yw cyflwyno amcangyfrif gwell ar gyfer y dyfodol. Cyfrifwyd y bydd cyfanswm y gost o wella llwybrau a chynefinoedd pysgod, a lleihau effaith addasiadau ffisegol mewn 19 o gyrff dŵr yr ydym wedi gallu pennu costau ar eu cyfer, yn dod i £16 miliwn. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd y gost ar gyfer pob rhan o'r ardal basn afon yn llawer uwch. Ar y cyd â chost lliniaru pwysau eraill, ystyrir bod saith corff dŵr hyn yn anghymesur o gostus i'w gwella, ond oherwydd bod un yn gysylltiedig â safleoedd Ewropeaidd sy'n ddibynnol ar ddŵr, mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae'n cadw'r amcan o gyflawni Statws Da erbyn 2027.

Yr hyn yr hoffem fod wedi'i gyflawni erbyn 2027:

- Lle mae addasiadau i'r amgylchedd dŵr yn hanfodol i'r gymdeithas, er enghraifft mordwyaeth, cyflenwad dŵr cyhoeddus, amddiffynfeydd arfordirol, neu reoli llifogydd, rydym am liniaru effeithiau niweidiol, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl
- Cyflawni'r rhaglen adfer afonydd pum mlynedd

- Byddwn yn darparu mwy o gynefinoedd arfordirol drwy waith adlinio a reolir er mwyn gwneud yn iawn am y wasgfa arfordirol. Lle mae amddiffynfa barhaus yn hanfodol, hoffwn weld cynnydd yn nifer yr atebion sy'n seiliedig ar natur
- Sicrhau na fydd addasiadau yn y dyfodol yn achosi dirywiad
- Rydym am gynyddu maint clustogfeydd a choridorau wrth ymyl afonydd ar hyd dyfroedd mewndirol er mwyn eu gwneud yn fwy gwydn i bwysau eraill, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd
- Targedu atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer addasiadau ffisegol mewn rhai ardaloedd ar yr arfordir

4.1.2 Rheoli llygredd o garthion a dŵr gwastraff

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Rhaglen Cwmnïau Dŵr (2020-2025): Cyflawniad ymrwymadau Cynllun Rheoli Asedau 7 gan gynnwys y cynllun peilot rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, datblygu Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff a buddsoddi er mwyn bodloni safonau ffosffad ar gyfer afonydd ACA.
- Rhaglen cwmnïau dŵr (2025-2030): Bydd datblygu cynllun busnes 2025-2030 (Cynllun Rheoli Asedau 8), yn amodol ar gyllid drwy broses Adolygiad Cyfnodol y sector, yn cynnwys cyflawni camau gweithredu lleol o fewn y Dalgylchoedd Cyfle
- Map ffordd gorlif storm
- Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
- Camgysylltiadau
- Systemau Draenio Cynaliadwy

Isod, ceir arfarniad economaidd ac amcanion ar gyfer cyrff nad ydynt wedi cyflawni statws da:

Er mwyn datrys y pwysau sydd ynghlwm wrth ddŵr gwastraff, ac i ddychwelyd statws 75 o gyrff dŵr i statws da, mae'r dadansoddiad economaidd yn dangos y bydd cyfanswm y gost yn £296 miliwn, y mae'r swm hwn bron i gyd yn gysylltiedig ag uwchraddiadau i ollyngiadau yn sgil trin dŵr gwastraff. Yn ogystal â chostau gwella eraill, cyfrifir bod 39 o'r gyrff dŵr hyn yn anghymesur o gostus i'w gwella, fodd bynnag mae nifer ohonynt yn gysylltiedig â safleoedd Ewropeaidd ac felly'n parhau i fod yn flaenoriaeth a phennir amcan iddynt o ennill statws da erbyn 2027.

Yr hyn yr hoffem fod wedi'i gyflawni erbyn 2027:

- Bod pob system garthffosiaeth wedi'i gwella, a gwaith cynnal a chadw wedi'i wneud arnynt fel eu bod yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael yr effeithiau lleiaf posibl ar yr amgylchedd dŵr, o'r dalgylch i'r arfordir

- Bod datrysiadau i orlifoedd carthffosiaeth cyfunol, sy'n cyflwyno buddion lluosog, wedi'u hymgorffori yn y prosesau cynllunio a datblygu ar draws Cymru (e.e. cynlluniau trefol sy'n ystyriol o ddŵr, cynlluniau draenio cynaliadwy)
- Map ffordd gorlif storm ar waith
- Prosiect afonydd ACA - Parhau i nodi cyfleoedd a chyflwyno ymyriadau er mwyn gwella ansawdd dŵr drwy Fwrdd Cynllun Rheoli Maethynnau Afon Teifi a Chleddau
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effeithiau camgysylltiadau ac o ollwng sylweddau niweidiol i systemau carthffosiaeth (e.e. paent, olew, brasterau a chemegion gardd)
- Cynnal a gwella Dyfroedd Ymdrochi a Physgod Cregyn er mwyn hybu diwydiannau twristiaeth a dyframaethu pysgod cregyn sy'n ffynnu
- Cyflawni Cynlluniau Rheoli Asedau, gan gynnwys y cynlluniau hynny ar gyfer ACA Afon Cleddau ac ACA Afon Teifi o ran gwella ansawdd y dŵr
- Gweithio ar y cyd â chwmnïau dŵr i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwelliannau cynaliadwy i'r amgylchedd dŵr, drwy gyflawni eu gofynion amgylcheddol statudol (h.y. y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol) a datblygu datrysiadau arloesol (e.e. dalgylchoedd peilot rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy)

4.1.3 Rheoli llygredd o ardaloedd gwledig

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Themâu rheoli tir yn gynaliadwy
- Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
- Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru
- Ymwybyddiaeth o ganllawiau Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (gan gynnwys Canllawiau "Coedwigoedd a Dŵr"), a Chanllawiau Arfer, a'u gweithredu

Isod, ceir arfarniad economaidd ac amcanion ar gyfer cyrff nad ydynt wedi cyflawni statws da:

Cyfrifwyd y bydd cyfanswm y gost o ddatrys pwysau amaethyddol gan ddefnyddio deddfwriaeth gyfredol mewn 85 o gyrff dŵr yr ydym wedi gallu pennu costau iddynt yn £45 miliwn. Mae llawer o'r cyrff dŵr ar dir isel hyn yn gofyn am welliant i ollyngiadau dŵr gwastraff er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflawni statws da, a phan ystyrir cyfanswm y costau gwella, ystyrir bod 28 ohonynt yn anghymesur o gostus i'w gwella i statws da. Dylid ystyried gwaith craffu pellach ar y cynlluniau dalgylch ehangach, a gwerthoedd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, wrth gynllunio gwelliannau i ffynonellau amaethyddol o lygredd yn y cyrff dŵr hyn. Tybiwyd bod llawer o'r 28 o gyrff dŵr yn anghymesur o gostus i'w gwella ac maent hefyd mewn ardaloedd gwarchoddedig a chanddynt amcan o sicrhau statws da erbyn 2027.

Yr hyn yr hoffem fod wedi'i gyflawni erbyn 2027:

- Rydym am gryfhau mecanweithiau rheoliadol, ariannol a gweithredol i hybu sector amaethyddiaeth cynaliadwy sy'n gwarchod yr amgylchedd dŵr, o'r tarddiad i'r arfordir, ac sy'n helpu i ddarparu'r amrediad llawn o wasanaethau ecosystemau sy'n dwyn buddion ariannol, cymdeithasol ac ecolegol i Gymru
- Prosiect afonydd ACA - Parhau i nodi cyfleoedd a chyflwyno ymyriadau er mwyn gwella ansawdd dŵr drwy Fwrdd Cynllun Rheoli Maethynnau Afon Teifi a Chleddau
- Gwaith creu coetir newydd, a gwaith rheoli coedwigaeth priodol sy'n dwyn budd i'r amgylchedd dŵr, ac i bobl drwy weithgareddau hamdden yn yr awyr agored, ac sy'n darparu gwasanaethau ecosystemau, fel gostyngiad mewn llygredd gwasgaredig, llifau llifogydd llai, dŵr yfed glân, cynefinoedd i bysgod a bywyd gwylt, a chysgod ar ymylon dŵr i liniaru'r newid yn yr hinsawdd
- Ar gyfer y gwlyptiroedd hynny sy'n ddibynnol ar ddŵr daear ac sydd mewn cyflwr ecolegol gwael o ganlyniad i fewnbynau dŵr daear â lefelau uchel o faethynnau, byddwn yn annog newidiadau lleol yn y dull o reoli'r dalgylch.
- Pan fyddant ar gael, defnyddio canlyniadau'r gwaith dosrannu ffynonellau er mwyn canolbwyntio mesurau lleol gyda'r sector amaethyddol lle bo'n briodol
- Byddwn yn rheoli Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru i fodloni Canllaw Coedwigaeth a Dŵr Safon Coedwigaeth y DU o leiaf, a mynd i'r afael â llygredd o fwyngloddiau metel gan ddilyn dulliau adfer arloesol ar gyfer y gollyngiadau gwenwynig sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn sydd wedi'u lleoli ar yr ystâd
- Rydym yn nodi ac yn caffael tir ar gyfer creu coetir newydd ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Mae angen gwneud hyn er mwyn cynnal y gorchudd coetir ar Ystâd CNC, mae angen rhwng c500ha a 1,800ha dros y deng mlynedd nesaf. Mae hyn er mwyn gwneud yn iawn am ardal goetir sydd wedi cael ei cholli o'r ystâd oherwydd datblygiadau ynni adnewyddadwy, gwyrddroi coetir yn gynefinoedd agored gwerthfawr ac er mwyn sicrhau bod gan CNC gyfraniad positif net i dargedau creu coetir Cymru

4.1.4 Rheoli llygredd o fwyngloddiau

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Y Strategaeth Mwynglawdd Metel dros Gymru
- Rhaglen waith yr Awdurdod Glo

Isod, ceir arfarniad economaidd ac amcanion ar gyfer cyrff nad ydynt wedi cyflawni statws da:

Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost o wella'r 33 o gyrff dŵr sy'n methu oherwydd gollyngiadau o fwyngloddiau metel yn dod i £205 miliwn. Mae mwyafrif y costau hynny yn gysylltiedig ag adfer y mwyngloddiau metel a thrin y gollyngiadau, ond ceir ychydig o gostau nad ydynt wedi'u nodi'n fanwl gywir hyd yn hyn. Yn ogystal â cheisio datrys pwysau eraill, cyfrifwyd bod 21 o'r cyrff dŵr hyn yn anghymesur o gostus i'w gwella i statws da, ond oherwydd bod nifer o'r cyrff dŵr yn gysylltiedig â safleoedd Ewropeaidd, maent yn parhau i

fod yn flaenoriaeth o ran eu gwella ac yn cadw eu hamcan o gyflawni statws da erbyn 2027. I roi'r costau hyn mewn cyd-destun, mae'r cyllid a neilltuwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 i 2021, ac sydd ar gael i CNC ar gyfer adfer mwyngloddiau metel, yn £4.5 miliwn ar gyfer Cymru gyfan. Caiff y gwaith o flaenoriaethu gwaith adfer mwyngloddiau metel ei wneud ar lefel genedlaethol, ac mae'n ystyried materion ymarferol ehangach nag y mae'r asesiad cost a budd a gynhelir ar gyfer Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017.

Yr hyn yr hoffem fod wedi'i gyflawni erbyn 2027:

- Rydym am liniaru effeithiau mwyngloddiau segur ar yr amgylchedd dŵr drwy raglen waith strategol ledled Cymru. Bydd yn cymryd degawdau i fynd i'r afael â'r holl broblemau, a byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu sy'n cyflwyno'r canlyniadau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd gorau am fuddsoddiad y gymdeithas.

4.1.5 Rheoli llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth, gan gynnwys effeithiau asideiddio

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Y Cynllun Llygredd Dŵr Gwasgaredig, gan gynnwys Gwaith Atal Llygredd
- Cynlluniau Trefol sy'n Ystyriol o Ddŵr
- Camgysylltiadau
- Halogiad o safleoedd diwydiannol, a safleoedd gwastraff hanesyddol
- Canllawiau Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (gan gynnwys canllawiau "Coedwigoedd a Dŵr") a Chanllawiau Arfer

Arfarniad economaidd ac amcanion ar gyfer cyrff nad ydynt wedi cyflawni statws da:

Mae 43 o gyrff dŵr wedi cael eu dadansoddi ar gyfer asideiddio. Cyfanswm cost y gwelliannau, sy'n bennaf yn gysylltiedig â rheoli coetir a choedwigaeth cynaliadwy ac adferiad uwchdir, yw £12 miliwn. Wrth ystyried hyn â chost pwysau eraill, cyfrifwyd y byddai 35 o'r gyrff dŵr hynny'n fuddiol o ran cost i'w gwella.

Yr hyn yr hoffem fod wedi'i gyflawni erbyn 2027:

- Rydym am leihau effaith negyddol datblygiadau hanesyddol a datblygiadau'r dyfodol ar yr amgylchedd dŵr drwy ein rôl fel ymgynghorai ansawdd tir yn ystod y broses gynllunio neu, mewn achosion lle nad yw'r broses gynllunio'n gymwys, drwy ddarparu cyngor a chymorth i awdurdodau lleol ynghylch eu strategaeth ar gyfer archwilio tir halogedig
- Rydym am roi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth wraidd gwaith dylunio a chynllunio trefol. Gallwn sicrhau hyn drwy ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy, adfer yr ardaloedd o gwmpas afonydd a'r arfordir, gan gynnwys glannau afonydd, y gorlifdir a'r ardal rynglanwol, darparu mannau gwyrdd

cyhoeddus, codi ymwybyddiaeth, a newid ymddygiad i wella ansawdd bywyd yn ardaloedd trefol Cymru

- Rydym am i arferion defnydd tir gyfrannu at adferiad cynaliadwy a hirdymor i amodau pH naturiol mewn ardaloedd lle mae asideiddio'n ymyrryd ar brosesau ecolegol. Byddwn yn parhau i reoleiddio allyriadau llygryddion sy'n asideiddio er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r amgylchedd dŵr adfer

4.1.6 Newidiadau i lif naturiol dŵr a'i lefelau

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Rhaglen Adfer Mawndiroedd Genedlaethol Llywodraeth Cymru
- Gweithgareddau Rheoli Perygl Llifogydd
- Adolygiad o fesurau lliniaru Cyrff Dŵr sydd wedi'u Haddasu'n Sylweddol
- Prosiect gofynion amlsector ar gyfer mesurau arbed dŵr
- Gwaith Waterwise ar leihau'r dŵr a ddefnyddir

Ni fu'n bosibl cyflwyno arfarniad economaidd manwl gywir o lif naturiol dŵr a'i lefelau.

Yr hyn yr hoffem fod wedi'i gyflawni erbyn 2027:

- Rydym am gefnogi gwaith cyflwyno Rhaglen Adfer Mawndiroedd Genedlaethol Llywodraeth Cymru.
- Rydym am annog patrymau defnydd tir cynaliadwy, mewn amgylcheddau trefol a gwledig, sy'n lleihau dŵr ffo yn dilyn glawiad.
- Rydym am gyflwyno ymyriadau, fel gwelliannau i gynefinoedd yn y sianel, sy'n lliniaru effeithiau tynnu dŵr ar yr amgylchedd dŵr.
- Rydym am ddeall y gofynion dŵr ar draws sectorau yn well.
- Rydym am wella effeithlonrwydd defnyddio dŵr i leihau'r angen am weithgareddau tynnu dŵr ychwanegol yn y dyfodol.

4.1.7 Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol

Mae rhaglenni a gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Gweithredu strategaeth fwyaf diweddar Prydain ar rywogaethau goresgynnol
- Gweithio gyda phartneriaid, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu datrysiadau newydd ac arloesol, fel AquaWales ac Aquainvade a arweinir gan Brifysgol Abertawe
- Parhau i ddefnyddio a hybu mecanweithiau fel systemau cofnodi ar ffonau clyfar ac ar-lein

Ni fu'n bosibl cyflwyno arfarniad economaidd manwl gywir o reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Yr hyn yr hoffem fod wedi'i gyflawni erbyn 2027:

- Rydym am flaenoriaethu camau gweithredu i arafu neu atal lledaeniad rhywogaethau goresgynnol sy'n bodoli eisoes, a dileu'r rhain, neu gyflwyniadau newydd, lle y bo'n bosibl gwneud hynny
- Rydym hefyd am leihau, cymaint â phosibl, y perygl a berir gan rywogaethau estron goresgynnol yn gyffredinol drwy wella bioddiogelwch a gwella gwybodaeth leol ar ddsbarthiad ac effaith rhywogaethau estron goresgynnol

5. Camau gweithredu ymarferol y gallwn i gyd eu cymryd

Mae sawl cam a chamau gweithredu ymarferol y gallwn i gyd eu cymryd yn ein bywydau dyddiol, a gartref, i warchod ansawdd ein cyrff dŵr, a'i wella o bosib, ar y cyd. Mae rhai o'r rhain wedi'u crynhoi isod.

Atal llygredd i'n hafonydd, llynnoedd, dŵr daear a'r môr

- Gwiriwch fod offer cartref perthnasol wedi'u cysylltu â'r garthffos fudr, nid y draen dŵr wyneb.
- Rhowch eich sbwriel yn y bin neu ewch ag ef adref gyda chi gan gadw llynnoedd, camlesi, afonydd a'n moroedd yn rhydd o sbwriel gan gynnwys plastigion.
- Mabwysiadwch draeth i helpu i gadw traethau'n lân ac atal sbwriel yn y tarddiad.
- Sicrhewch fod storffeydd olew gartref mewn cyflwr da, a bod cofnod archwilio cyfredol.
- Sicrhewch fod tanciau septig neu weithfeydd trin carthion preifat wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, a'u bod yn gweithio'n effeithiol.
- Rhowch ffyn cotwm, clytiau a sbwriel arall yn y bin, nid yn y toiled. Gallai gyrraedd y môr neu eich traeth lleol lle y gall achosi niwed i fywyd gwyllt.
- Ewch ag olew a chemegion gwastraff, fel gwirod gwyn, i gyfleuster ailgylchu trefol: peidiwch â'u harllwys i lawr y sinc neu ddraeniau allanol.
- Defnyddiwch nwyddau glanhau ar gyfer ceginau, ystafelloedd ymolchi a cheir nad ydynt yn achosi niwed i'r amgylchedd, fel glanedyddion sy'n rhydd rhag ffosffad, a defnyddiwch gyn lleied ohonynt â phosib. Mae hyn yn helpu i atal llygredd yn y tarddiad.
- Pan welwch lygredd neu achos o dipio anghyfreithlon, rhowch wybod amdano drwy ffonio 0300 065 3000.

Gwarchod ein hamgylchedd morol

- Dylech fwyta pysgod o ffynonellau cynaliadwy, a ddalwyd gan ddefnyddio dulliau o bysgota nad ydynt yn achosi niwed i fywyd gwyllt a chynefinoedd morol.

Arbed dŵr yn eich gardd

- Dewiswch blanhigion sy'n goddef amodau sych. I helpu lawntiau trwy gyfnodau sych, peidiwch â'u torri'n rhy fyr.
- Er mwyn arbed dŵr mewn gerddi, casglwch ddŵr glaw mewn casgen ddŵr, dyfrhewch ar ddechrau neu ddiwedd y dydd, taenwch wellt ar blanhigion, a

defnyddiwch ganiau dŵr lle bo hynny'n bosibl yn hytrach nag ysgeintwyr neu bibellau dŵr.

Arbed dŵr yn eich cartref neu swyddfa

- Prynwch offer cartref sy'n isel eu defnydd o ynni ac o ddŵr.
- Gofynnwch i gwmnïau dŵr osod mesurydd cyflenwad. Gall hyn leihau'r defnydd a wneir o ddŵr yn y cartref, ar gyfartaledd.
- Dylech drwsio tapiau sy'n diferu, a lagio bibellau er mwyn eu hatal rhag hollti yn ystod tywydd rhewllyd.
- Golchwch geir â llaw.
- Ystyriwch osod systemau cynaeafu dŵr glaw yn eich cartref, bloc neu weithle. Gall hyn arbed traean o'r defnydd a wneir o'r prif gyflenwad domestig.
- Gosodwch 'hippo' neu ddyfais i arbed dŵr wrth fflysio toiled.
- Gosodwch doiled sy'n defnyddio llai o ddŵr wrth fflysio, rhowch reolwyr llif ar eich tapiau a chawodydd, a gosodwch droethfeydd di-ddŵr yn y gweithle.
- Defnyddiwch beiriannau golchi llestri neu beiriannau golchi dillad â llwyth llawn ac ar osodiad economaidd, a berwch y swm lleiaf o ddŵr sydd ei angen mewn tegellau neu sosbenni.
- Diffoddwch y tap wrth lanhau dannedd, a chymerwch gawodydd byr yn hytrach na chael bath.
- Golchwch ffrwythau a llysiau mewn powlen yn hytrach nag o dan dap sy'n rhedeg - a defnyddiwch yr hyn sy'n weddill ar blanhigion.
- Sicrhewch fod dŵr o do estyniad i'ch tŷ, neu do ystafell wydr, yn draenio i suddfan neu system ddraenio gynaliadwy, ac nid i'r garthffos gyfun.
- Sicrhewch y defnyddir deunyddiau athraidd ar gyfer unrhyw fan parcio oddi ar y lôn neu batïo o amgylch y tŷ fel y gall glaw dreiddio i'r pridd.

Helpwch i fynd i'r afael â'r bygythiad a berir gan rywogaethau estron goresgynnol

- I gael gwybod sut y gallwch gymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol ([Edrych, Golchi, Sychu](#) a [Mynd at Wraidd y Mater](#)) i helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol, ewch i [wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr](#)
- Peidiwch â phrynu, plannu na rhyddhau rhywogaethau estron goresgynnol. Cewch fynediad i'r cyngor diweddaraf am sut i reoli rhywogaethau estron goresgynnol a chael gwared arnynt yn gyfrifol drwy wefan [Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr](#)

- Gallwch ddod o hyd i leoliadau rhywogaethau estron goresgynnol yng Nghymru drwy [Borth Rhywogaethau Estron Goresgynnol](#) Atlas Cymru y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol
- Os gwelwch rywogaeth estron oresgynnol, cofnodwch hynny naill ai ar-lein (yn [iRecord](#) neu yn eich canolfan cofnodion amgylcheddol leol), drwy lawrlwytho ap ([iRecord](#) a [LERC Cymru](#)) neu drwy gysylltu â'ch canolfan cofnodion amgylcheddol leol
- Ymunwch â grŵp neu sefydliad amgylcheddol yn eich ardal sy'n cymryd camau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol (e.e. sefydliadau bywyd gwyllt neu ymddiriedolaethau afonydd), ac edrychwch hefyd ar wefan [Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr](#) am fanylion cyswllt grwpiau gweithredu lleol sy'n ymwneud yn benodol â rhywogaethau estron goresgynnol yn eich ardal

Atodiad 1

Enghreifftiau o gamau a gymerwyd yn ystod yr ail gylch ar gyfer Ardal Basn Gorllewin Cymru

Gweithio mewn Partneriaeth

Arweinydd	Cam gweithredu
Afonydd Cymru	<p>AC DC: Prosiect rheoli pridd a maethynnau, Gorllewin Cymru.</p> <p>Gan weithio'n uniongyrchol â ffermwyr ar draws nifer o ddalgylchoedd yng Ngorllewin Cymru, mae'r prosiect hwn yn dilyn dull ymarferol o wella ansawdd dŵr drwy gynnig cyngor a chymorth ariannol i ffermwyr. Mae'r prosiect ar y cyd hwn, rhwng Afonydd Cymru a Dŵr Cymru, wedi'i foddelu ar waith llwyddiannus gan dîm fferm Sefydliad Gwy ac Wysg, gan ddod â chamau gweithredu pragmataidd a chost-effeithiol ynghyd i gyflawni gwelliannau i ansawdd dŵr.</p> <p>Mae prosiectau sydd wedi'u cynllunio i amddiffyn bywyd gwylt yn llawer o afonydd mwyaf gwerthfawr Cymru wedi cael eu cymeradwyo, diolch i hwb arian parod o fwy na £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru.</p>
Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd, Conwy a Gwynedd	<p>Gwella cynefinoedd ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr yn Sir Ddinbych - Yn 2003, cafodd llwybr pysgod ei adeiladu ym Mhontuchel ar Afon Clywedog, sy'n brif isafon silio i Afon Clwyd, a'r syniad oed y byddai hyn yn agor 15 cilomedr o gynefin silio newydd i bysgod. Daeth i'r amlwg mai dim ond 8 cilomedr o gynefin silio roedd y llwybr pysgod wedi agor mynediad iddo mewn gwirionedd, a bod canran uchel o bysgod yn methu mynd heibio rhwystr rhannol arall a oedd ychydig ymhellach i fyny'r afon o Bontuchel yng Nghyffylliog.</p> <p>Cysylltodd Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd, Conwy a Gwynedd â Cyfoeth Naturiol Cymru i weld a ellid gwneud unrhyw waith i sicrhau mwy o fynediad drwy gael gwared ar y rhwystr rhannol hwn. Cwblhawyd y gwaith hwn y llynedd gan greu grisiau a phyllau fel y gall pysgod ail-gytrefu'r isafon hon. Mae'r prosiect gorffenedig yn galluogi eogiaid a brithyllod y môr i gyrraedd gwerth 7 cilomedr o ardal silio ychwanegol.</p>

Arweinydd	Cam gweithredu
Cyswllt Ffermio	<p>Nododd Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol 64 corff dŵr â blaenoriaeth mewn perthynas â mewnbynnau amaethyddol gwasgaredig, a arweinir gan Cyswllt Ffermio; camau gweithredu wedi cynnwys digwyddiadau cyrff dŵr penodol, ac ymweliadau atal llygredd ar ffermydd. Mae rhai o'r rhain yn rhan o brosiectau partneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, fel Taclo'r Tywi, prosiect Ffermio cynaliadwy – Gwastadeddau Byw, a phrosiect Clwyd Isaf.</p>
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	<p>Roedd y prosiect hwn ar Afon Eden (sy'n cael ei ariannu gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru) yn cynnwys ymyriadau ar ffermydd i wella ansawdd dŵr a gwarchod misglod perlog yr afon. Roedd hefyd yn cynnwys astudiaeth ddichonoldeb ar addasiadau morffolegol posibl i gored Crawcwellt, sy'n ymwneud â mesurau lliniaru Cyrff Dŵr sydd wedi'u Haddasu'n Sylweddol Cyfoeth Naturiol Cymru ar rannau uchaf Afon Eden.</p>
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	<p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar brosiect mawr i ddwyn budd i ddalgylch cyfan Afon Conwy - o ucheldiroedd y Migneint i'r cydlifiad ym Metws-y-coed. Drwy sicrhau gwaith rheoli tir a dŵr gwell yng Nghonwy Uchaf, byddwn yn rhoi hwb enfawr i'r amgylchedd a bywyd gwylt, cymunedau lleol a'r economi leol. Un o'r pethau y mae'r prosiect yn canolbwyntio arno yw Afon Machno, sydd wrthi'n cael ei hadfer i gyflwr mwy naturiol ac ystumiol. Drwy arafu llifau a chreu lle i ddŵr, rydym yn ailgysylltu'r afon â'i glannau, adfer gweirgloddiau sy'n dymhorol wlyb ac yn gyfoeth o flodau, ac yn lliniaru perygl llifogydd i lawr yr afon.</p>
CNC	<p>Sefydlwyd menter Taclo'r Tywi i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn nyffryn Tywi, a'i nod yw datblygu atebion cynaliadwy ac ymarferol ar gyfer y dalgyllch a fydd yn cefnogi amaethyddiaeth, coedwigaeth, cadwraeth, twristiaeth a hamdden. Un o'r heriau y mae Taclo'r Tywi yn ei wynebu yw dirywiad yn yr ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Mae gan blanhigion goresgynnol y potensial i gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth, ac mae jac y neidiwr yn bryder ar Afon Tywi oherwydd ei bod yn hawdd i hadau'r planhigion ledaenu i lawr yr afon. Mae planhigion yn cytrefu glannau'r afon yn gyflym ar draul llystyfiant arall, ac ym misoedd y gaeaf maent yn marw'n ôl gan adael ardaloedd mawr o'r</p>

Arweinydd	Cam gweithredu
	<p>glannau'n agored i erydu a chwymbo, gan gael effaith negyddol ar ansawdd dŵr.</p> <p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin ac Ymddiriedolaeth Natur Cymru, i rannu arfer gorau a gwybodaeth am reoli jac y neidiwr. Mae camau gweithredu'n cynnwys mapio'r brif afon a rhai isafonydd gan ddefnyddio'r ap Plant Tracker i gofnodi dosbarthiad, grŵp sgowntiaid lleol (Sgowntiaid Merlin Explorer) yn helpu Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin i gwblhau ymarfer mapio wyth milltir ar Afon Sawdde a thynnu a thorri Jac y neidiwr ar y brif afon ac Afon Bran yn Llanymddyfri.</p>
<p>Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)</p>	<p>Partneriaeth 'O'r Mynydd i'r Môr' - Prosiect partneriaeth sy'n archwilio dulliau arloesol o weithio ar gyfer natur ar raddfa tirwedd. Mae'r prosiect O'r Mynydd i'r Môr yn gweithio mewn ardal yng Nghanolbarth Cymru, o uwchdiroedd geirwon Mynyddoedd Cambria, i lawr drwy ddyffrynnoedd coediog i aber Afon Dyfi ac allan i ardaloedd morol gwarchoddedig Bae Ceredigion.</p> <p>Mae'r RSPB yn rhan o brosiectau ar raddfa tirwedd mewn nifer o safleoedd ledled Cymru, gan gynnwys Gwastadeddau Gwent, Elenydd–Mallaen, Coedydd Derw Meirionnydd a Gweunydd Gogledd Cymru. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dynodi'n dirweddau â blaenoriaeth i'r RSPB sy'n croesawu'r cyfle i ymgysylltu â mesurau sydd â'r nod o sicrhau bod safleoedd Ewropeaidd yn cyflawni Statws Cadwraeth Ffafirol a gwella'r amgylchedd dŵr yn yr ardaloedd hyn.</p> <p>Prosiectau Datrysiadau sy'n Seiliedig ar Natur: mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i asesu a chymharu buddion gwasanaeth ecosystem cynefinoedd coetir gwahanol. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar dri dalgylch yng Nghymru (Dalgylchoedd Dyfrdwy a Dyffryn Elan a dalgylchoedd sy'n effeithio ar Ben-y-bont).</p>

Prosiectau

Newidiadau bach i sicrhau gwelliannau mawr mewn ansawdd dŵr yn nalgylch Afon Clwyd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gyda ffermwyr ar hyd Afon Clwyd i leihau llygredd o amaethyddiaeth, sy'n gallu cael effaith niweidiol ar Ardal Warchoddedig Dŵr Ymdrochi'r Rhyl. Fel rhan o'r prosiect, ymgysylltodd staff Cyfoeth Naturiol Cymru â thua 200 o ffermwyr yn ardal Afon Clwyd, gan roi cyngor ar y ffyrdd gorau o ddiogelu'r afon rhag llygredd amaethyddol.

Roedd mesurau'n cynnwys sicrhau bod slyri'n cael ei reoli a'i daenu'n ofalus, osgoi dŵr ffo o bridd sydd wedi'i gywasgu, atal da byw rhag mynd i nentydd, rheoli dŵr ffo oddi ar lwybrau da godro, a sicrhau bod dŵr glân a budr yn cael eu cadw ar wahân.

Yn ogystal â darparu cyngor, cyfeiriodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o ffermwyr at grantiau Llywodraeth Cymru os oedd angen cymorth penodol arnynt er mwyn gwella mesurau atal llygredd, ynghyd â gweithio gyda nifer o ffermwyr ar ffensiō cyrsiau dŵr i atal gwartheg rhag cael mynediad. Mae'r gwaith hwn wedi parhau trwy weithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru.

Pelenna

Ar Afon Pelenna yn nalgylch Afon Afan, nodwyd wyth rhwystr i fudo pysgod, yn amrywio o gwlferau coedwigaeth i rampiau pontydd crog. Mae cwmpas gwaith gosod rampiau osgoi i bysgod wedi'i ddatblygu, ac er bod nifer o gamau gweithredu wedi'u nodi ar gyfer eu gweithredu gan drydydd partïon er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau, bydd angen cyllid prosiect i fynd i'r afael â'r gweddill. Cafodd cynllun adfer afon hefyd ei gwblhau ar gyfer y dalgylch hwn.

Dalgylch Burry Pill

Mae arolygon o ddalgylch Burry Pill yng Ngogledd Gŵyr wedi nodi nifer o ardaloedd lle gellid gwella cynefin torlannol er mwyn cyfrannu at wella ansawdd ecolegol y corff dŵr. Mae llwybrau pysgod a llyswennod wedi cael eu gosod yn y corff dŵr dros y blynyddoedd diwethaf, sydd â'r nod uniongyrchol o fynd i'r afael â'r elfen benodol a fethodd ar gyfer Burry Pill. Cafodd cyllid ychwanegol ei sicrhau yn 2020 i alluogi'r tîm lleol i weithredu mesurau i leihau mewnbynnau gwaddodi a maethynnau yn rhan uwch y dalgylch a achoswyd gan fynediad da byw i gyrsiau dŵr. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys rhywfaint o waith gwella cynefinoedd, ac ychydig o waith adfer pyllau, i ategu gwaith cyfagos gan Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid. Pan fydd wedi cael ei roi ar waith yn llwyr fe ddylai'r prosiect gyfrannu at y gwaith o wella iechyd a statws ecolegol ACA Burry Pill, a Bae ac Aberoedd Caerfyrddin y mae'n llifo iddynt.

Gwella cyfraddau cynhyrchu salmonidau yn naturiol

Ceir rhaglenni ar Afon Seiont ac Afon Mawddach a ddatblygwyd ers cau'r deorfeydd ac ers y daeth stocio eogiaid a brithyllod y môr i ben. Mae'r rhaglenni "mesurau lliniaru amgen" hyn a ariennir yn sicrhau bod nifer ychwanegol o eogiaid a brithyllod y môr yn cael eu cynhyrchu yn naturiol. Roedd y gwaith yn cynnwys y canlynol:

- gwella cynefinoedd silio yn yr afon (Pen Llŷn ac Afon Seiont)

- ramp osgoi i bysgod cyn y morglawdd i hwyluso mudo pysgod ar Afon Wen, sy'n isafon i Afon Mawddach
- gosod trapiau graean i greu mannau silio a gwneud gwelliannau i gynefinoedd yn yr afon trwy gyflwyno cerrig mawrion a darnau prennog afon (Afon Wnion)
- Defnyddiodd prosiectau Afon Wnion a Mawddach bren lleol a gyflenwyd trwy gydweithwyr coedwigaeth, a gweithiodd Cyfoeth Naturiol Cymru mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Mawddach

Cyngor ac arweiniad i ffermwyr

Yn ogystal â chyflawni gwaith statudol, fel trawsgydymffurfio ac ymweliadau fferm Parth Perygl Nitradau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda ffermwyr i ddarparu cyngor ac arweiniad. Yn 2016, gwnaethom gynnig profion pridd, a chynlluniau rheoli maethynnau am ddim, oddi mewn i Ffeniau Llŷn, neu o'u cwmpas, sy'n rhan o ACA Ffeniau Ynys Môn a Llŷn, ac sydd wedi'u lleoli yn y corff dŵr daear Llŷn ac Eryri sy'n methu. Dilynodd hyn waith o 2015 pan oedd gennym brosiect tebyg yn cwmpasu Ffeniau Ynys Môn a Llŷn.

Ymgofrestrodd wyth fferm yn yr ardal (nid i gyd o fewn yr ACA o reidrwydd) ar gyfer y profion pridd a'r cynllunio rheoli maethynnau am ddim, a chafodd 24 cae silwair eu samplu gan Grŵp Cyngori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr yn 2016, gan gwmpasu ardal o 95 hectar. Cafodd cynllun rheoli maethynnau penodol fesul cae eu darparu hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau dadansoddi'r pridd, taeniadau nitrogen blaenorol a thoriadau silwair yn y dyfodol.

Awgrymodd y canlyniadau bod y rhan fwyaf o gaeau'n derbyn taeniadau o nitrogen a ffosforws a oedd uwchlaw'r lefelau a argymhellir, ac y gallai lleihau'r taeniadau hyn arwain at arbedion yng nghostau gwrteithiau blynyddol o rhwng £13 a £120 fesul cae.

Rhaglen Mwynglawdd Metel (dim glo) - Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Dyma gydweithrediad rhwng CNC a'r Awdurdod Glo. Mae'r gwaith a orffennwyd yn cynnwys blaenoriaethu mwyngloddiau metel a datblygu rhaglen waith ar gyfer adfer cyrff dŵr sy'n methu safonau ansawdd cemegol ac ecolegol. Mae cynnydd wedi'i wneud mewn nifer o ddalgylchoedd, gan gynnwys Afon Teifi, Afon Rheidol, Afon Ystwyth, Afon Tywi, Afon Dyfi, ac Afon Conwy, drwy gymysgedd o astudiaethau dichonolrwydd, cwblhau camau cynllunio, a rhoi mesurau adfer ar waith ar gyfer rheoli dŵr wyneb, trin dŵr o fwyngloddiau a diogelwch. Mae gwaith ymchwil datblygu ac arloesi cyfredol yn cynnwys treialau peilot is-alkalïaidd gwasgaredig - gweithredu'r treialau goddefol cyntaf yn y DU gan ddefnyddio magnesiwm ocsid a bariwm carbonad o fewn y dilyniant triniaeth.

Sir Benfro

Gan weithio gyda dalgylchoedd Afonydd Cleddau, gan gynnwys ACA Afonydd Cleddau mewn ymateb i'r statws dosbarthu a hefyd i gyd-fynd â gwaith arall sy'n cael ei wneud yn yr ardal, mae gan y dull effeithiau buddiol ar ACA Sir Benfro Forol. Mae'n cynnwys:

- Cwblhau gwaith ar ddileu a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.
- Prosiect ffermydd llaeth – mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n cyflwyno rhaglen waith lle cynhelir ymweliadau atal llygredd amaethyddol â ffermydd llaeth yng

Nghymru. Y nod yw lleihau amlder, difrifoldeb a nifer y digwyddiadau llygredd amaethyddol, a gwella'r statws dosbarthu. Mae'r prosiect hefyd yn helpu ffermwyr i gyflawni cydymffurfiaeth reoliadol a dilyn arfer gorau. Yr uchelgais yw ymweld â phob fferm laeth yng Nghymru.

- [Prosiect Datblygu gallu dalgylchoedd i wrthsefyll newidiadau \(BRICs\)](#) - Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r prosiect hwn, ar raddfa dirwedd, wedi cynorthwyo ffermwyr mewn tri is-ddalgylch i wella gwaith rheoli dŵr, maethynnau a chynefinoedd ar raddfa fferm. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynllunio gwydnwch ffermydd, a rhoi mesurau ymarferol ar waith, e.e. gwaith sganio dargludedd pridd a dargedir, samplu pridd â grid, ac ati.

Dalgylch afon Llŵchwr

Mae samplu goddefol wedi'i gwblhau ar Afon Lliw ac mae'r data'n cael ei ddadansoddi. Nod y rhaglen samplu oedd nodi ffynhonnell yr hydrocarbonau aromatig polysyclig (HAP) a achosodd i Afon Lliw fethu.

Gwelliannau i Lwybrau Pysgod

Mae'r Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy wedi cyflwyno dros 60 o welliannau i bysgodfeydd (gan gynnwys gwelliannau i gynefinoedd a rampiau osgoi i bysgod) ar draws Gorllewin Cymru rhwng 2015 a 2020. Cyflwynwyd gwelliannau i lwybrau pysgod yn nalgylchoedd Afon Tywi, Afon Clwyd, Afon Mawddach ac Afon Seiont.

Prosiect Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn Solfach

Mae dau brif gam y gwaith wedi cael eu cwblhau i osod argaeau sy'n gollwng ac adfer afonydd. Bydd y gwaith hwn yn cynyddu gallu'r afon i lifo i'w gorlifdir, gan ddarparu manteision amgylcheddol megis adfer cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a phlanhigion.

Nod [cyllid Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru](#) (2014–2020) yw cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd sy'n weithredol wrth wella'n hadnoddau naturiol mewn ffordd sy'n dwyn buddion i fusnesau fferm a busnesau gwledig ac i gymunedau gwledig. Bydd hefyd yn cefnogi a hwyluso'r gwaith o gydlynu â chynlluniau eraill er mwyn ymgymryd â'r camau gweithredu hanfodol ac angenrheidiol i wella gwydnwch busnesau ffermio a gwledig a chymunedau gwledig yn wyneb y newid yn yr hinsawdd.

Mae'r cyllid hwn yn cyflwyno buddion ehangach, gan gynnwys i ddŵr, ac mae prosiectau perthnasol ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn cynnwys y canlynol:

- **Tir a Môr Llŷn**

O dan arweiniad Partneriaeth Tirwedd Llŷn, mae'r prosiect cydweithredol hwn yn dod â grwpiau statudol, amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol at ei gilydd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau sy'n effeithio ar yr adnoddau naturiol yn yr ardal.

- **Cynllun Dalgylch Yr Afon Eden**

Prosiect a arweinir gan ffermwyr sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd ecolegol ACA Afon Eden a'i hisafonydd ar raddfa ddalgylch drwy blannu a rheoli coed collddail

brodorol, ac mae rhagor o fanteision yn cynnwys cynefinoedd naturiol gwell, atal erydu, gostyngiad yn nwyon tŷ gwydr a llai o ddefnydd o danwydd ffosil.

- **Partneriaeth Rhostir Powys**

Prosiect ar raddfa tirwedd i hybu gwaith adfer rhostir drwy gydweithrediad o'r bôn i'r brig a lywir gan gymunedau sy'n byw ac yn gweithio ar y rhostir ac o'i gwmpas.

- **Gwireddu cyfalaf naturiol mawndiroedd yng Nghymru**

Prosiect sy'n manteisio ar gydweithrediad â rhanddeiliaid, gan gynnwys cymunedau, i drawsnewid a gwella mawndiroedd ledled Cymru. Mae gwelliannau'n cynnwys sefydlogrwydd ecolegol a dull rheoli mawndiroedd yn gynaliadwy i'r hirdymor.

Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos 1: Adfer prosesau naturiol, Afon Myherin, Ceredigion

Afon Myherin yw un o brif isafonydd system Afon Rheidol, ac mae'n llifo o'i dalgylch ucheldirol mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, trwy goetir Myherin, sy'n rhan o Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ger Pontarfynach, Aberystwyth, i Gwm Rheidol. Nodwyd cyfle i gyflwyno gwelliannau i gynefinoedd, a chyflawni gwaith adfer yn rhannau uchaf yr afon ar hyd tua 3 cilomedr o'r coridor afon ystumiol. Mae'r safle i fyny'r afon o nifer o rwystrau naturiol i salmonidau mudol, ac mae'n cynnal poblogaethau o frithyll brodorol. Rhoddodd gyfleoedd ymyrryd, ar raddfa tirwedd, i sbarduno prosesau naturiol er budd bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, lefelau llif, gwaith rheoli llifogydd yn naturiol, pysgodfeydd a llesiant.

Dechreuodd y prosiect yn gynnar yn 2018 drwy gwmpo coed conwydd fel gwastraff o fewn ardal y gorlifdir, a chafodd peth o'r pren a oedd yn haws ei gyrraedd ei dynnu oddi ar y safle. Bydd Cam 2 y prosiect yn parhau drwy rwystr ffosydd a defnyddio adeileddau yn yr afon i ailgysylltu'r afon â'r gorlifdir. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio'r prosiect hwn fel modd o arddangos gwaith adfer afonydd cost isel, technoleg isel yn fewnol, a chyda phartneriaid allanol. Roedd y prosiect yn un o'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol yng [Ngwobr Afonydd y DU 2020](#).

Astudiaeth Achos 2: Mae gwaith adfer yn dangos canlyniadau calonogol

Mae gwaith adfer a gwblhawyd gan CNC gyda'r nod o warchod cynefin prinnaf Cymru, sef cyforgorsydd yr iseldir, yn gweld canlyniadau cadarnhaol.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers mis Medi 2020 i adfer dau safle cyforgors yng Ngheredigion drwy greu dros 1.8 cilomedr o fyndiau mawn. Nod y gwaith yw adfer lefelau dŵr mwy naturiol yng Ngwarchodfeydd Natur Cors Fochno a Chors Caron, dau o'r cyforgorsydd gorau â'r lleiaf o ddifrod iddynt sydd ar ôl yn y DU. Mae'r safleoedd o bwys rhyngwladol ac yn cael eu dosbarthu fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).

Bydd adfer lefelau dŵr naturiol ar gyforgorsydd yn sicrhau eu bod yn parhau'n wlypach am hwy, gan helpu i greu ardaloedd lle gall migwyn pwysig ymsefydlu a ffynnu. Mae amrywiaeth o fathau o figwyn yn arwydd o gors iach, ac mae'r mawn mae'n ei greu'n

naturiol yn amsugno ac yn storio tunelli o garbon o'r atmosffer, gan helpu yn y frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

Drwy greu'r byndiau hyn, amcangyfrifir y bydd y ddau safle, oddeutu 85 hectar (210 erw) o gynefin cors yn elwa ac yn cael ei ddychwelyd i gyflwr da gan helpu i greu mawn newydd gan gloi mwy o garbon ynddo.

Yn y DU, mae canran anhygoel, 94%, o gyforgorsydd iseldir wedi cael ei cholli, ac mae Prosiect Cyforgorsydd LIFE Cymru yn ceisio adfer saith o'r enghreifftiau gorau oll yng Nghymru.

Astudiaeth Achos 3: Manteision niferus i afon yng ngorllewin Cymru yn dilyn cael gwared ar gored

Mae prosiect ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru i agor rhannau uchaf Dwyrain Afon Cleddau yn Vicar's Mill i bysgod mudol wedi'i gwblhau. Mae tynnu'r gored yn benllanw dros chwe blynedd o gynllunio gan CNC ac YAGC a bydd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wella iechyd Afon Cleddau a'i phoblogaeth bysgod.

Bu cored y Vicar's Mill ers y 1800au pan ddefnyddid pŵer dŵr ar gyfer melino. Roedd y llwybr pysgod yn tueddu i lenwi gyda gweddillion, gan rwystro mynediad amrywiaeth o rywogaethau pysgod mudol. Mae'r afon yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac mae nifer o rywogaethau pysgod mudol, megis llysywen bendoll yr afon a'r nant, yn cyfrannu at y dynodiad. Bydd tynnu'r strwythur yn gwella mynediad i fwy nag 20 cilomedr o gynefin i bysgod i fyny'r afon ac yn adfer geomorffoleg naturiol yr afon. Rydym yn gobeithio y bydd yr holl rywogaethau pysgod mudol yn gallu cael mynediad i ddalgylch rhan ddwyreiniol y Cleddau er mwyn silio a chwblhau eu cylchredau bywyd amrywiol. Bydd CNC yn parhau i weithio gyda phartneriaid i archwilio mwy o gyfleoedd fel hyn i adfer afonydd, neu weithio gyda phrosesau naturiol drwy waith Datganiad Ardal De-orllewin Cymru.

Astudiaeth Achos 4: Newidiadau bach am Afon lanach

Cymerodd waith gwella ansawdd dŵr ar hyd Afon Wygyr ar Ynys Môn, sy'n cael effaith ar ddŵr ymdrochi pentref glan môr poblogaidd, gam mawr ymlaen ym mis Awst 2019. Gweithiodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyda ffermwyr i leihau llygredd o amaethyddiaeth sy'n cael effaith ar Fae Cemaes. Gan ddechrau gyda saith fferm, cafodd 7 cilomedr o'r afon ei gau i ffwrdd â ffensys, a chafodd cafnau eu gosod i ddarparu dŵr yfed amgen i wartheg. At ei gilydd, bydd nifer y gwartheg a fydd yn cael mynediad at lan yr afon yn cael ei chyfyngu i 700; bydd llai o wartheg yn yr afon yn golygu llai o aflonyddwch i wely a glannau'r afon, ac mae hynny'n newyddion da i fywyd gwylt. Roedd y gwaith yn rhan o raglen ehangach o fesurau atal llygredd ar gyfer Bae Cemaes, a weithredwyd mewn partneriaeth â'r gymuned leol, yr Ymddiriedolaeth Afonydd, Dŵr Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn.

Astudiaeth Achos 5: Nentydd Clir, Abertawe

Roedd y prosiect hwn yn anelu at sicrhau bod dyfroedd Abertawe yn lân, yn iach, yn rhydd rhag llygredd, a'i bod yn bosibl eu mwynhau gan bawb. Er bod ansawdd dŵr afonydd Abertawe yn gwella, mae llawer o'r dyfroedd hyn yn methu'r safonau a osodir o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Cafodd y prosiect ei ddechrau sawl blwyddyn yn ôl, ac mae amrywiaeth o sefydliadau ynghlwm wrtho: Cyfoeth Naturiol Cymru,

Dinas a Sir Abertawe, Cadwch Gymru'n Daclus, Fforwm Amgylcheddol Abertawe, Ysgolion, Prifysgol Abertawe a sefydliadau busnes. Mae'n gweithio drwy gynnwys pobl, cymunedau a sefydliadau mewn amrediad o weithgareddau.

Cafodd dull gwahanol ei ddefnyddio mewn ardal drefol iawn yn Abertawe. Cafodd casgenni dŵr glaw eu defnyddio i ddangos bod dŵr yn adnodd ac nid yn wastraff. Mae'r gwaith wedi cynnwys ymgysylltiad rhwng Nentydd Clir a chymunedau sy'n anodd eu cyrraedd. Mae'r prosiect yn parhau ac rydym yn gobeithio cynnwys rhagor o gymunedau yn y gwaith hwn er mwyn codi ymwybyddiaeth o sut mae pob un o'n gweithgareddau'n gosod pwysau anferth ar ansawdd dŵr a'r swm ohono sydd ar gael.

Astudiaeth Achos 6: Prosiect Dalgylch Conwy Uchaf

Dechreuodd y [Prosiect Partneriaeth Conwy Uchaf](#) rhwng CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn 2015. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda chymunedau lleol, tenantiaid a thirfeddianwyr i gymryd camau gweithredu i wella rheoli tir a dŵr sensitif yn Afon Conwy uchaf, gan fod o fudd i bobl a bywyd gwyllt ar draws y dalgylch ehangach.

Mae'r bartneriaeth sy'n gyrru'r prosiect yn ei flaen wedi tyfu o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a CNC yn gweithio gydag ychydig o gymunedau allweddol gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Ystâd Foelas, Prifysgol Bangor, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Fferm Ifan. Mae Covid wedi rhwystro ymgysylltiad wyneb yn wyneb â chymunedau ond mae gwaith yn parhau gyda thirfeddianwyr a thenantiaid a'r rheiny sydd wedi mynychu digwyddiadau yn y gorffennol i barhau i dderbyn cylchlythrau.

Un o'r prif fuddion o ran adfer cynefinoedd naturiol yw'r cynnydd rydym yn ei weld yn eu gallu i storio ac arafu llif dŵr. Yn ogystal â chyfrannu at reoli llifogydd, mae manteision adfer afonydd ac ansawdd dŵr yn cynnwys gwella cynefinoedd a gwydnwch newid yn yr hinsawdd gwell ar gyfer cymunedau Llanrwst a dyffryn Conwy Isaf.

Ers 2015 mae'r prosiect wedi ailgysylltu rhannau o Afon Machno a Nant y Gwryd â'u gorlifdiroedd naturiol drwy ailbroffilio glannau'r afon a chaniatáu i'r afonydd droelli eto. Mae mwy o wrychoedd a miloedd o goed yn cael eu plannu i arafu llif dŵr dros y tir, gwella strwythur y pridd a chreu coridorau bywyd gwyllt i gysylltu cynefinoedd ynysig, yn dilyn gwaith adfer mawn a wnaed yn flaenorol ac sy'n mynd rhagddo.

Mae'r gwaith hwn eisoes yn dechrau creu gwelliannau i gynefinoedd ar gyfer pysgod sy'n silio a bywyd gwyllt.

Gwnaeth y bartneriaeth ganolbwyntio ar Nant y Gwryd: adfer afon a'r Caletwr.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: https://www.nationaltrust.org.uk/cy_gb/projects/creu-dalgylch-glanach-iachach

Astudiaeth Achos 7: Prosiect Peirianeg Gwyrdd yn helpu i adfer afon

Mae Afon Aeron yn safle silio pwysig i frithyllod y môr, eogiaid a brithyllod. Gweithiodd Cyfoeth CNC gyda Chyngor Sir Ceredigion a'r tîr feddianwr i ddod o hyd i ateb naturiol i broblemau erydu a oedd wedi'u hachosi gan bont gul, a gafodd ei hadeiladu yn y 1950au, yn Llangeitho, Ceredigion. Roedd y bont yn "pinsio'r" afon, gan ei gorfodi i lifo'n gyflymach drwy'r man cul o dan y bont, ac yn arafu'r dŵr i fyny'r afon. Achosodd hyn i waddod setlo, a arweiniodd at greu ynys graean dros amser.

Mae ychydig o goed wedi'u gosod ar lan yr afon i atal erydu pellach, a chafodd dwy goeden eu gosod yn rhannol yn y lan er mwyn dargyfeirio'r llif. Mae hyn wedi creu rhwystr naturiol sy'n amddiffyn y lan ac yn dargyfeirio prif lif yr afon ymlaen i'r ynys graean. Mae hyn yn araf yn lleihau'r gwely graean, gan greu pyllau ar gyfer pysgod a chan adael graean mân y mae'r pysgod ei angen i silio.

Prosiectau LIFE

4 Afon LIFE (LIFE20 NAT/UK/000100)

Prosiect adfer afonydd mawr gwerth £9.1 miliwn dan arweiniad CNC ar draws pedair afon ACA; Afon Teifi, Tywi, Cleddau ac Afon Wysg (ABA Hafren) wedi'i hariannu'n rhannol trwy gyllid LIFE gyda chyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, DCWW, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y Ganolfan Adfer Afonydd a Choed Cadw. Dechreuodd y prosiect yn 2021 a bydd yn para am bum mlynedd, gan gynnal amrywiaeth o fesurau i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig ar draws y pedwar dalgylch afon yn ogystal â chynyddu gwydnwch yr afonydd trwy adfer prosesau naturiol a nodweddion cynefinoedd. Bydd y camau gweithredu hyn yn parhau i wella ansawdd cynefinoedd yr afon yn ogystal â rhywogaethau a warchodir gan gynnwys eogiaid, llysywen bendoll yr afon a'r môr, gwangen a herlod a misglod perlog yr afon.

Cyforgorsydd LIFE (LIFE19 NAT/UK/000888)

Yn cychwyn ym mis Ionawr 2021 ac yn parhau tan fis Rhagfyr 2025, bydd y prosiect hwn a arweinir gan CNC gyda chefnogaeth gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am gost o £4.6 miliwn yn cynnwys ACA cyforgorsydd:

- Cors Crymlyn
- Corsydd Eifionydd
- Rhos Goch (Ardal Basn Afon Hafren)
- Comin Gogledd-orllewin Penfro
- Gweunydd Blaencledda
- Cors Caron

Prosiect Twyni Byw LIFE (LIFE17 NAT/UK/000023)

Yn cael ei gynnal rhwng mis Medi 2018 a mis Rhagfyr 2022, nod prosiect Twyni Byw LIFE yw adfywio twyni tywod ledled Cymru drwy ail-greu symudiad naturiol yn y twyni ac adnewyddu cynefinoedd. Bydd y prosiect gwerth £4 miliwn, a ariannwyd yn wreiddiol drwy raglen LIFE ac wedi'i arwain gan CNC ac a ariannwyd yn rhannol gan Lywodraeth Cymru, yn adfer dros 2,400 hectar o dwyni tywod ar ddeg safle gwahanol, o fewn pedair ACA, ac i gyd o fewn cwrpas Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru. Nod y prosiect yw dod â statws cadwraeth ffafriol i dwyni trwy alluogi i rai symud, ailgyflwyno pori, clirio prysgwydd a rhywogaethau goresgynnol, a datblygu rhaglen gyfathrebu gynhwysfawr.

Prosiect Cyforgorsydd Cymru newydd (LIFE16 NAT/UK/000646)

Ym mis Hydref 2017, dyfarnwyd £4 miliwn i Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri, tuag at brosiect a oedd wedi'i ariannu gan raglen LIFE yn wreiddiol, i adfer cyforgorsydd tir isel ar draws saith safle yng Nghynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru. Nod y prosiect arloesol ac uchelgeisiol hwn sy'n para am bedair blynedd yw adfer saith o'r enghreifftiau gorau oll o gyforgorsydd yng Nghymru. Caiff ardal dros 900 hectar ei hadfer i gyflwr gwell, gan weithio tuag at gyflawni amcanion ardaloedd gwarchoddedig ar gyfer saith Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae hyn yn cynrychioli 50% o'r cynefin gwlyptir hwn yng Nghymru a 5% yn y DU.

Perlau mewn Perygl (LIFE/NAT/000383: PIP GB)

Roedd y prosiect a ariannwyd gan LIFE, ac a arweiniwyd gan Scottish Natural Heritage, yn cwmpasu 21 afon ar draws y DU, gan gynnwys Afon Eden - ACA Cors Goch Trawsfynydd yng Nghymru. Cynhaliwyd y prosiect o 2012 hyd at fis Mawrth 2017, a chostiodd £3.5 miliwn. Mae Perlau mewn Perygl wedi adfer 2.4 cilomedr o gynefin yn yr afon, gan gynnwys sbarduno gwelyau graean i greu cynefin silio pysgod, a gosod cerrig mawrion o waith hanesyddol i warchod glannau'r afon i ailgyflwyno is-haen gwely'r afon a chreu cynefin ar gyfer misglod dŵr croyw. Er mwyn mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig o weithgareddau coedwigaeth, roedd gwaith y prosiect yn cynnwys cael gwared ar 2 hectar o adfywiad conwydd, rhwystro 12 cilomedr o ddraeniau coedwigaeth, codi 4.5 cilomedr o ffensys i atal da byw rhag cael mynediad, ac adeiladu 11 pwl gwaddodi. Mae'r gwaith hwn yn adfer 54 hectar o floc coedwigaeth Brynteg i goetir gwlyb a gorgors, ac mae'n lleihau'r lefelau o lygredd gwasgaredig sy'n mynd i mewn i Afon Eden.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy dderbyn caniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru